





**Camau Cynnar
gyda'n Gilydd**
**Early Action
Together**

Rhaglen ACEau yr Heddlu a Phartneriaid
Police & Partners ACEs Programme

**Gwerthusiad o'r hyfforddiant wedi'i
lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod
Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth
Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME):
cyflwyno'n genedlaethol i'r heddlu a
phartneriaid**



Gwerthusiad o'r hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth (ACE TIME): cyflwyno'n genedlaethol i'r heddlu a phartneriaid.

Awduron

Dr Freya Glendinning¹, Emma R Barton², Annemarie Newbury², Dr Hayley Janssen², Georgia Johnson², Gabriela Ramos Rodriguez², Dr Michelle A McManus², Sophie Harker², a'r Athro Mark A. Bellis².

¹ Uned Gydwethredu Iechyd Cyhoeddus, Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor

² Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydwethredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Diolchiadau

Ariannodd y Swyddfa Gartref y gwaith hwn drwy gronfa Gweddnewid yr Heddlu (Cyf: PR-105).

Hoffem fynegi ein diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwerthusiad, gan gynnwys swyddogion yr heddlu a staff partneriaid aml-asiantaeth yn gweithio ar draws heddluoedd Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru.

Diolch i'r Gwasanaeth Cydlynwyr ACE Cenedlaethol, Barnardo's Cymru, am ganiatáu mynediad llawn i'r tîm ymchwil at holl elfennau'r hyfforddiant ACE TIME.

Diolch i heddluoedd Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru, yn enwedig y Tîmau Cyflawni Lleol o fewn pob heddlu, am gefnogi'r gwaith o ddarparu'r hyfforddiant ac am roi mynediad i'r tîm ymchwil er mwyn iddynt gynnal y gwerthusiad.

Hoffem ddiolch i Bethan Jones, Dr Jo Roberts, Dr Catherine Foster a Felicity Morris am eu cyfraniad at gasglu data, ac i dîm y rhaglen genedlaethol am gymorth ac arweiniad parhaus.

Hoffem ddiolch i Will Hardy, Prifysgol Bangor, am ei waith sicrhau ansawdd ar y canfyddiadau a adroddir drwy gydol yr adroddiad.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'r Athro Karen Hughes a Dr Rebecca Hill am adolygu'r adroddiad a rhoi adborth.


ISBN: 978-1-78986-154-81

© 2020 2020 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, dyluniad a chynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Strwythur y Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd



Nodau Cyffredinol y Rhaglen



Trawsnewid ymatebion yr heddlu a phartneriaid i bobl sy'n agored i niwed, i gyflwyno dull systemau cyfan amlasiantaeth i alluogi ymyrraeth gynnar a gweithgarwch ataliol pan mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a thrawma yn amlwg ac mae teuluoedd mewn perygl o ganlyniadau gwael.

Amcanion Cyffredinol y Rhaglen



Gweithlu cymwys a hyderus i ymateb yn fwy effeithiol i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE mewn plismona amser cyflym ac araf.



Capasiti a gallu sefydiadol sy'n rhagweithiol yn cwrrd â gofynion newidiol



'Drws ffrynt' 24/7 integredig seagl ar gyfer pobl sy'n agored i niwed sy'n cyfeirio, yn cefnogi ac yn diogelu sy'n cynnwys gwasanaethau 'golau glas', lles ac iechyd.



Ymateb system gyfan i bobl sy'n agored i niwed drwy weithredu dulliau wedi'u llywio gan ACE ar gyfer plismona gweithredol a phartneriaid allweddol.

Y Dull Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod Cenedlaethol i Blismona Pobl Sy'n Agored i Niwed: rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd (E.A.T.)



Camau Cynnar
gyda'n Gilydd
Early Action
Together

Rhaglen ACEau yr Heddlu a Phartneriaid
Police & Partners ACEs Programme

Wedi'i hariannu gan y Swyddfa Gartref i gyflwyno rhaglen o newid ledled Cymru (2018-2020), mae'r rhaglen E.A.T. yn gydweithrediad unigryw rhwng lechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), pedwar heddlu Cymru a Chomisïynwyr yr Heddlu a Throseddu, mewn partneriaeth â sefydliadau Cyfiawnder Troseddol, Cyfiawnder Ieuenctid a'r trydydd sector.

Mae'r rhaglen yn mynd ati i fynd i'r afael â'r galw cynyddol ar wasanaethau gan bobl sy'n agored i niwed i drawsnewid y ffordd y mae'r heddlu ac asiantaethau partner yn cydweithio i ymateb i bobl sy'n agored i niwed y tu hwnt i ddiogelu statudol. Gan gydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar a champau ataliol, bydd y rhaglen yn datblygu ymateb systemau cyfan i bobl sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod llwybrau cymorth ar gael i'r heddlu pan fydd y graddau o fod yn agored i niwed yn disgyn yn is na'r trothwyon ar gyfer cymorth statudol. Gan adeiladu i mewn i'r systemau presennol, bydd y gwaith hwn yn defnyddio asedau cymunedol presennol i ddatblygu cronfa o adnoddau i'r heddlu a phartneriaid eu defnyddio wrth gefnogi pobl yn eu cymunedau.

Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o gyhoeddiadau ymchwil a fydd yn ein galluogi i ddeall a dangos tystiolaeth effaith y rhaglen E.A.T.:

- Trosglwyddo o arloesi gan yr heddlu i raglen drawsnewid genedlaethol: trosolwg o'r broses o gynyddu hyfforddiant a gwerthuso wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) a thrawma
- Deall tirwedd plismona wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed: cyfweiliadau gyda swyddogion rheng flaen ledled Cymru
- Gwerthusiad o'r hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME): cyflwyno cenedlaethol i'r heddlu a phartneriaid
- Galluogi ymyrraeth gynnar ac atal wrth blismona pobl sy'n agored i niwed: gwerthusiad o rôl yr heddlu wrth ddarparu gwasanaethau integredig aml-asiantaeth
- Safbwyntiau'r heddlu ar yr hyfforddiant wedi'i Lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME) ar draws Cymru.

Mae'r rhaglen ymchwil hon yn ymchwilio i effaith ymateb ymyrraeth gynnar ac ataliol i bobl sy'n agored i niwed mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol. Mae ymchwil a gwerthuso yn cael ei gwblhau ynghylch hyfforddiant ACE TIME, a sut mae wedi cael ei sefydlu; yn ogystal â gwerthusiad o lesiant yr heddlu a phartneriaid.

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen E.A.T. ewch i'r wefan: www.aces.me.uk



Cynnwys

Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad	4
Tabl y crynodeb gweithredol.....	5
Crynodeb Gweithredol.....	6
1. Cyflwyniad.....	13
1.1 Ymatebion presennol i bobl sy'n agored i niwed o fewn yr heddlu	13
1.2 Pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac atal: yr angen am newid.....	15
1.3 Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd (E.A.T.)	16
1.4 Yr Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod a Thrawma (ACE) Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (TIME).	16
1.5 Gwerthusiad o'r pecyn hyfforddiant ACE TIME.....	18
2. Dull.....	19
3. Canfyddiadau	23
3.1 Hyder wrth ddeall a gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs	25
3.1.1 Hyder cyn ac ar ôl yr hyfforddiant yn ôl demograffeg.....	26
3.1.2 Hyder yn cyflwyno atgyfeiriadau agored i niwed (heddlu).....	29
3.2 Ymatebion i senarios plismona gweithredol (ymddygiad gwrthgymdeithasol)	30
3.3 Ymatebion i senarios plismona gweithredol (cam-drin yn y cartref).....	36
3.4 Mesurau o ran agwedd a newid mewn sicrwydd agwedd cyn ac ar ôl yr hyfforddiant	43
3.4.1 Gwahaniaethau mewn agwedd a sicrwydd agwedd yn ôl demograffeg.....	46
3.4.2 Gwahaniaethau mewn agwedd a sicrwydd agwedd yn ôl demograffeg.....	48
3.5 Hyder a chymhwysedd i ymateb i bobl sy'n agored i niwed ar ôl yr hyfforddiant.....	50
3.6 Dealltwriaeth ar ôl yr hyfforddiant o ddull wedi'i lywio gan ACE o weithio gyda phobl agored i niwed	52
3.6.1 Dull wedi'i lywio gan ACE o weithio gyda phobl agored i niwed yn ôl demograffeg ...	53
3.7 Defnyddioldeb hyfforddiant ACE TIME i gynyddu gwybodaeth	55
3.7.1 Defnyddioldeb hyfforddiant i gynyddu gwybodaeth yn ôl demograffeg	55
3.8 Cyflwyno'r hyfforddiant ACE TIME.....	56
3.8.1 Cyflwyno'r hyfforddiant yn ôl demograffeg	57
3.9 Sylwadau Agored Ar Ôl Yr Arolwg.....	57
4. Trafodaeth ac Argymhellion	64
Cyfeiriadau	71

Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad

ACEs	Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
Hyfforddiant ACE TIME	Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd
ASB	Ymddygiad gwrthgymdeithasol
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
CoP	Coleg Plismona
CID	Adran Ymchwilio i Droseddau
CRU	Uned Gostwng Troseddu
DA	Cam-drin yn y cartref
DC	Ditectif Gwnstabl
DPP	Heddlu Dyfed Powys
DS	Ditectif Rhingyll
E. A. T	Camau Cynnar gyda'n Gilydd
EIF	Early Intervention Foundation
GWP	Heddlu Gwent
HMICFRS	Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Achub a Thân ei Mawrhydi
LDS	Gwasanaeth Datblygiad Dysgu
MA	Amlasiantaeth
MARF	Ffurflen atgyfeirio aml-asiantaeth
NFA	Dim camau pellach
NPCC	Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
NPT	Tîm Heddlu Cymdogaeth
NWP	Heddlu Gogledd Cymru
PC	Cwnstabl yr Heddlu
PCSO	Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu
PO	Swyddog yr Heddlu
PPN	Hysbysiad diogelu'r cyhoedd
PPU	Uned diogelu'r cyhoedd
PS	Rhingyll yr heddlu
PTF	Cronfa trawsnewid yr heddlu
SWP	Heddlu De Cymru

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol cyn ac ar ôl yr hyfforddiant ACE TIME*

Hyder wrth ddeall a gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs	Heddlu				Partneriaid MA			
	Cyn hyfforddiant	Ar ôl yr hyfforddiant	Cyfeiriad y newid	Cryfder y newid**	Cyn hyfforddiant	Ar ôl yr hyfforddiant	Cyfeiriad y newid	Cryfder y newid**
• Hyder a hunan-raddiwyd wrth weithio gyda phobl agored i niwed	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol
• Hyder a hunan-raddiwyd wrth ddeall a gweithio gyda ACEs	Cymedrol	Uchel	↑	Sylweddol	Cymedrol	Uchel	↑	Sylweddol
Mabwysiadu negeseuon allweddol								
• Mae'n bwysig i swyddogion yr heddlu ddeall beth yw ACEs	O blaid	O blaid	↑	Sylweddol	O blaid	O blaid	↔	Dim tystiolaeth
• Sicrwydd agwedd tuag at y neges hon	Cymedrol	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↑	Cymedrol
• Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gefnogi unigolion sy'n profi trawma	O blaid	O blaid	↑	Sylweddol	O blaid	O blaid	↑	Dim tystiolaeth
• Sicrwydd agwedd tuag at y neges hon	Cymedrol	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↔	Sylweddol
• Dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i atal a lliniaru ACEs a thrawma cysylltiedig	O blaid	O blaid	↑	Sylweddol	O blaid	O blaid	↑	Dim tystiolaeth
• Sicrwydd agwedd tuag at y neges hon	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↔	Sylweddol
Ymatebion i senarios plismona gweithredol								
• Sgorau ar ba mor debygol ydyw bod plentyn sy'n arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol eraill ar hyn o bryd	Cymedrol	Uchel	↑	Sylweddol	Cymedrol	Uchel	↑	Sylweddol
• Sgorau ar ba mor gyfrifol yw plentyn sy'n arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol am ei weithredoedd	Uchel	Cymedrol	↓	Sylweddol	Cymedrol	Cymedrol	↔	Dim tystiolaeth
• Sgorau ar ba mor agored i niwed yw plentyn sy'n arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↔	Dim tystiolaeth
• Sgorau ar i ba raddau y mae digwyddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater i'r heddlu	Cymedrol	Uchel	↑	Sylweddol	Cymedrol	Cymedrol	↑	Sylweddol
• Sgorau ar ddifrifoldeb y digwyddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol	Cymedrol	Cymedrol	↑	Sylweddol	Cymedrol	Cymedrol	↑	Sylweddol
• Sgorau ar a fyddai'r cyfranogwyr yn ystyried gweithdrefnau diogelu plant ar gyfer plant sy'n bresennol mewn achos o gam-drin yn y cartref	Uchel	Uchel	↔	Dim tystiolaeth	Uchel	Uchel	↑	Cymedrol
• Sgorau ar a fyddai'r cyfranogwyr yn ystyried gweithdrefnau diogelu oedolion ar gyfer oedolion sy'n bresennol mewn achos o gam-drin yn y cartref	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol
• Sgorau ar ba mor debygol yw hi y ceir ail alwad yng nghyfeiriad digwyddiad cam-drin yn y cartref	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol
• Sgorau ar ba mor agored i niwed yw'r plant sy'n bresennol mewn achos o gam-drin yn y cartref	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↑	Cymedrol
• Sgorau ar i ba raddau y mae digwyddiad ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater i'r heddlu	Uchel	Uchel	↔	Dim tystiolaeth	Uchel	Uchel	↔	Dim tystiolaeth
• Sgorau ar ddifrifoldeb digwyddiad cam-drin yn y cartref	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol	Uchel	Uchel	↑	Sylweddol

*Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu dadansoddi ymhellach yn ôl rhyw, ardal heddlu, rôl swydd (yr heddlu), y sector (partneriaid MA), oedran a hyd yr amser yn y gwasanaeth – gweler yr adroddiad am fanylion pellach **Cryfder newid yn seiliedig ar brofion ystadegol (sef, prawf t samplau pâr Bayesaidd) yn asesu'r gwahaniaeth mewn sgorau cymedrig cyn ac ar ôl yr hyfforddiant ACE TIME

Allwedd ↔ dim newid ↑ cynyddwyd ↓ gostyngwyd

Crynodeb Gweithredol

Mewn cymdeithas sy'n prysur newid, mae plismona modern yn wynebu pwysau newydd a galwadau cynyddol i ymateb i ddigwyddiadau o ffigyriad uchel, niwed, risg a bod yn agored i niwed. Mae ymateb i ddigwyddiadau o'r fath wedi dod yn elfen graidd o blismona ledled y DU. Er bod yr heddlu mewn sefyllfa dda i nodi ac ymateb i bobl sy'n agored i niwed, mae ymchwil wedi amlygu nad yw dulliau, hyfforddiant a systemau plismona traddodiadol wedi'u llunio i ddiwallu'r lefelau a'r mathau o alw gan bobl sy'n agored i niwed. Mae Cyngor Cenedlaethol Penaeithiaid yr Heddlu (NPCC) a'r Coleg Plismona (CoP) wedi tynnu sylw at yr angen i drawsnewid plismona yn y DU i ddatblygu gweithlu o weithwyr proffesiynol hyderus gyda'r sgiliau i ymateb i bobl sy'n agored i niwed ac anghenion cymhleth y gymuned leol.

Nod rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd Cymru gyfan (E.A.T.) oedd datblygu ymateb systemau cyfan i bobl sy'n agored i niwed er mwyn galluogi'r heddlu a phartneriaid amlasiantaeth (MA) i adnabod arwyddion o fod yn agored i niwed ar y cyfle cyntaf ac i gydweithio i ddarparu mynediad i gefnogaeth y tu hwnt i wasanaethau statudol. Yn allweddol i gyflawni hyn oedd datblygu a darparu'r rhaglen hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (ACE TIME). Mae'r hyfforddiant ACE TIME yn anelu at sicrhau bod gan yr heddlu a phartneriaid MA y wybodaeth a'r sgiliau priodol i ymateb i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull gweithredu wedi'i lywio gan ACE a thrawma. Adeiladodd yr hyfforddiant ar gynllun peilot graddfa fach a gynhaliwyd o fewn Heddlu De Cymru¹ a chafodd ei ddatblygu ymhellach gan y Gwasanaeth Cydlynu ACE a oedd wedi'i leoli o fewn Barnardo's a thîm rhaglen genedlaethol E.A.T.

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor werthusiad annibynnol o'r hyfforddiant ACE TIME i gofnodi ei effaith uniongyrchol ar wybodaeth, ymarfer, cymhwysedd a hyder partneriaid yr heddlu a MA wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys nifer o holiaduron cyn ac ar ôl yr hyfforddiant yn ymgorffori mesurau a ddilyswyd yn flaenorol¹ a nifer o gwestiynau penagored (gweler tud. 21) gyda blychau testun agored ar gyfer sylwadau'r cyfranogwyr.

Gwerthusodd yr adroddiad cyfredol gam un y broses o gyflwyno'r hyfforddiant ACE TIME (rhwng mis Medi 2018 a mis Ionawr 2019). Yn ystod y cyfnod casglu data, hyfforddwyd 1,034 o weithwyr proffesiynol, a chymerodd 996 ohonynt ran yn y gwerthusiad (849 o swyddogion neu staff yr heddlu a 147 o bartneriaid MA). Cymerodd bartneriaid yr heddlu a phartneriaid MA ledled Cymru o ystod o wahanol rolau gweithredol a thimau ran yn y gwerthusiad (gweler tabl 3, tud. 24). Ymhlith cyfranogwyr yr heddlu, roedd tua hanner yn gweithio mewn rolau ymateb (h.y., ymateb '999'; 51%). Roedd 21% arall yn gweithio o fewn timau plismona yn y gymdogaeth (NPT); ac roedd y rhai o'r uned diogelu'r cyhoedd (PPU), y ddalfa, yr adran ymchwilio troseddol (CID) a rolau ymchwilio eraill yn cynrychioli gweddill yr adrannau (28%). Ymhlith partneriaid MA, roedd tua 22% yn gweithio gyda gwasanaethau addysg plant a phobl ifanc; 22% o fewn y sector diogelu, gofal cymdeithasol a theuluoedd, 22% yn y sector iechyd a llesiant a 16% ym maes tai, cymuned ac awdurdod lleol.

¹ Cyfeirier at Newbury A, Barton ER, et al. Transitioning from Police Innovation to a National Programme of Transformation: An overview of the upscaling of Adverse Childhood Experience (ACE) and trauma-informed training and evaluation. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2019 am adolygiad llawn o'r mesurau a ddefnyddiwyd.

Prif Ganfyddiadau

Hyder wrth ddeall a gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs

- Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA yn hyderus iawn wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed ($M = 7.9$ a 8.3 allan o 10.0 , yn y drefn honno) ac yn gymedrol hyderus o ran deall a gweithio gydag ACEs ($M = 5.1$ a 6.6 allan o 10.0 , yn y drefn honno).
- Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA wedi cynyddu o ran hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed o 4.8% a 4.2% , yn y drefn honno, o'r gwaelodlin.
- Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA wedi cynyddu o ran hyder wrth weithio gydag ACEs o 68.9% a 39.1% , yn y drefn honno, o'r gwaelodlin.
- Cyn yr hyfforddiant, roedd hyder yr heddlu o ran gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs yn uwch gydag oedran a hyd amser a wasanaethwyd yn yr heddlu. Ar ôl yr hyfforddiant, nid oedd y perthnasoedd hyn yn arwyddocaol (gweler tabl 5, tud 29). Mae hyn yn awgrymu bod yr heddlu iau a'r rhai sydd â llai o amser gwasanaeth yn cael mwy o hyder o'r hyfforddiant; sy'n golygu bod unigolion â llai na 3 blynedd o brofiad yn y llu yn gadael yr hyfforddiant â lefelau hyder sy'n cyfateb i rai'r heddlu a oedd wedi gwasanaethu am >20 mlynedd yn y llu cyn iddynt dderbyn yr hyfforddiant (gweler ffigur 4, tud. 28).
- Roedd hyder heddlu Gwent (GWP), Gogledd Cymru (NWP) a Dyfed Powys (DPP) yn uwch wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed ar ôl cael yr hyfforddiant, ond nid oedd tystiolaeth o gynnydd yn Heddlu De Cymru (SWP). Fodd bynnag, nododd Heddlu De Cymru lefel sylweddol uwch o hyder ($M = 8.2$ allan o 10.0) cyn yr hyfforddiant o gymharu â'r tair ardal heddlu arall ($M \leq 7.8$ allan o 10.0). Amlinellir esboniadau posibl am y canfyddiad hwn yn y drafodaeth (gweler tud. 64). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod gan yr heddlu o ardaloedd heddlu â sgôr hyder gymedrig o lai na thua 8.0 fudd hyder mwy uniongyrchol yn dilyn yr hyfforddiant.
- Cyrhaeddodd yr heddlu a phartneriaid o bob cefndir demograffeg lefelau tebyg ac uchel o hyder ar ôl yr hyfforddiant. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod presenoldeb mewn hyfforddiant yn galluogi hyder ar draws y llu yn y ddealltwriaeth o weithio gydag ACEs a phobl sy'n agored i niwed.

Hyder a chymhwysedd i ymateb i bobl sy'n agored i niwed gyda dull wedi'i lywio gan ACE

- Dywedodd cyfranogwyr y bydd yr hyfforddiant yn eu galluogi i ymateb yn fwy hyderus a chymwys i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE (gweler tabl 9, tud. 78).
- Dywedodd yr heddlu benywaidd y bydd yr hyfforddiant yn eu galluogi i ymateb yn hyderus a chymwys i bobl sy'n agored i niwed yn sylweddol fwy nag a wnaeth heddlu gwrywaidd (gweler ffigur 15, tud. 51).
- Dywedodd cyfran fawr o'r cyfranogwyr (heddlu $N = 113$ o sylwadau a phartneriaid MA $N = 43$ o sylwadau) fod yr hyfforddiant wedi rhoi mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth iddynt o ACEs a thrawma. Dywedodd cyfranogwyr hefyd fod yr hyfforddiant yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o ymddygiad pobl a sut y gallai trawma effeithio ar unigolyn yn ddiweddarach mewn bywyd (heddlu ($N = 47$ o sylwadau a phartneriaid MA $N = 35$ o sylwadau).

“Roedd yr hyfforddiant yn fuddiol iawn gan nad oeddwn yn gwbl ymwybodol o ACEs a'r hyn y maent yn ei wneud. Byddwn yn teimlo'n hyderus yn ymateb i bobl sy'n agored i niwed” (heddlu GWP).

- Ar ôl yr hyfforddiant, teimlai cyfranogwyr y byddai eu dealltwriaeth o fod yn agored i niwed a gwybodaeth am ACEs yn eu galluogi i gael gwell cyfathrebu a rhyngweithio mwy cadarnhaol gyda phobl sy'n agored i niwed (heddlu $N = 53$ o sylwadau a phartneriaid MA $N = 15$ o sylwadau), gyda mwy o empathi a thosturi (heddlu $N = 74$ o sylwadau).

“Amlinellodd yr hyfforddiant bwysigrwydd cydnabod y rhesymau y tu ôl i weithredoedd rhywun, a rhoi cipolwg ar sut y gall gweithiwr proffesiynol osgoi sbarduno adweithiau negyddol” (MA NWP).

Hyder yr heddlu yn eu dealltwriaeth o ran pryd y mae angen cyflwyno atgyfeiriad ar gyfer person sy'n agored i niwed

- Fel rhan o'r rhaglen E.A.T., mae'r heddluoedd wedi gweithio i wella effeithlonrwydd eu prosesau atgyfeirio a'u canllawiau ymarfer. Mewn rhai heddluoedd, cyflwynwyd y newidiadau hyn yn ystod yr hyfforddiant i hysbysu swyddogion am y prosesau newydd, tra bod heddluoedd eraill yn cyflwyno'r cynnwys hwn yn ystod gweithdai ar wahân. Fel y cyfryw, roedd gennym ddiddordeb yn hyder yr heddlu ynghylch pryd i gyflwyno atgyfeiriadau o ran bod yn agored i niwed (h.y. atgyfeiriad yr heddlu neu atgyfeiriad uniongyrchol at asiantaethau).
- Cynyddodd hyder Heddlu Dyfed Powys a Gwent o ran pryd i gyflwyno atgyfeiriad o ran bod yn agored i niwed. Fodd bynnag, ni fu cynnydd yn yr hyder ar gyfer Gogledd Cymru na Heddlu De Cymru. Un esboniad posibl am y canfyddiad hwn yw bod gan Heddlu De Cymru lefelau sylweddol uwch o hyder cyn yr hyfforddiant ac roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi sefydlu mwy o newid, ac felly roedd gan y mynychwyr fwy o wybodaeth i'w phrosesu mewn perthynas â llwybrau atgyfeirio newydd.
- Dywedodd heddlu o Ogledd Cymru fod darparu'r wybodaeth ychwanegol ar lwybrau atgyfeirio yn rhy hir (heddlu N = 11 o sylwadau) a'r rhan leiaf defnyddiol o'r hyfforddiant (heddlu N = 11 o sylwadau). Er bod yr elfen hon o'r hyfforddiant yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol y mae'r tîm cyflawni lleol eisoes wedi'i ddatblygu mewn perthynas â chyfeirio a llwybrau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal, efallai y bydd angen ystyried a ddylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys ar wahân i'r hyfforddiant ACE TIME mewn gweithdy ar gyfer yr heddlu a phartneriaid.

Agweddau tuag at ACEs a thrawma cysylltiedig

- Asesodd y gwerthusiad agweddau yr heddlu a phartneriaid MA tuag at dair neges hyfforddiant amlasiantaeth/ACE ac wedi'u llywio gan drawma (gweler Blwch 1), ar raddfa o (1) yn erbyn i (7) o blaid. Asesodd y gwerthusiad hefyd sicrwydd agwedd y cyfranogwr tuag at y negeseuon hyfforddiant (h.y. yr ymdeimlad o gryfder yr argyhoeddiad yr oedd gan y cyfranogwyr am eu hagwedd), ar raddfa o (1) ddim yn sicr o gwbl i (7) sicr iawn.

Blwch 1. Negeseuon Agwedd

- **Neges 1:** Mae'n bwysig i swyddogion yr heddlu ddeall beth yw ACEs.
 - **Neges 2:** Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gefnogi unigolion sy'n profi trawma.
 - **Neges 3:** Dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i atal a lliniaru ACEs a thrawma cysylltiedig.
- Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o blaid negeseuon hyfforddiant amlasiantaeth/ACE ac wedi'u llywio gan drawma. Ymhellach, roedd yr heddlu'n gymedrol sicr o'u hagweddau tuag at bob neges ac roedd partneriaid MA yn sicr iawn.
 - Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu yn sylweddol fwy o blaid y negeseuon hyfforddiant. Cynyddodd agweddau'r heddlu 7.53% (neges 1), 11.3% (neges 2) a 5.9% (neges 3) o'r gwaelodlin.

- Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu hefyd yn llawer mwy sicr o'u hagwedd tuag at y negeseuon hyfforddi. Cynyddodd sicrwydd agwedd 29.9% (neges 1), 18.3% (neges 2) a 12.5% (neges 3) o'r gwaelodlin.
- Ar ôl yr hyfforddiant, ni wnaeth agweddau partneriaid MA newid. Fodd bynnag, roeddent yn fwy sicr o'u hagwedd tuag at neges 1 a 2.
- Ar ôl yr hyfforddiant, roedd pob rhyw, ardal heddlu a swyddi/sectorau o fewn yr heddlu a phartneriaid MA o blaid y negeseuon hyfforddiant ac yn sicr iawn o'u hagwedd.
- Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod yr hyfforddiant wedi galluogi agweddau cadarnhaol tuag at gydnabod pwysigrwydd deall a chefnogi ACEs a thrawma cysylltiedig o safbwynt plismona ac aml-asiantaeth. At hynny, gan fod y cyfeiriad o ran newid agwedd o blaid dulliau wedi'u llywio gan ACE a thrawma, mae'r cynnydd mewn sicrwydd agwedd yn ganfyddiad cadarnhaol sy'n awgrymu bod ymdeimlad cyfranogwyr o argyhoeddiad eu hagweddau yn llawer cryfach yn dilyn yr hyfforddiant.

Ymatebion i senarios plismona gweithredol (ymddygiad gwrthgymdeithasol)

- Darllenodd cyfranogwyr senario plismona gweithredol a oedd yn disgrifio plentyn yn ymwneud ag achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB; gweler blwch 3, tud. 30 ar gyfer y senario). Yna gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r cyfranogwyr er mwyn asesu eu barn broffesiynol a'r penderfyniadau a wnaethant mewn perthynas â'r senario, cyn ac ar ôl yr hyfforddiant.
- Yn dilyn yr hyfforddiant, symudodd barn broffesiynol a phenderfyniadau'r cyfranogwyr tuag at ddull o blismona wedi'i lywio gan ACE a thrawma. Ar y cyfan, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o'r farn bod y plentyn yn y senario yn llawer mwy tebygol o fod yn ymwneud â gweithgarwch troseddol arall, ar ôl yr hyfforddiant (gweler tabl 6, tud. 31). Roedd yr heddlu hefyd o'r farn bod y plentyn yn llawer llai cyfrifol am ei weithredoedd ac yn fwy agored i niwed, ar ôl yr hyfforddiant (gweler tabl 6, tud. 31). Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod barn broffesiynol cyfranogwyr wedi ehangu o ganolbwyntio ar y drosedd benodol dan sylw i gynnwys persbectif mwy cyfannol o ba mor agored i niwed oedd y plentyn a'i ymddygiad cysylltiedig.
- Ar y cyfan, roedd yr heddlu a phartneriaid o'r farn bod ymateb i'r digwyddiad ASB yn fwy o fater i'r heddlu a bod y digwyddiad yn llawer mwy difrifol, ar ôl yr hyfforddiant (gweler tabl 6, tud. 31). Yn bwysig, arhosodd y newid ym marn yr heddlu o ddifrifoldeb o fewn terfynau yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn "ymateb gohiriedig" (gweler ffigur 10, tud. 41), sy'n awgrymu, er bod yr heddlu yn ystyried bod ymdrin â digwyddiad ASB yn cynnwys plentyn sy'n agored i niwed yn fwy o gyfrifoldeb i'r heddlu, roeddent hefyd yn gallu rhoi eu dysgu o'r hyfforddiant ar waith mewn barn broffesiynol briodol.
- Gan gefnogi data'r arolwg, dywedodd yr heddlu ar ôl yr hyfforddiant y byddent yn rhoi'r hyfforddiant ar waith wrth ymdrin â digwyddiadau a oedd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc (heddlu $N = 58$ o sylwadau):

"Ar ôl yr hyfforddiant rwy'n fwy ymwybodol o'r hyn yw ACEs, byddaf yn chwilio amdany'n nhw'n llawer [mwy] agos pan fydd person ifanc sy'n agored i niwed yn cyflawni ASB [ymddygiad gwrthgymdeithasol] (heddlu GWP).

Ymatebion i senarios plismona gweithredol (cam-drin yn y cartref)

- Darllenodd cyfranogwyr senario plismona gweithredol a oedd yn disgrifio digwyddiad o gam-drin yn y cartref (DA) gyda phlant yn bresennol yn y cartref (gweler blwch 4, tud. 36 ar gyfer y senario). Yna gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r cyfranogwyr er mwyn asesu eu barn broffesiynol a'r penderfyniadau a wnaethant mewn perthynas â'r senario, cyn ac ar ôl yr hyfforddiant.

- Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau cyfranogwyr o ba mor agored i niwed oedd y plant yn uwch yn dilyn yr hyfforddiant (gweler tabl 7, tud. 37).
- Sgoriodd yr heddlu a phartneriaid MA ill dau yn uchel o ran pa mor debygol oeddent o ystyried gweithdrefnau diogelu plant cyn ac ar ôl yr hyfforddiant, ond dim ond partneriaid MA oedd yn llawer mwy tebygol o ystyried gweithdrefnau diogelu plant ar ôl yr hyfforddiant (gweler tabl 7, tud. 37).
- Yn gyffredinol, roedd yr heddlu a phartneriaid MA ill dau wedi cynyddu eu sgôr o ran pa mor debygol oeddent o ystyried gweithdrefnau diogelu oedolion yn dilyn yr hyfforddiant (gweler tabl 7, tud. 37).
- Cynyddodd yr heddlu a phartneriaid MA eu sgôr o ran pa mor debygol oedd hi y byddai ail alwad i'r cyfeiriad (gweler tabl 7, tud. 37), sy'n awgrymu bod cyfranogwyr ar ôl yr hyfforddiant yn adnabod yn well y berthynas rhwng bod yn agored i niwed a natur gylchol gymhleth troseddau o'r fath.
- Yn gyffredinol, ystyriai'r heddlu a phartneriaid MA fod y digwyddiad cam-drin yn y cartref yn llawer mwy difrifol yn dilyn yr hyfforddiant gan sgorio'r difrifoldeb hwn o fewn ffiniau'r hyn a ystyrir yn "ymateb ar unwaith" (gweler ffigur 10, tud. 41).
- Gan gefnogi data'r arolwg, dywedodd rai heddlu ar ôl yr hyfforddiant y byddent yn rhoi'r hyfforddiant ar waith wrth ymdrin â digwyddiadau o gam-drin yn y cartref (heddlu $N = 22$ o sylwadau):

"Byddaf yn edrych ar bob digwyddiad domestig yr wyf yn ei fynychu drwy lens ACEs. Byddaf yn edrych ar yr ACEs y mae plant yn cael eu dylanwadu ganddynt ac yn gwneud penderfyniadau ac atgyfeiriadau mwy cywir "(heddlu GWP).

Dealltwriaeth o ddull wedi'i lywio gan ACE a thrawma

- Gofynnwyd i gyfranogwyr ar ôl yr hyfforddiant i sgorio i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau wedi'u llywio gan ACE a thrawma (gweler tabl 10, tud. 52).
- Ar y cyfan, cytunai'r heddlu a phartneriaid MA y dylai "*bod yn agored i niwed gael ei ystyried ym mhob rhan o blismona*" ac "*ei bod yn bosibl ymyrryd a newid cwrs bywyd person waeth faint o ACEs y mae wedi'i brofi*".
- Yn ogystal, gofynnwyd i gyfranogwyr sgorio i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau a oedd yn groes i ddull wedi'i lywio gan ACE a thrawma o fynd i'r afael a bod yn agored i niwed. Ar y cyfan, nid oedd yr heddlu'n cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad canlynol: "*cyfrifoldeb gweithwyr cymdeithasol yn bennaf yw ymdrin ag ACEs*". Mae hyn yn awgrymu nad oedd yr hyfforddiant yn galluogi'r heddlu'n ddigonol i gydnabod arwyddocâd eu rôl gyffredin yn yr ymateb aml-asiantaeth i fod yn agored i niwed. Dangosodd dadansoddiad pellach fod yr heddlu iau, a oedd â llai o amser yn yr heddlu, yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn (gweler tabl 11, tud. 54).
- Un o'r negeseuon allweddol a gyflwynwyd yn ystod yr hyfforddiant oedd er y gall asesu ACEs fod yn arf defnyddiol i helpu'r heddlu a phartneriaid MA i adnabod pobl agored i niwed a darparu mynediad i ymyrraeth gynnar ac atal, mae perygl o ran camddefnyddio rhestrau gwirio ACE fel sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau proffesiynol neu fel trothwy ar gyfer ymyrryd². Datblygwyd datganiad gennym i asesu'r camddefnydd posibl o ACEs mewn plismona: "*dylid blaenoriaethu achosion yn seiliedig ar y nifer o ACEs a sgoriwyd ar restr wirio*". Ar y cyfan, nid oedd yr heddlu a phartneriaid MA yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn. Mae hyn yn amlygu'r angen am hyfforddiant ACE TIME yn y dyfodol i bwysleisio ymhellach y camddefnydd o ACEs fel rhestr wirio ar gyfer blaenoriaethu achosion.

2 Am ragor o wybodaeth gweler: Bateson K, McManus M, Johnson G. Understanding the use, and misuse, of Adverse Childhood Experiences (ACEs) in trauma-informed policing. 2019. The Police Journal. 2019:0032258X19841409.

Defnyddioldeb a pherthnasedd yr hyfforddiant

- Mynegodd mwyafrif mawr o'r cyfranogwyr y farn fod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol o ran gwella eu gwybodaeth am bob maes pwnc (gweler tabl 13, tud. 56; heddlu $N = 161$ o sylwadau, partneriaid MA = 43 o sylwadau). Fodd bynnag, dywedodd rhai swyddogion heddlu, megis staff ystafelloedd rheoli, eu bod yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallent ei roi ar waith o'r hyfforddiant o fewn eu rôl (heddlu $N = 47$ o sylwadau). Felly, efallai y bydd angen gwaith ychwanegol ar yr hyfforddiant er mwyn alinio ei negeseuon i bob rôl a sector swydd, yn arbennig ar gyfer cyfranogwyr sydd â chyswllt wyneb yn wyneb cyfyngedig â phobl agored i niwed (e.e., staff ystafelloedd rheoli).

Rhoi'r hyfforddiant ar waith

- Thema amlwg ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu oedd y bydd hyfforddiant yn gwella'r atgyfeiriadau maent yn eu cwblhau ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed (heddlu $N = 145$ o sylwadau). Dywedodd yr heddlu y byddant yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chynnwys o fewn y ffurflenni atgyfeirio, ac y byddant yn darparu disgrifiad mwy cynhwysfawr o'r digwyddiad a'r risgiau a welwyd ac yn defnyddio iaith briodol.
- Ar ôl yr hyfforddiant, awgrymodd y sylwadau agored fod gan gyfranogwyr syniad cliriach o'r tasgau y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud i helpu pobl agored i niwed a darparu cymorth i fynd i'r afael â'u hanghenion. Yn benodol, dywedodd cyfranogwyr y bydd yr hyfforddiant yn galluogi atgyfeirio gwell ac yn eu helpu i gynnig mwy o gymorth a diogelu i unigolion agored i niwed (heddlu $N = 92$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 14$ o sylwadau).

“Bydd hyn yn fy nghynorthwyo i atgyfeirio [cyfeirio] pobl at asiantaethau fyddai yn y sefyllfa orau i ddelio â thrawma pe na fyddai [ffurflen atgyfeirio aml-asiantaeth] yn berthnasol”
(heddlu, Heddlu Dyfed Powys (DPP)).

- Dywedodd nifer mawr o gyfranogwyr fod yr hyfforddiant yn fuddiol (heddlu $N = 171$ o sylwadau) i'w bywyd personol (heddlu $N = 138$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 24$ o sylwadau). Dywedodd nifer o gyfranogwyr fod yr hyfforddiant wedi eu helpu i adnabod y trawma a brofwyd yn eu bywydau eu hunain, a thynnodd un cyfranogwr sylw at effaith emosiynol niweidiol posibl mynychu hyfforddiant. Dengys ymchwil blaenorol fod tua hanner poblogaeth Cymru wedi profi o leiaf un ACE, a bod 14% wedi profi pedwar neu fwy³. O ystyried natur sensitif cynnwys yr hyfforddiant, dylai sesiynau briffio hunanofal fod yn bresennol ar y dechrau a thrwy gydol yr hyfforddiant yn barhaus gyda digon o gyfleoedd dilynol.

Rhwystrau canfyddedig i gymhwyso gwybodaeth

- Yn y sylwadau agored, nododd y cyfranogwyr gyfyngiadau amser (heddlu $N = 174$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 17$), galw a blaenoriaethau (heddlu $N = 49$ o sylwadau) ac adnoddau cyfyngedig (heddlu $N = 78$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 10$ o sylwadau), fel rhwystrau i weithredu'r hyfforddiant. Mynegodd rhai heddlu bryderon am yr angen i ddargyfeirio a mynd i alwadau eraill ar ôl ymateb i fygythiad, risg a niwed uniongyrchol digwyddiad.
- Nododd cyfranogwyr hefyd fod diffyg ymgysylltu â dioddefwyr yn rhwystr i wreiddio'r hyfforddiant mewn ymarfer (h.y. heriau o ran cael caniatâd a chasglu gwybodaeth am ACEs gan dioddefwyr pan fyddant yn gyndyn o ymgysylltu, derbyn cymorth a chael gfael ar gymorth; heddlu $N = 65$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 5$ o sylwadau). Mae hyn yn awgrymu y gellid gwella'r hyfforddiant i helpu cyfranogwyr i gydnabod effaith trawma ar unigolyn a'i allu i ymgysylltu â gwasanaethau, a'r cyfle i ymyrryd mewn amgylchiadau o'r fath.
- Er y dywedodd nifer o gyfranogwyr y byddai'r hyfforddiant yn hwyluso cydweithio'n well, disgrifiodd cyfranogwyr eraill waith amlasiantaeth fel rhwystr i roi'r hyfforddiant ar waith (heddlu $N = 56$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 10$ o sylwadau).

3 Bellis MA, Ashton K, Hughes K, Ford K, Bishop J, Paranjothy S. Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd yn y boblogaeth oedolion yng Nghymru [adroddiad ar y Rhyngwrdd]. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2016 [dyfynwyd 2020 Chwef 27]. Ar gael o <http://researchonline.ljmu.ac.uk/id/eprint/2648/1/ACE%20Report%20FINAL%20%28E%29.pdf>

Casgliad ac Argymhellion

Mae'r hyfforddiant ACE TIME yn elfen graidd o'r rhaglen E.A.T., sy'n ceisio sicrhau bod gan yr heddlu a phartneriaid ledled Cymru ddealltwriaeth gyffredinol o fod yn agored i niwed, a'r wybodaeth a'r sgiliau i ymateb yn hyderus ac yn fedrus i unigolion sy'n profi trawma. Mae'n cefnogi Policing Vision yr NPCC 2025⁴ sy'n amlygu'r angen i'r heddlu fabwysiadu chwilfrydedd proffesiynol i nodi'r dangosyddion posibl ar gyfer bod yn agored i niwed ar y cyfle cyntaf a lleihau'r risg o niwed drwy ymyrraeth gynnar â phartneriaid. Mae'r hyfforddiant yn ceisio sefydlu arferion gweithio amlasiantaeth gwell, a chefnogi'r heddlu i fanteisio ar wasanaethau ehangach er mwyn sicrhau ymatebion priodol i bobl sy'n agored i niwed.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad presennol yn awgrymu bod yr hyfforddiant, ar y cyfan, wedi cael effaith gadarnhaol ar yr heddlu a phartneriaid MA drwy godi ymwybyddiaeth o ACEs a thrawma cysylltiedig, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar unigolyn drwy gydol ei fywyd; tra hefyd yn galluogi staff i deimlo'n fwy cymwys a hyderus wrth ymateb mewn ffordd wedi'i lywio gan drawma ac ACE. At hynny, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod yr hyfforddiant wedi gwella'n sylweddol agweddau'r heddlu tuag at ddull amlasiantaeth wedi'i lywio gan ACE a thrawma o fynd i'r afael â phobl sy'n agored i niwed.

Mae'r gwerthusiad yn arwain at yr argymhellion canlynol:

Argymhellion ar gyfer darparu hyfforddiant:

- Cryfhau negeseuon hyfforddi ynghylch arwyddocâd plismona o fewn ymateb amlasiantaeth i bobl sy'n agored i niwed, wedi'i gefnogi gan waith grŵp a thrafodaethau, i annog dull gweithredu system gyfan mewn ymarfer
- Pwysleisio na ddylid defnyddio ACEs fel 'rhestr wirio' i flaenoriaethu achosion, er mwyn sicrhau y cymhwysir gwbyodaeth a dealltwriaeth yn fwy priodol mewn ymarfer
- Alinio darparu hyfforddiant â rolau gwahanol a'u lefelau priodol o gyswllt wyneb yn wyneb â'r cyhoedd, er mwyn gwella perthnasedd i ymarfer
- Darparu enghreifftiau gweithredol pellach o sut y gall yr hyfforddiant gael ei wreiddio mewn ymarfer plismona o ddydd i ddydd, i annog pobl i gymryd rhan. Yn benodol, dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio rhyngweithio o ddydd i ddydd fel cyfle i wneud newidiadau cadarnhaol i fywyd
- Cyfleu effeithiau posibl trawma ar alluoedd a/neu barodrwydd unigolion i ymgysylltu â'r heddlu a gwasanaethau eraill, i gefnogi dealltwriaeth o effaith ACEs a bod yn agored i niwed ar ymddygiad
- Cyfleu natur sensitif yr hyfforddiant wrth wahodd ac amlygu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth llesiant ar ôl yr hyfforddiant er mwyn cefnogi'r cyfranogwyr hynny y gallai'r hyfforddiant gael effaith emosiynol arnynt.

Argymhellion ar gyfer ymchwil a gwerthuso:

- Archwilio i effaith tymor hwy yr hyfforddiant ACE TIME ar wybodaeth a dealltwriaeth o ACEs a phobl sy'n agored i niwed
- Archwilio i ba raddau y mae dulliau gweithredu wedi'u llywio gan ACE a thrawma wedi'u hymgorffori mewn ymarfer o ddydd i ddydd
- Gwerthuso unrhyw newidiadau i'r pecyn hyfforddiant ACE TIME yn dilyn cam un y broses gyflwyno a werthuswyd yn yr adroddiad hwn.

4 Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu Policing Vision 2025 [adroddiad ar y rhyngwyd]. Llundain; National Society for the Prevention of Cruelty to Children; 2016 [dyfynwyd 2020 Chwef 27]. Ar gael o: https://www.npcc.police.uk/documents/Policing_Vision.pdf

1. Cyflwyniad

Dros y degawd diwethaf, mae plismona yn y DU wedi gweld newid sylweddol mewn ymarfer. Mae gwasanaethau'r heddlu wedi symud oddi wrth ddull adweithiol "ymladd troseddu" traddodiadol o blismona tuag at blismona ataliol a arweinir gan y gymuned [1-3]. Yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW), yn ystod y ddau ddegawd diwethaf bu gostyngiad o tua 35% mewn achosion hunan-gofnodedig o droseddau maint, gan gynnwys lladrad, difrod troseddol ac ymosodiadau [4]. Fodd bynnag, mewn cymdeithas sy'n newid yn gyflym mae 'plismona modern' yn wynebu bygythiadau newydd a galwadau cynyddol gan ddigwyddiadau 'niwed mawr' sy'n aml yn gymhleth eu natur (e.e. cam-drin yn y cartref) [5]. Yn benodol, mae ymateb i bobl sy'n agored i niwed yn gosod galw uchel a chryn straen ar blismona [6]. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod 83-89% o alwadau gorchymyn a rheoli yn ddigwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â throseddau gan gynnwys diogelwch y cyhoedd, lles a bod yn agored i niwed [7, 8]. Er nad oes gan systemau'r heddlu y gallu i gofnodi'r galw gwirioneddol sy'n gysylltiedig â bod yn agored i niwed ar ei wasanaethau [5, 9, 10]), awgryma data digwyddiadau heddluoedd fod y galw a gynhyrchir gan ddigwyddiadau diogelwch a lles y cyhoedd yn cynyddu [7].

1.1 Ymatebion presennol i bobl sy'n agored i niwed o fewn yr heddlu

Mae ymchwil wedi amlygu nad yw dulliau, hyfforddiant a systemau plismona traddodiadol wedi'u llunio i ddiwallu'r lefelau a'r mathau o alw modern gan bobl sy'n agored i niwed [11]. Asesodd arolygiad 2017 gan Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Mawrhydi (HMICFRS) heddluoedd ledled Cymru a Lloegr ar feysydd sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed, gan gynnwys pa mor effeithiol y maent yn cynorthwyo dioddefwyr ac yn amddiffyn unigolion sy'n agored i niwed rhag niwed. Yn yr arolygiad, nodwyd bod angen gwella 16 o'r 43 o heddluoedd yn y meysydd hynny, gyda phump yn cael eu barnu'n 'annigonol'. Dangosodd yr arolygiadau hyn fod rhai o'r dulliau yr oedd heddluoedd yn eu defnyddio i ymdrin â galw cynyddol a llai o adnoddau yn rhoi pobl agored i niwed mewn perygl difrifol o niwed [12].

Mae gan swyddogion a staff yr heddlu bolisiau, canllawiau a safonau proffesiynol eang i lynu wrthynt, sydd i raddau helaeth yn llywio ymarfer o safbwynt archwiliad troseddol a diogelu. Fodd bynnag, mae ymchwil yn amlygu aneffeithlonrwydd yn y prosesau sydd ar waith i reoli pobl sy'n agored i niwed. Mae'r ymatebion presennol i bobl sy'n agored i niwed o fewn plismona yn canolbwyntio ar atgyfeiriadau diogelu (e.e. Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd [PPNs]^[1]), a gyflwynir i asiantaethau partner statudol ar ôl nodi pryderon ynghylch lles. Amlygodd dadansoddiad o gyflwyniadau atgyfeiriadau diogelu ar draws Heddlu De Cymru (SWP) fod nifer mawr o PPNs (61,590) dros gyfnod o flwyddyn wedi'u cyflwyno i unigolion agored i niwed, a bod 31% o'r unigolion hynny wedi derbyn ail atgyfeiriadau [11]. Fodd bynnag, o fewn un awdurdod lleol dim ond 3.2% o atgyfeiriadau diogelu plant a 4.2% o atgyfeiriadau diogelu oedolion a arweiniodd at gamau pellach (e.e. darparwyd cynllun gofal a chymorth). Mae'r heddlu mewn sefyllfa unigryw i nodi pobl sy'n agored i niwed ac yn aml nhw yw'r pwynt cyswllt cyntaf i unigolion sydd angen cymorth ychwanegol, ac eto mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod ymdrechion i fynd i'r afael â phobl sy'n agored i niwed yn aml yn arwain at 'ddim camau pellach' (NFA).

Gall trothwyon diogelu uchel o fewn gwasanaethau gofal cymdeithasol esbonio'n rhannol nifer yr atgyfeiriadau sy'n arwain at NFA. Fodd bynnag, mae angen ystyriaeth bellach o ran ansawdd a phriodoldeb yr atgyfeiriadau a anfonir at wasanaethau statudol. Nododd staff gweithredol yr heddlu a swyddogion o SWP

[1] Mae Heddlu De Cymru a Gwent yn defnyddio atgyfeiriadau PPN ar gyfer diogelu, fodd bynnag, mae Dyfed Powys yn defnyddio Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaeth (MARFs) ac mae Heddlu Gogledd Cymru yn defnyddio ffurflenni CID 16.

nifer o faterion yn ymwneud â defnyddio PPNs [13]. Roedd hyn yn cynnwys heriau o ran cael caniatâd gan bobl agored i niwed er mwyn gallu rhannu gwybodaeth â gwasanaethau eraill. Dywedodd swyddogion hefyd fod ffurflenni atgyfeirio yn cymryd llawer o amser ac yn cynnwys cwestiynau amhriodol ar gyfer asesu pobl agored i niwed ar lefel is. At hynny, nododd swyddogion ddiffyg adborth ar eu cyflwyniadau atgyfeirio, yr oeddent yn ystyried ei fod yn bwysig ar gyfer arwain eu hymatebion a galluogi gwell rheolaeth o ran galwyr mynych. Adroddodd llawer o swyddogion eu bod wedi cyflwyno PPNs i ddiogelu atebolrwydd, hyd yn oed os nad oeddent yn angenrheidiol ar gyfer lefel y risg a gyflwynwyd. Fodd bynnag, mae nifer mawr o gyflwyniadau PPN yn arwain at oedi wrth brosesu, ac mae hynny'n golygu bod amser sylweddol rhwng adeg y digwyddiad a'r adeg y caiff ei adolygu gan Unedau Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu. Mae atgyfeiriadau a asesir fel rhai risg uwch yn cael eu blaenoriaethu a'u prosesu'n gyflymach (70% risg uchel wedi'u prosesu o fewn 48 awr i'r digwyddiad), serch hynny, mae oedi wrth atgyfeirio at bartneriaid yn parhau gyda 54% o'r galw yn cael ei brosesu y tu hwnt i 48 awr. Yn y pen draw, mae'r oedi hwn yn atal ymatebion amserol i ddiogelu a gall atal pobl agored i niwed rhag cael cymorth ar yr adeg y mae ei angen [13].

Y tu hwnt i'w dyletswyddau statudol, gall ymatebion yr heddlu i bobl sy'n agored i niwed amrywio'n fawr, ar draws ac o fewn heddluoedd unigol. Mae'r proffil daearyddol a'r trefniadau lleol o fewn asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dylanwadu i raddau helaeth ar sut mae heddluoedd yn gweithredu. Er bod angen o hyd i gynnal elfen o ddulliau adweithiol ymladd troseddau traddodiadol i fynd i'r afael â throseddau, mae hefyd angen darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned a all alluogi ymyrraeth gynnar a chamau ataliol. Gall galwadau'r heddlu a phatrolau cymunedol fod yn borth i'r heddlu nodi pobl sy'n agored i niwed a galluogi ymyrraeth gynnar ac atal [15]. Yn wir, mae sefydlu plismona cymdogaeth wedi rhoi mwy o gyfle i'r heddlu hyrwyddo diogelwch cymunedol, casglu gwybodaeth, atal troseddau ac anhrefn, cynyddu datrys problemau'n effeithiol ac amddiffyn pobl agored i niwed a datblygu cydnerthedd cymunedol [14]. Fodd bynnag, mae ymchwil wedi nodi aneffeithlonrwydd yn ymatebion yr heddlu i bobl sy'n agored i niwed a'r heriau y mae swyddogion rheng flaen a staff yn eu hwynebu [11, 10]. Yn dilyn arolygiad HMICFRS yn 2017, a gododd bryderon *“bod plismona lleol wedi cael ei erydu”* a bod *“llawer o heddluoedd wedi methu ag ‘ailddiffinio’ plismona cymdogaeth yng nghyd-destun cyllidebau llai a galw cyfnewidiol”*, datblygwyd canllawiau cenedlaethol newydd ar gyfer plismona cymdogaeth [14].

Mae llawer o swyddogion a staff yr heddlu yn ystyried mai cyfrifoldeb yr heddlu yw pobl sy'n agored i niwed a'i fod yn rhan o'u dyletswydd i amddiffyn unigolion rhag niwed a lleihau'r galw yn y dyfodol [10]. Fodd bynnag, mae ymchwil wedi tynnu sylw at y ffaith bod heddlu yn teimlo ei bod yn aml yn ofynnol iddynt roi cymorth y tu hwnt i'w cylch gwaith gweithredol a lefel y wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddynt i gyflwyno ymatebion priodol [10]. Er bod plismona'n gwneud cynnydd mewn perthynas â'r ffordd y mae'n delio â phobl sy'n agored i niwed drwy hyfforddiant ychwanegol [22], mae angen gwneud mwy o waith i roi hyfforddiant agored i niwed ar waith mewn ymarfer. Mae nifer o heriau sy'n wynebu'r heddlu wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed wedi dod i'r amlwg [10]. Er bod gan yr heddlu gyfleoedd i ddarparu atebion byrdymor ar unwaith i unigolion sy'n agored i niwed, maent yn credu mai prin yw'r cymorth sydd ar gael i bontio'r bwlch rhwng atebion byrdymor a'r atebion tymor hwy a ddarperir gan asiantaethau statudol. At hynny, teimla'r heddlu fod y darpariaethau hyfforddiant presennol yn annigonol o ran galluogi'r heddlu i ymateb i gymhlethdod ac ehangder y materion agored i niwed y mae unigolion yn eu dangos. Oherwydd natur ddeinamig bod yn agored i niwed, mae'r heddlu'n dibynnu ar farn a phrofiad proffesiynol i allu addasu eu hymatebion i wahanol sefyllfaoedd [10]. Fodd bynnag, mae heddlu rheng flaen yn ei chael yn anodd addasu'r modelau plismona presennol ar gyfer asesu risg a gwneud penderfyniadau mewn achosion o fod yn agored i niwed [12, 13]. Yn aml yr heddlu o fewn rolau arbenigol sy'n derbyn hyfforddiant mwy trylwyr ar bynciau sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed (e.e. rolau archwilio), tra bod rhai o staff yr heddlu yn derbyn ychydig iawn o hyfforddiant (e.e. Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu). Mae'r heddlu wedi nodi nifer o feysydd i'w datblygu, gan gynnwys hyfforddiant iechyd meddwl a'r angen am well dealltwriaeth o'r llwybrau cymorth [10].

1.2 Pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac atal: yr angen am newid

Mae'r heddlu mewn sefyllfa unigryw i nodi ac ymateb i bobl sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae'r heriau a amlygwyd mewn ymchwil ac arolygiadau HMICFRS diweddar yn dangos angen taer i greu diwylliant yr heddlu lle mae bod yn agored i niwed yn cael ei gydnabod a'i ddeall ar bob lefel. Mae'r NPCC a'r Coleg Plismona wedi mynd ati i weddnewid plismona yn y DU drwy sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i addasu i'r amgylchedd plismona modern ac i anghenion cymhleth ac amrywiol y gymuned leol [5]. Mae gweledigaeth 2025 yr NPCC yn ymdrechu i ddatblygu gweithlu o weithwyr proffesiynol hyderus sy'n gallu gweithredu gyda chryn dipyn o ymreolaeth ac atebolrwydd. Gall newid trawsnewidiol o fewn plismona fod yn heriol, ac yn aml mae'n aflwyddiannus [16, 17]. Felly, mae'n rhaid i gyflawni trawsnewidiad "ysbrydoli swyddogion, staff a gwirfoddolwyr a datblygu'r hyblygrwydd, y gallu a'r cynhwysedd sydd ei angen i addasu i newid" [5]. Fodd bynnag, ni all gwasanaethau'r heddlu weithredu ar eu pennau eu hunain wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed.

Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth a Chytundeb Cydweithio Cymru-gyfan

Er mwyn cydnabod yr angen i wasanaethau weithio ar y cyd, cytunodd lechyd Cyhoeddus Cymru (PHW), Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru a Heddlu De Cymru ar Femorandwm o Gyd-ddealltwriaeth (MoU) yn 2015 a' i lofnodi. Roedd yr MoU yn ymrwmo pob un o'r tri sefydliad i gydweithio i nodi materion cyffredin, deall yr heriau a wynebir gan y ddau wasanaeth a datblygu'r broses o gyflawni blaenoriaethau ar y cyd. Roedd hyn yn cynnwys nodi'r dangosyddion posibl ar gyfer bod yn agored i niwed ar y cyfle cyntaf i leihau'r risg o niwed drwy ymyrraeth gynnar ac atal â phartneriaid. Fel rhan o'r rhaglen E.A.T., estynnwyd yr ymrwymiad hwn fel rhan o gytundeb cydweithredu ehangach rhwng PHW, pob un o'r pedwar heddlu a'r comisiynwyr yr heddlu a throseddau yng Nghymru a Barnardo's yn 2018.

Mae gweledigaeth 2025 yn ceisio datblygu darpariaeth busnes gydgysylltiedig rhwng yr heddlu a phartneriaid i ddarparu ymateb mwy 'soffistigedig' i heriau cymhleth. Gall y dull systemau cyfan hwn yn y pen draw gryfhau'r ymdrechion i amddiffyn pobl agored i niwed, a lleihau troseddau a galw. Er mwyn sicrhau bod gweledigaeth 2025 yn cael ei gwireddu, datblygodd yr NPCC a'r Coleg Plismona y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl sy'n Agored i Niwed (2018-2021), sy'n tynnu sylw at sawl thema allweddol a champau gweithredu angenrheidiol i heddluoedd eu cymryd [18]. Yma, pwysleisir ymyrraeth gynnar ac atal yn gyson. Rhoddir mwy o bwyslais ar ddefnyddio llwybrau anstatudol i gael cymorth (h.y. cyfeirio at adnoddau lleol a chenedlaethol). Mae'r Sefydliad Ymyrraeth Gynnar (EIF) yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwaith yr heddlu a gweithio mewn partneriaeth wrth ddarparu ymyrraeth gynnar a champau ataliol. Mae'r EIF wedi amcangyfrif bod methiant i ymyrryd yn gynnar mewn sefyllfaoedd fel cam-drin yn y cartref, cam-drin plant, problemau iechyd meddwl, troseddau ieuencid a gwaharddiadau ysgol yn costio bron £17 biliwn y flwyddyn ledled Cymru a Lloegr [19]. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl sy'n Agored i Niwed yn cydnabod bod angen i swyddogion yr heddlu a staff gael cymorth i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i adnabod pob math o faterion bod yn agored i niwed yn effeithiol ac ymateb iddynt.

1.3 Y Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd (E.A.T.)

I fynd i'r afael â'r heriau y mae gwasanaethau'r heddlu yn eu profi wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed, buddsoddodd y Swyddfa Gartref £6.87 miliwn mewn Rhaglen Drawsnewid Genedlaethol Cymru gyfan [10]. Sefydlwyd y rhaglen E.A.T. i ddatblygu ymateb systemau cyfan i bobl sy'n agored i niwed, lle mae gweithwyr proffesiynol yn adnabod arwyddion o fod yn agored i niwed cyn gynted â phosibl ac yn darparu mynediad i'r llwybrau cymorth priodol. Mae ymchwil i ACEs wedi llywio'r rhaglen ac wedi darparu mewnwelediad gwerthfawr i achosion gwaelodol bod yn agored i niwed, gan amlygu'r 'berthynas ymateb i ddog'n' rhwng ACEs a chanlyniadau gwael yn ddiweddarach mewn bywyd (e.e. ymddygiad sy'n niweidio iechyd, trosedd, erledigaeth ac iechyd gwael). Mae'r ymchwil hwn yn amlygu'r ffaith bod risgiau trais a charcharu yn cynyddu gyda nifer yr ACEs a brofir. Er enghraifft, mae'r rhai sydd wedi profi pedwar neu fwy o ACEs 14 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais, 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni camdriniaeth yn erbyn rhywun arall yn y 12 mis diwethaf, ac 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu ar unrhyw adeg yn ystod eu hoes [20]. Nid yw troseddu'n gweithio ar wahân i fod yn agored i niwed ac mae gan yr heddlu rôl sylfaenol o ran mynd i'r afael ag adfyd plant ar y cyfle cyntaf i liniaru'r risg o ganlyniadau negyddol [20]. Gan ddefnyddio'r ymchwil uchod, mae'r rhaglen E.A.T. yn mabwysiadu dull o blismona sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Nod y rhaglen yw datblygu dull Cymru gyfan o ymdrin â hyfforddiant ac ymarfer drwy ddatblygu a gweithredu pecyn hyfforddiant sy'n ceisio rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i'r heddlu a staff cyfiawnder troseddol er mwyn ymateb i bobl sy'n agored i niwed drwy ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACEs a thrawma (gweler Newbury et al., 2019 am drosolwg mwy manwl o'r rhaglen) [21].

1.4 Hyfforddiant wedi'i lywio gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) a Thrawma Amlasiantaeth Camau Cynnar gyda'n Gilydd (TIME).

Yn 2017, datblygwyd a phrofwyd 'dull gweithredu wedi'i lywio gan ACE o ran plismona pobl sy'n agored i niwed' yn Heddlu De Cymru. Dangosodd y cynllun peilot hwn wybodaeth ac ymarfer gwell i'r rhai a gymerodd ran yn yr hyfforddiant [22]. Gan ddefnyddio canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad o'r peilot, datblygodd y gwasanaeth Cydlynwyr ACE o fewn Barnardo's a thîm rhaglen genedlaethol E.A.T. yr hyfforddiant ACE TIME ymhellach i'w gyflwyno i rolau a thimau gweithredol gwahanol ledled Cymru [21].

Yn 2019, cyhoeddodd y rhaglen E.A.T. ei hadroddiad cyntaf '*Deall Tirwedd Plismona wrth Ymateb i Bobl sy'n Agored i Niwed*' [10]. Cyflwynodd yr adroddiad ganfyddiadau gwerthusiad o ymateb yr heddlu i bobl sy'n agored i niwed yng Nghymru cyn i unrhyw hyfforddiant ar ddulliau wedi'u llywio gan ACEs a thrawma gael ei gyflwyno. Yn seiliedig ar 152 o gyfweiliadau â staff rheng flaen yr heddlu ledled Cymru, mae'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiad yn cynnwys:

- Prin oedd yr ymwybyddiaeth o ddull wedi'i lywio gan drawma ac er bod dealltwriaeth o ACEs, nid oedd hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu gwahanol fathau o brofiadau ac yn hytrach roedd yn gyfyngedig i senarios o gam-drin yn y cartref
- Ystyriwyd mai rhan allweddol o rôl yr heddlu oedd plismona pobl sy'n agored i niwed, ond roedd peth tystiolaeth bod deall profiadau plentyndod blaenorol yn cael ei ystyried yn llai o fater i'r heddlu a ddylai "ymchwilio i droseddau" yn unig.
- Roedd cytundeb cyffredinol bod angen gwella ymateb yr heddlu i anghenion pobl sy'n agored i niwed, a bod angen hyfforddiant cysylltiedig a (er gwaethaf heriau a nodwyd) dull amlasiantaeth, system gyfan tuag at fod yn agored i niwed
- Caiff hyfforddiant ei deilwra a'i ddarparu'n ddelfrydol yn lleol gan arbenigwyr yn eu meysydd, mewn amgylchedd ystafell ddosbarth os oes modd, gan gymhwyso gwybodaeth yn ddiweddarach mewn rolau rheng flaen.

Mae gan yr hyfforddiant ACE TIME yr amcanion canlynol:

- Cefnogi'r gweithlu i gynyddu ymwybyddiaeth o ACEs, trawma cysylltiedig ac effaith gydol oes
- Galluogi unigolion i ymateb yn gymwys ac yn hyderus gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE
- Cefnogi dull system gyfan gyda phartneriaid i atal a lliniaru ACEs.

Mae'r hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu fel pecyn undydd i'w gyflwyno i heddlu rheng flaen a'i nod yw darparu cyflwyniad i ACEs a thrawma, i ddatblygu sgiliau tactegol swyddogion yr heddlu ymhellach, i alluogi ymateb wedi'i lywio gan ACE a thrawma i unigolion sy'n agored i niwed. Gwahoddwyd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws asiantaethau partner hefyd i fynychu'r hyfforddiant ar y cyd â'r heddlu i roi cyfle ar gyfer dysgu trawsasiantaeth. Roedd yr hyfforddiant yn ymdrin â'r pynciau a amlygir ym Mluch 2, tud. 17.

Blwch 2. Cynnwys yr hyfforddiant ACE TIME.

Sesiwn y Bore:

- Gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed
- Effaith straen gwenwynig ar yr ymennydd
- Deall effaith trawma ar ddatblygiad yr ymennydd, ymddygiad ac ymatebion i fygythiad
- Deall ACEs a'u heffaith ar ganlyniadau bywyd
- Trawma eilaidd a dirprwyol
- Hyrwyddo llesiant personol

Sesiwn y Prynawn:

- Cymhwyso LENS ACE (edrych, archwilio, anghenion, cyfeirio, cefnogi, diogelu) i blismona
- Sgiliau tactegol, cyfathrebu ac ymatebion effeithiol i drawma
- Gweithio gyda'n gilydd i gael dull ymyrraeth gynnar wedi'i lywio gan drawma
- Hyrwyddo cydnerthedd i lliniaru ACEs
- Adnoddau a llwybrau lleol a chenedlaethol ar gael

1.5 Gwerthusiad o'r pecyn hyfforddiant ACE TIME

Comisiynwyd lechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r hyfforddiant ACE TIME a gyflwynwyd i'r heddlu a phartneriaid. Mae gan y gwerthusiad yr amcanion canlynol:

- Archwilio a yw cymryd rhan yn yr hyfforddiant yn cael effaith ar ymwybyddiaeth a gwybodaeth am ACEs a thrawma;
- Deall effaith yr hyfforddiant ar hyder a chymhwysedd canfyddedig yr heddlu a phartneriaid i ymateb i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE.

Mae amcanion yr adroddiad cyfredol yn perthyn i amcanion gwerthuso ehangach y rhaglen, sef:

- Archwilio effaith yr hyfforddiant ar arferion gwaith integredig ar draws asiantaethau, ac i ba raddau y mae'r hyfforddiant wedi cyfrannu at ddull systemau cyfan o atal a lliniaru ACEs;
- Archwilio'r broses o ehangu'r hyfforddiant a'i gyflwyno'n ehangach ar draws gwahanol heddluoedd, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ymwreiddio dull wedi'i lywio gan ACE a thrawma mewn plismona;
- Canfod effaith yr hyfforddiant o ran gwybodaeth ac ymarfer sy'n gysylltiedig â gweithio â phobl sy'n agored i niwed ar ôl i'r hyfforddiant gael ei ehangu a'i gyflwyno'n genedlaethol ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru.

2. Dull

Mae'r gwerthusiad yn defnyddio dyluniad dulliau cymysg gan gipio adborth meintiol ac ansoddol (ar ffurf sylwadau agored) o arolygon cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Adolygwyd y gwerthusiad a rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol iddo gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac Ymchwil a Datblygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru (IRAS cyf: 2535898).

Cyfranogwyr

Cyflwynodd cydlynwyr ACE TIME yr hyfforddiant ACE TIME i'r heddlu a phartneriaid ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru. Dewisodd pob heddlu y sectorau plismona a'r carfanau proffesiynol a fyddai'n mynychu'r hyfforddiant yn ystod cam un y cyflwyno cenedlaethol (gweler tabl 1, tud. 19). Gwahoddwyd gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner hefyd i fynychu'r diwrnodau hyfforddiant ar y cyd â'r heddlu i alluogi cyflwyno i garfanau amlasiantaeth. Roedd presenoldeb yn yr hyfforddiant yn wirfoddol i bartneriaid MA ond i staff yr heddlu, roedd cymryd rhan yn yr hyfforddiant yn orfodol fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwahoddwyd yr heddlu a phartneriaid MA i fynychu'r hyfforddiant drwy e-bost a anfonwyd gan naill ai Gwasanaeth Datblygu Dysgu'r Heddlu (LDS) neu'r tîm cyflawni lleol.

Defnyddiwyd dull samplu cyfle i recriwtio cyfranogwyr i'r gwerthusiad. I ddechrau, gwahoddwyd pob unigolyn a oedd yn mynychu'r hyfforddiant yn ystod cam un y broses gyflwyno (*cam un*: Medi 2018 i Ionawr 2019) i gymryd rhan yn y gwerthusiad. Oherwydd nifer y staff yn cael eu hyfforddi a nifer y sesiynau a gyflwynwyd, cyflawnwyd digon o recriwtio i'r gwerthusiad cyn diwedd cam un (gweler tabl 1, tud. 19).

Tabl 1: Cam un darparu hyfforddiant yn ôl ardal heddlu

Heddlu	Sector	Timau'r heddlu	Nifer staff
Gogledd Cymru	Ynys Môn/Sir y Fflint	Ymateb, heddlu cymdogaeth, y ddalfa, CID, PPD, cyfathrebu'r heddlu, swyddogion arbennig	449
De Cymru	Rhondda Cynon Taf	Ymateb, Cymdogaeth, PPU	411
Heddlu Gwent	Cyflawni ar draws yr heddlu	Ymateb, heddlu cymdogaeth, cwnstabiliaid arbennig, CID, PPU, ystafell reoli, y ddalfa	735
Dyfed Powys	Ceredigion	Ymateb, heddlu cymdogaeth, ystafell reoli'r heddlu	254
Cyfanswm			1,849

Roedd gan bob diwrnod hyfforddi swyddogion/staff o bob rhan o'r heddlu.

Mesurau

Ymatebodd cyfranogwyr i nifer o gwestiynau mewn arolwg cyfunol, yn union cyn ac ar ôl y diwrnod hyfforddi. Roedd cwestiynau'r arolwg yn asesu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth cyfranogwyr o ACEs/trawma, hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed, agweddau tuag at ddull wedi'i lywio gan ACE a thrawma tuag at blismona, barn broffesiynol a gwneud penderfyniadau, y graddau yr oedd y pecyn hyfforddiant yn galluogi gweithlu hyderus a chymwys ac ansawdd yr hyfforddiant. Defnyddiwyd y mesurau canlynol:

Arolwg cyn yr hyfforddiant:

- 1. Demograffeg:** Oedran, rhyw, ethnigrwydd, rôl swydd (yr heddlu) a sector swydd (partneriaid MA), adran a'r amser yn gweithio yn yr heddlu.
- 2. Hyder yr heddlu wrth weithio gyda phobl agored i niwed (PCWV; [21]):** Mesurodd y PCWV (9 eitem) hyder y cyfranogwyr o ran deall sut i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed (5 eitem) a hyder wrth ddeall a gweithio gydag ACE (4 eitem). Sgoriwyd yr hyder gan ddefnyddio graddfa Likert 10 pwynt a amrywai o (1) *ddim yn hyderus o gwbl* i (10) *yn gwbl hyderus*.
- 3. Agweddau tuag at hyfforddiant:** Datblygodd y tîm ymchwil dri datganiad agwedd a oedd yn adlewyrchu negeseuon craidd hyfforddiant ACE TIME mewn perthynas â dull wedi'i lywio gan ACE a thrawma o fynd i'r afael â phobl agored i niwed: neges 1: "*mae'n bwysig i swyddogion yr heddlu ddeall beth yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod*"; neges 2: "*mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gefnogi unigolion sy'n profi trawma*"; a neges 3: "*dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i atal a lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a thrawma cysylltiedig*." Yn dilyn ymchwil blaenorol ym maes personoliaeth a seicoleg gymdeithasol [23, 24, 25] roedd y gwerthusiad yn mesur agweddau cyfranogwyr tuag at bob neges (gwybyddiaeth sylfaenol) a'r lefel o sicrwydd oedd gan gyfranogwyr am eu hagwedd (gwybyddiaeth eilaidd). Cofnodwyd ymatebion ar ddwy raddfa Likert 7 pwynt (1) *o blaid* i (7) *yn erbyn y datganiad* ac (1) *ddim yn sicr o gwbl* i (7) *yn sicr iawn* o'u barn am bob neges.
- 4. Ymatebion i senarios plismona gweithredol:** Fel rhan o'r gwerthusiad, darllenodd cyfranogwyr ddwy senario cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Roedd senario A yn disgrifio plentyn a oedd yn ymwneud ag achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) ac roedd senario B yn disgrifio digwyddiad o gam-drin yn y cartref gyda phlant yn bresennol ar yr aelwyd (gweler tud. 30 a thud. 36 ar gyfer y senarios cyflawn). Ymatebodd y cyfranogwyr i 7 datganiad am y senarios (gweler tabl 6 a 7, tud. 31 a 37, yn y drefn honno); mesurwyd ymatebion i bob datganiad ar raddfa Likert 10 pwynt (roedd pwyntiau angori'n amrywio ar gyfer pob cwestiwn), a oedd yn anelu at fesur barn broffesiynol a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r senarios.

Arolwg ar ôl yr hyfforddiant:

Roedd yr arolwg ar ôl yr hyfforddiant yn cynnwys nifer o fesurau a ddefnyddiwyd yn yr arolwg cyn yr hyfforddiant i asesu ar gyfer newid (yn benodol, mesurau 2, 3 a 4, uchod). Yn ogystal, defnyddiwyd y mesurau ar ôl yr hyfforddiant canlynol:

- 5. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth:** Datblygodd y tîm ymchwil y mesur hwn i asesu pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant o ran hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth cyfranogwyr o ACEs (7 eitem). Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sgorio pob eitem ar raddfa Likert 5 pwynt o (1) *ddim yn ddefnyddiol o gwbl* i (5) *defnyddiol iawn*.
- 6. Dealltwriaeth o ddull wedi'i lywio gan ACE a thrawma i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed:** Datblygodd y tîm ymchwil y mesur hwn er mwyn canfod a oedd cyfranogwyr wedi adnabod rhai o'r negeseuon allweddol o ran dull wedi'i lywio gan ACE a thrawma tuag at weithio gyda phobl sy'n agored i niwed (7 eitem), yn dilyn yr hyfforddiant. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sgorio pob eitem ar raddfa Likert 5 pwynt o (1) *anghytuno'n gryf* i (5) *cytuno'n gryf*.
- 7. Gwreiddio'r hyfforddiant mewn ymarfer:** Datblygodd y tîm ymchwil ddau gwestiwn i asesu i ba

raddau yr oedd yr hyfforddiant yn galluogi cyfranogwyr i ymateb (1) yn hyderus a (2) yn gymwys i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE. Roedd y cwestiynau hyn yn cynnwys blychau testun agored i alluogi cyfranogwyr i roi sylwadau ar y rhesymau dros eu hymatebion. Cynhwyswyd tri blwch testun agored ychwanegol er mwyn i gyfranogwyr allu rhoi eu sylwadau ar y cwestiynau canlynol: "sut y byddwch yn cymhwyso'r wybodaeth a gafwyd o'r hyfforddiant ACE TIME heddiw i'ch ymarfer o ddydd i ddydd yfory, ac yn y dyfodol?", "a ydych yn credu y bydd y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth a gafwyd yn yr hyfforddiant yn cael eu defnyddio y tu allan i'ch amgylchedd gwaith? Os felly, eglurwch" a "pha rwystrau, os o gwbl, ydych chi'n eu gweld/rhagweld yn eich atal rhag cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o'r hyfforddiant ACE TIME i'ch ymarfer?".

8. Ansawdd a darpariaeth yr hyfforddiant: Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r cyfranogwyr am ansawdd a darpariaeth yr hyfforddiant er mwyn llywio datblygiad rhaglenni hyfforddiant yn y dyfodol (11 eitem). Cafodd yr ymatebion eu sgorio ar hyd graddfa a oedd yn amrywio o (1) gwael iawn i (5) rhagorol. At hynny, gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi sylwadau ar y cwestiynau canlynol: "pa ran o'r hyfforddiant oedd fwyaf defnyddiol i chi a pham?", "pa ran o'r hyfforddiant oedd leiaf defnyddiol i chi a pham?", "beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei ychwanegu at yr hyfforddiant a pham?" a "beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei dynnu o'r hyfforddiant a pham?".

Gwnaed un newid i'r holiadur cyn-hyfforddiant i'w addasu ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn asiantaethau partner: Addaswyd y datganiad canlynol o "eich dealltwriaeth o pryd y mae angen cyflwyno atgyfeiriad/uwchraddio risg" (heddlu) i "eich dealltwriaeth o pryd y mae angen cyflwyno atgyfeiriad/uwchraddio risg/PPN/CID16/MARF" (partneriaid MA).

Am adolygiad llawn o'r holl fesurau a ddefnyddiwyd yn yr holiaduron, gan gynnwys y sail dystiolaeth a'r rhesymeg, gweler Newbury et al., (2019) [21].

Gweithdrefnau

Cyflwynodd y tîm ymchwil y gwerthusiad cyn yr hyfforddiant, gan fanylu ar ddiben a chwmpas yr astudiaeth a sut y câi'r data eu prosesu. Gwahoddwyd yr holl gyfranogwyr yn yr hyfforddiant i gymryd rhan yn y gwerthusiad a rhoddwyd taflen wybodaeth a ffurflen gydsynio iddynt. Unwaith y cafwyd caniatâd ysgrifenedig gan y cyfranogwyr, rhoddodd y tîm ymchwil ddyfais tabled electronig⁵ iddynt i lenwi'r arolwg arno. Darparwyd allbrint o'r ddwy senario hefyd. Gofynnodd yr ymchwilwyr i gyfranogwyr gofnodi eu ID staff eu hunain yn yr arolygon gan hysbysu cyfranogwyr y byddai hyn yn cael ei ddisodli gan god ID dienw unigryw unwaith yr oedd arolygon cyn ac ar ôl yr hyfforddiant yn cael eu paru.

Dadansoddiadau Ystadegol

Cynhaliwyd profion-t samplau pâr Bayesaidd i asesu'r newidiadau o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (e.e. newidiadau o ran hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed). Defnyddion ni ddadansoddiad Bayesaidd o amrywiant (ANOVA), i asesu ar gyfer gwahaniaeth mewn canfyddiadau ar draws y newidynnau demograffeg (sef, ardal heddlu, rôl swydd a rhyw). Cynhaliwyd cydberthyniadau deunewidyn Bayesaidd i asesu'r berthynas rhwng y data demograffeg (sef hyd gwasanaeth ac oedran) a newidynnau canlyniadau.

Defnyddiwyd profion Bayesaidd gan y barnwyd eu bod yn cyd-fynd orau â'r data cyfredol. Defnyddion ni'r ffactor Bayes (sy'n cyfateb i'r gwerth p am bennu arwyddocâd; gweler Tabl 3) i brofi am wahaniaethau rhwng y data cyn ac ar ôl yr arolwg yn gyffredinol ac ar gyfer gwahanol grwpiau demograffeg (h.y. rhyw,

5 Cwblhaodd holl gyfranogwyr Heddlu Dyfed Powys gopïau papur o'r arolwg oherwydd gwaharddiad ar draws yr heddlu hwnnw ar ddefnyddio'r fformat electronig ar gyfer y gwerthusiad

ardal heddlu a rôl swydd). Roedd y ffactor Bayes yn cymharu'r dystiolaeth ar gyfer dim gwahaniaeth (h.y. y ddamcaniaeth nwl) a'r dystiolaeth ar gyfer gwahaniaeth (h.y. y rhagdybiaeth amgen) ar gyfer pob cwestiwn, ac yn penderfynu i ba raddau yr oedd y ddamcaniaeth amgen yn ffitio'r data yn well na'r nwl ac i'r gwrthwyneb. Trwy gymharu'r ddwy ragdybiaeth yn uniongyrchol, roedd yn darparu cryfder y dystiolaeth ar gyfer y ddau. Gellir dehongli cryfder gan ddefnyddio'r dosbarthiad a ddangosir yn nhabl 2. Lle'r oedd cryfder ar gyfer y rhagdybiaeth amgen yn gymedrol neu'n uwch, honno oedd y ddamcaniaeth oedd yn ffitio orau ym mhob achos. At ddiben yr adroddiad hwn, dim ond y dystiolaeth ar gyfer y rhagdybiaeth amgen a adroddir yn y prif destun; mae tystiolaeth ar gyfer y nwl ar gael ar gais. Lle nad oedd tystiolaeth ar gyfer y rhagdybiaeth amgen, adroddir ar dystiolaeth ar gyfer y ddamcaniaeth nwl yn yr atodiad technegol (atodiad 2).

Data ansoddol yr arolwg. Defnyddiwyd meddalwedd Atlas.ti ar gyfer dadansoddiad thematig o gwestiynau ymateb agored. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar y codau a oedd yn digwydd amlaf ar gyfer pob cwestiwn ac fe'u defnyddiwyd i ategu data meintiol. Edrychwyd ar y themâu hyn o safbwynt cyffredinol yr heddlu a phartneriaid MA a phersbectif ardal heddlu.

Tabl 2: Categoriâu tystiolaeth ffactor Bayes

Ffactor Bayes	Cryfder y dystiolaeth am wahaniaeth (damcaniaeth amgen; \mathcal{H}_1) ⁶
> 100	Tystiolaeth eithriadol am wahaniaeth
30 - 100	Tystiolaeth gref iawn am wahaniaeth
10 - 30	Tystiolaeth gref am wahaniaeth
3 - 10	Tystiolaeth gymedrol am wahaniaeth
1 - 3	Dim tystiolaeth am wahaniaeth

Sylwer. Cynllun disgrifiadol a bras yw hwn ar gyfer dehongli ffactorau Bayes (Lee & Wagenmakers 2013; wedi'i addasu o Jeffrey's 1961).

6 Rydym wedi addasu'r categorïau gwreiddiol i eithrio "tystiolaeth anecdotaidd". At ddiben y gwerthusiad hwn mae tystiolaeth anecdotaidd wedi'i hymgorffori yn y "categori dim tystiolaeth".

3. Canfyddiadau

Demograffeg sampl

Aeth y tîm ymchwil i 59 o sesiynau hyfforddiant a'u gwerthuso ar draws y pedwar heddlu (GWP = 21, NWP = 16, SWP = 14 a DPP = 8). Cafodd cyfanswm o 1,034 o weithwyr proffesiynol eu hyfforddi, ac o'r rhain cymerodd 849 o aelodau staff yr heddlu a 147 o staff amlasiantaeth ran yn y gwerthusiad (996 o gyfranogwyr i gyd, gyda 92% wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad). Mae Tabl 3 yn cyflwyno demograffeg cyfranogwyr y gwerthusiad. Roedd tua hanner y sampl cyfan yn ddynion (50% o gymharu â 44% o fenywod [6% o ddata coll]). Yn sampl yr heddlu roedd 56% yn ddynion a 38% yn fenywod a chynrychiolwyd y sampl partneriaid MA yn bennaf gan fenywod (77% [dynion = 16%, ar goll = 7%]). Roedd oedran sampl yr heddlu yn amrywio o 18-66 mlwydd oed, gydag oedran cymedrig o 38 mlwyddoed, gyda dim ond 11% yn ≤ 25 oed. Cynrychiolwyd staff aml-asiantaeth gan boblogaeth hŷn, gyda thua hanner yn 46 oed neu drosodd (43%). Roedd ethnigrwydd samplau'r heddlu a phartneriaid MA yn wyn yn bennaf (91% a 86%, yn y drefn honno). Roedd hyd y gwasanaeth yn amrywio rhwng 1 mis a 48 mlynedd, gyda chyfartaledd hyd y gwasanaeth ar gyfer yr heddlu yn 10 mlynedd ac ar gyfer staff MA yn 14 blynedd. Roedd tua hanner cyfranogwyr yr heddlu (51%) yn gweithio mewn ymateb ac un rhan o bump (21%) mewn timau plismona cymdogaeth (NPT) gyda'r rheini o PPU, y ddalfa, CID a rolau ymchwilio eraill yn ffurfio gweddill yr adrannau (29%; [gan gynnwys 7% o ddata coll]). Roedd tua 22% o gyfranogwyr MA yn gweithio mewn gwasanaethau addysg plant a phobl ifanc; 22% yn y sector diogelu, gofal cymdeithasol a theluoedd, 22% yn y sector iechyd a llesiant ac 16% arall ym maes tai, cymunedol ac awdurdod lleol (roedd 19% yn cynnwys data "arall" a cholli).

Tabl 3. Trosolwg demograffeg o'r cyfranogwyr

Demograffeg		Sampl llawn		Heddlu		Amlasiantaeth	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Cyfanswm cyfranogwyr		996	100	849	85.2	147	14.8
Ystod oedran		18-66 oed		19-66 oed		18-64 oed	
Oedran cymedrig		37.5 oed		36.6 oed		42.8	
	18-25 oed	103	10.3	91	10.7	12	8.2
	26-35 oed	345	34.6	316	37.2	29	19.7
	36-45 oed	249	25	218	25.7	31	21.1
	46+ oed	234	23.5	171	20.1	63	42.8
	Data coll	65	6.5	53	6.2	12	8.2
Rhyw							
	Dynion	500	50.2	476	56.1	24	16.3
	Menywod	433	43.5	320	37.7	113	76.9
	Arall	2	0.2	2	0.2	-	-
	Data coll	61	6.1	51	6	10	6.8
Ethnigrwydd							
	Gwyn	902	90.6	775	91.3	127	86.4
	Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	15	1.5	9	1.1	6	4.1
	Cymysg	16	1.6	13	1.5	3	2.0
	Arall	1	0.1	1	0.1	-	-
	Data coll	60	6	50	5.9	10	6.8
Ystod hyd gwasanaeth		1 mis - 48 mlynedd		1 mis - 48 mlynedd		1 mis - 40 mlynedd	
Hyd gwasanaeth cymedrig		10.8		10.3		13.6	
Hyd gwasanaeth							
	<3 mlynedd	210	21.1	182	21.4	28	19
	3-10 mlynedd	273	27.4	242	28.5	31	21.1
	11-19 mlynedd	307	30.8	273	32.2	34	23.1
	20+ mlynedd	141	14.2	98	11.5	43	29.3
	Data coll	65	6.5	54	6.4	11	7.5
Adran							
	PPU/PPD	-	-	23	2.7	-	-
	NPT	-	-	175	20.6	-	-
	Ymateb	-	-	432	50.9	-	-
	CID	-	-	68	8	-	-
	Y ddalfa	-	-	20	2.4	-	-
	Rolau ymchwiliol eraill	-	-	15	1.8	-	-
	Arall	-	-	61	7.2	-	-
	Data coll	-	-	55	6.5	-	-
Sector							
	Addysg/Gwasanaethau PPI	-	-	-	-	32	21.7
	Diogelu/gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth teuluoedd	-	-	-	-	32	21.7
	lechyd a Llesiant	-	-	-	-	32	21.7
	Tai/cymunedol/lleol gweithiwr awdurdod	-	-	-	-	23	15.6
	Arall	-	-	-	-	18	12.2
	Data coll	-	-	-	-	10	6.8

3.1 Hyder wrth ddeall a gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs

Archwiliodd yr arolwg cyn ac ar ôl yr arolygon y newid uniongyrchol mewn hyder yn dilyn yr hyfforddiant. Roedd y raddfa hyder yn cynnwys dwy is-raddfa, a oedd yn asesu hyder yr heddlu a phartneriaid MA yn eu dealltwriaeth o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed a hyder yn eu dealltwriaeth o ACEs a'u heffaith. Sgoriwyd yr hyder gan ddefnyddio graddfa Likert 10 pwynt a amrywiai o (1) *ddim yn hyderus o gwbl* i (10) *yn gwbl hyderus*.

Cyn yr hyfforddiant, roedd gan yr heddlu a phartneriaid MA lefel uchel o hyder mewn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed a lefel gymedrol o hyder wrth weithio gydag ACEs (gweler tabl 4). Roedd ganartneriaid MA lefelau uchel o hyder mewn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed a lefel gymedrol o hyder wrth weithio gydag ACEs (gweler tabl 4). Gweler Atodiad 1, tablau 1 a 2 ar gyfer y dadansoddiad cyffredinol a demograffeg, cyfanswm y sampl a chyfradd yr ymateb.


Cynyddodd hyder yr heddlu a phartneriaid MA o ran gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs rhwng y cyfnodau cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Roedd y sgorau cymedrig ar gyfer hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn uchel ar y dechrau a gwnaethant gynyddu'n sylweddol ar ôl yr hyfforddiant (gweler ffigur 1). Cynyddodd y sgôr gymedrig ar gyfer gweithio gydag ACEs o hyder cymedrol i hyder uchel (tystiolaeth eithriadol). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 2 a 3.

Tabl 4. Newid hyder cyffredinol o cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (yr heddlu a phartneriaid MA)

Hyder i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed					Hyder i weithio gyda dull wedi'i lywio gan ACE			
	Cyn	Ar ôl	Newid cymedrig	Canran y newid	Cyn	Ar ôl	Newid cymedrig	Canran y newid
Heddlu								
M	7.9	8.3	+0.4	4.8	5.1	8.6	+3.5	68.9
SD	1.3	1.2			1.8	1.1		
N	795	757			794	761		
Partneriaid MA								
M	8.3	8.6	+0.4	4.2	6.6	9.2	2.6	39.1
SD	1.3	1.1			1.9	1.0		
N	131	127			134	134		

Sylwer M = cymedrig; SD = gwyrriad safonol; N = maint y sampl.

Ffigur 1. Newid hyder yn gyffredinol o cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (yr heddlu a phartneriaid MA)




Sylwer. Sgoriwyd yr hyder ar raddfa a amrywiol o (1) ddim yn hyderus o gwbl i (10) yn gwbl hyderus

3.1.1 Hyder cyn ac ar ôl yr hyfforddiant yn ôl demograffeg

Rhyw

Cyn yr hyfforddiant, nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y rhywiau ar gyfer yr heddlu neu bartneriaid MA. Yn dilyn yr hyfforddiant, roedd i ba raddau yr oedd hyder yr heddlu wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed wedi cynyddu yn wahanol i heddlu gwrywaidd a benywaidd (gweler ffigur 2). Dangosodd heddlu gwrywaidd a benywaidd gynnydd mewn hyder o ran gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 12), fodd bynnag roedd gan heddlu benywaidd fwy o gynnydd o ran hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed na heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gymedrol; gweler atodiad 2 tabl 6). Ar ôl yr hyfforddiant, roedd heddlu a phartneriaid benywaidd yn fwy hyderus wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed (tystiolaeth gymedrol i eithriadol) ac ACEs (tystiolaeth gref iawn i eithriadol). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 4 i 8.

Ffigur 2. Hyder o ran gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs rhwng y cyfnodau cyn ac ar ôl yr hyfforddiant (sampl yr heddlu a phartneriaid MA).




Sylwer. Sgoriwyd yr hyder ar raddfa a amrywiol o (1) ddim yn hyderus o gwbl i (10) yn gwbl hyderus.

Ardal heddlu

Nid oedd gwahaniaethau yn ôl ardal heddlu o ran hyder partneriaid MA yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs, cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau sylweddol ar draws ardaloedd heddlu o ran hyder yr heddlu yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed, cyn yr hyfforddiant (tystiolaeth gymedrol; gweler ffigur 3). Roedd Heddlu De Cymru yn fwy hyderus yn eu dealltwriaeth o weithio gyda phobl sy'n agored i niwed na Dyfed Powys (tystiolaeth gref), Gwent (tystiolaeth gref) a Heddlu Gogledd Cymru (tystiolaeth gref iawn). Nid oedd gwahaniaethau yn ôl ardal heddlu o ran hyder wrth weithio gydag ACEs.

Yn y cyfnod rhwng cyn yr hyfforddiant ac ar ôl yr hyfforddiant, roedd i ba raddau yr oedd hyder yr heddlu wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed wedi cynyddu yn wahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd yr heddlu (tystiolaeth gymedrol; gweler atodiad 2, tabl 6). Roedd heddlu Dyfed Powys, Gwent a Gogledd Cymru yn dangos cynnydd yn eu hyder wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 12), ond ni wnaeth Heddlu De Cymru hynny. Nid oedd unrhyw wahaniaethau o ran i ba raddau yr oedd partneriaid MA o'r gwahanol ardaloedd heddlu wedi cynyddu rhwng cyn yr hyfforddiant ac ar ôl yr hyfforddiant. Ar ôl yr hyfforddiant, nid oedd gwahaniaethau rhwng hyder ardaloedd yr heddlu wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs (h.y. roedd gan bob heddlu lefelau tebyg ac uchel o hyder; gweler ffigur 3). Roedd y canfyddiad hwn yn parhau i fod yn anarwyddocaol ar ôl rheoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 9 i 14.

Ffigur 3. Hyder o ran gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed rhwng y cyfnodau cyn ac ar ôl yr hyfforddiant ar draws ardaloedd yr heddlu (yr heddlu)



Sylwer. Sgoriwyd yr hyder ar raddfa a amrywiol o (1) ddim yn hyderus o gwbl i (10) yn gwbl hyderus. Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfyngau hygrededd o 95%.

Rôl swydd⁷


Cyn yr hyfforddiant, nid oedd gwahaniaethau rhwng amrywiol rolau swydd yr heddlu neu sectorau swyddi partneriaid MA o ran hyder yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs. Nid oedd dystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau y newidiodd yr heddlu a phartneriaid MA o'r gwahanol rolau/sectorau swyddi yn y cyfnod cyn yr hyfforddiant tan ar ôl yr hyfforddiant ac nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y gwahanol rolau swyddi neu sectorau ar gyfer yr heddlu a phartneriaid MA ar ôl yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 15 a 16.

⁷ Tynnwyd grwpiau rolau swydd gyda meintiau sampl cymharol fach o'r dadansoddiadau a oedd yn cymharu rolau swydd ar bob newidyn. Y rolau swydd a gafodd eu cymharu yn y dadansoddiad oedd: PCSO, PC, PS, DC a staff yr heddlu (gan gynnwys Cyfathrebu/Danfon).

Oed a hyd gwasanaeth

Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a oedd wedi gwasanaethu'n hwy yn yr heddlu yn fwy hyderus wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed (gweler tabl 5); roedd yr heddlu a oedd yn hŷn yn fwy hyderus wrth weithio gydag ACEs (gweler tabl 5, hefyd gweler atodiad 1, tabl 3 ar gyfer ffigurau cymedrig ac SD). Ar ôl yr hyfforddiant nid oedd unrhyw berthynas rhwng sgorau hyder, oedran a hyd yr amser yn y gwasanaeth. Nid oedd tystiolaeth o gydbertynas rhwng oedran a hyder (bod yn agored i niwed ac ACEs) ar gyfer partneriaid MA cyn ac ar ôl yr hyfforddiant (gweler ffigur 4).

Ffigur 4. Hyder yr heddlu yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs ar gyfer oedran a hyd amser yn y gwasanaeth a gategoreiddiwyd



Tabl 5. Cydberthyniadau deunewidyn Bayesaidd rhwng hyder cyn ac ar ôl hyder, oed a hyd yr amser yn yr heddlu


		Oed	Hydyramser yn yr heddlu
Hyder cyn (pobl sy'n agored i niwed)	<i>Pearson's r</i>	0.1	0.1
	BF_{10}	Dim tystiolaeth	Tystiolaeth gref
Hyder ar ôl (pobl sy'n agored i niwed)	<i>Pearson's r</i>	0.0	0.1
	BF_{10}	Dim tystiolaeth	Dim tystiolaeth
Hyder cyn (ACEs)	<i>Pearson's r</i>	0.1	0.1
	BF_{10}	Tystiolaeth gymedrol	Dim tystiolaeth
Hyder ar ôl (ACEs)	<i>Pearson's r</i>	0.0	0.0
	BF_{10}	Dim tystiolaeth	Dim tystiolaeth

Sylwer. BF_{10} = ffactor Bayes am ragdybiaeth amgen.

3.1.2 Hyder yn cyflwyno atgyfeiriadau o ran pobl sy'n agored i niwed (heddlu)

Roedd gan bob un o ardaloedd yr heddlu brosesau atgyfeirio amrywiol, yr oedd rhai ohonynt yn destun newid sylweddol. Fel y cyfryw, roedd gennym ddi-ddordeb yn yr eitem sengl o fewn y raddfa hyder a asesodd hyder yr heddlu o ran cyflwyno atgyfeiriadau agored i niwed. Gofynnwyd i'r heddlu "pa mor hyderus ydych chi yn eich dealltwriaeth o ba bryd y mae angen cyflwyno atgyfeiriad/uwchraddio risg/PPN/CID I 6/MARF ..."

Cyn yr hyfforddiant, roedd gwahaniaethau rhwng ardaloedd yr heddlu o ran hyder ynghylch pryd i gyflwyno atgyfeiriad o ran pobl sy'n agored i niwed (tystiolaeth eithriadol). Roedd De Cymru yn fwy hyderus na Dyfed Powys (tystiolaeth eithriadol), Gwent (tystiolaeth eithriadol) a Heddlu Gogledd Cymru (tystiolaeth gref iawn). Roedd i ba raddau yr oedd hyder yr heddlu ynghylch pryd i gyflwyno atgyfeiriad o ran pobl sy'n agored i niwed yn cynyddu o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i'r cyfnod ar ôl yr hyfforddiant hefyd yn wahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd yr heddlu (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 19). Dangosodd Dyfed Powys (tystiolaeth gymedrol) a Gwent (tystiolaeth eithriadol) gynnydd mewn hyder o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant tan i'r cyfnod ar ôl yr hyfforddiant (gweler atodiad 2, tabl 20). Fodd bynnag, ni fu unrhyw wahaniaethau o ran hyder ar gyfer heddlu Gogledd Cymru na De Cymru o ran y cyfnodau cyn ac ar ôl yr hyfforddiant (gweler ffigur 5). Ar ôl yr hyfforddiant, nid oedd gwahaniaethau rhwng ardaloedd yr heddlu, gyda phob heddlu yn adrodd am lefelau uchel o hyder). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 17 i 20.

Ffigur 5. Hyder cyn yr hyfforddiant ac ar ôl yr hyfforddiant ynghylch cyflwyno atgyfeiriadau o ran pobl sy'n agored i niwed yn ôl ardal heddlu (heddlu)

Sylwer Sgoriwyd yr hyder ar raddfa a amrywiol o (1) ddim yn hyderus o gwbl i (10) yn gwbl hyderus. Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfyngau hygrededd o 95%.

3.2 Ymatebion i senarios plismona gweithredol (ymddygiad gwrthgymdeithasol)

Gofynnwyd i'r heddlu a phartneriaid MA ddarllen dwy senario, un yn disgrifio digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol (gweler tud. 30, blwch 3) ac un yn disgrifio digwyddiad yn ymwneud â cham-drin yn y cartref (gweler tudalen 36, blwch 4). Ymatebodd y cyfranogwyr i 7 datganiad (cyn ac ar ôl yr hyfforddiant) gyda'r nod o asesu'r newid uniongyrchol mewn barn a phenderfyniadau proffesiynol mewn perthynas â'r senarios hynny (gweler tabl 6).

Cofnodwyd ymatebion ar raddfa Likert 10 pwynt a'u dadansoddi ar wahân.

Blwch 3. Senario ymddygiad gwrthgymdeithasol

Fel rhan o'u patrôl leol, mae PCSO yn galw'n rheolaidd i glwb ieuenctid ac wrth fynd i mewn, mae'n cael gwybod gan weithiwr ieuenctid bod bachgen 10 oed wedi bod yn arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol (fandaliaeth ac ymddygiad ymosodol tuag at rai pobl ifanc eraill). Dyma'r tro cyntaf i'r person ifanc gael ei ddwyn i sylw'r heddlu. Gwyddys bod y plentyn wedi'i wahardd o'r ysgol. Mae gwiriad cefndir o hanes teuluol y plentyn yn dangos nad oes hanes blaenorol (gwybodaeth) sy'n ymwneud â rhieni'r plentyn.

Newidiodd barn broffesiynol a phenderfyniadau'r heddlu (yn y cyfeiriad disgwylidig) o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i'r cyfnod ar ôl yr hyfforddiant ar gyfer pump o'r saith dangosydd. Newidiodd barn broffesiynol a phenderfyniadau'r partneriaid MA (yn y cyfeiriad disgwylidig) o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i'r cyfnod ar ôl yr hyfforddiant ar gyfer tri o'r saith dangosydd. Dangosir y sgorau newid cymedrig cyffredinol ar gyfer pob dangosydd yn nhabl 6 ac yna cânt eu dadansoddi yn ôl y dangosydd isod. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir uchod gweler atodiad 2, tablau 21 i 22. Gweler atodiad 1, tablau 4 a 11 ar gyfer y dadansoddiad cyffredinol a demograffeg, cyfanswm y sampl a chyfradd yr ymateb.

Tabl 6. Newid cyffredinol yn yr ymatebion i senario plismona gweithredol (barn broffesiynol a phenderfyniadau; ASB)

Barn broffesiynol a phenderfyniadau	Heddlu				Partneriaid MA			
	Cyn M (SD)	Ar ôl M (SD)	Cymorth BF ₁₀	Canran y newid o'r gwaelodlin	Cyn M (SD)	Ar ôl M (SD)	Cymorth BF ₁₀	Canran y newid o'r gwaelodlin
1. Yn eich barn chi, pa mor debygol yw hi bod yr unigolyn hwn yn ymwneud â gweithgarwch troseddol ar hyn o bryd?	5.7 (2.4)	6.7 (2.2)	Eithriadol	17.0	5.0 (2.2)	6.2 (2.4)	Eithriadol	24.6
2. Pa mor gyfrifol yw'r person ifanc am ei weithredoedd?	6.5 (2.0)	5.9 (2.0)	Eithriadol	-9.1	6.0 (2.1)	5.2 (2.2)	Anecdotaidd	-7.9
3. Yn eich barn chi, pa mor debygol yw hi y ceir ail alwad i'r person ifanc hwn?	7.9 (1.7)	7.7 (1.7)	Dim tystiolaeth	-0.2	7.0 (1.8)	7.5 (2.0)	Anecdotaidd	6.3
4. Pa mor 'agored i niwed' ydych chi'n ystyried yw'r person ifanc hwn?	6.9 (1.8)	7.5 (1.7)	Eithriadol	7.5	7.6 (1.8)	7.9 (1.8)	Dim tystiolaeth	3.5
5. Ydych chi'n meddwl y gallai'r digwyddiad hwn fod yn ddangosydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol yn y dyfodol?	7.7 (1.8)	7.8 (1.7)	Dim tystiolaeth	0.9	7.1 (2.0)	7.4 (2.0)	Dim tystiolaeth	4.2
6. A ydych yn credu bod hwn yn fater i'r heddlu?	6.4 (2.2)	6.9 (2.0)	Eithriadol	6.8	5.1 (2.3)	6.0 (2.4)	Cryf iawn	16.8
7. Yn eich barn chi, pa mor ddifrifol yw'r digwyddiad hwn?	5.0 (1.8)	6.0 (1.7)	Eithriadol	18.3	5.3 (1.9)	6.2 (2.0)	Eithriadol	15.4

Sylwer. Cafodd datganiadau eu sgorio ar y graddfeydd Likert canlynol: Datganiad 1 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *yn bendant*; Datganiad 2 = (1) *ddim yn gyfrifol* i (10) *yn llwyr gyfrifol*; Datganiad 3 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *yn bendant*; Datganiad 4 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *agored iawn i niwed*; Datganiad 5 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *yn bendant*; Datganiad 6 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *yn bendant* a Datganiad 7 = (1) *ddim yn ddifrifol o gwbl* i (10) *eithriadol o ddifrifol*.

Yn eich barn chi, pa mor debygol yw hi bod yr unigolyn hwn yn ymwneud â gweithgarwch troseddol ar hyn o bryd?

Roedd y graddau yr oedd yr heddlu'n canfod bod y person ifanc yn y senario yn rhan o weithgarwch troseddol arall yn cynyddu o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol) gyda chynnydd o 17% o'r gwaelodlin (gweler tabl 6). Cafwyd hefyd gynnydd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yng nghanfyddiad partneriaid MA o ymwneud troseddol arall (tystiolaeth eithriadol) gyda chynnydd o 25% o'r gwaelodlin (gweler tabl 6). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 21 a 22.


Canfyddiad o weithgarwch troseddol yn ôl demograffeg

Nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth o ran canfyddiadau'r heddlu a phartneriaid o ran ymwneud y person ifanc mewn gweithgarwch troseddol arall yn ôl ardal heddlu, ac nid oedd gwahaniaeth ychwaith yn y graddau yr oedd ardaloedd yr heddlu'n newid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 27 a 28.

Rhyw

Cyn yr hyfforddiant, roedd heddlu gwrywaidd yn sylweddol fwy tebygol na heddlu benywaidd i ganfod bod y person ifanc yn ymwneud â gweithgarwch troseddol arall (tystiolaeth eithriadol, gweler ffigur 6). At hynny, roedd y graddau y cynyddodd canfyddiadau o weithgarwch troseddol o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yn wahanol i heddlu gwrywaidd a benywaidd (tystiolaeth gref; gweler atodiad 2, tabl 31), ond nid oedd gwahaniaeth ar gyfer partneriaid MA. Cynyddodd canfyddiadau'r heddlu gwrywaidd a benywaidd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i'r cyfnod ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol, atodiad 2, tabl 32), ond roedd gan heddlu benywaidd fwy o gynnydd na'r heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gref). Ar ôl yr hyfforddiant, roedd gan yr heddlu gwrywaidd a benywaidd ganfyddiadau tebyg o weithgarwch troseddol (h.y. nid oedd dystiolaeth o wahaniaeth rhwng y rhywiau). Roedd y canfyddiad hwn yn parhau ar ôl rheoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant. Nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth rhwng y rhywiau cyn ac ar ôl yr hyfforddiant i bartneriaid MA. Am ragor o fanylion ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 23 i 26.

Ffigur 6. Canfyddiad o ba mor debygol oedd y person ifanc o ymwneud â gweithgarwch troseddol arall cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yn ôl rhyw (heddlu)



Sylwer. Cafodd canfyddiad o ba mor debygol oedd y person ifanc o fod yn ymwneud â gweithgarwch troseddol arall ei sgorio ar raddfa Likert yn amrywio o (1) *ddim yn debygol iawn o gwbl* i (10) *yn debygol iawn*. Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfyngau hygrededd o 95%.

Rôl swydd/sector

Cyn yr hyfforddiant roedd gwahaniaeth yn y canfyddiad o weithgarwch troseddol rhwng rolau swydd (tystiolaeth eithriadol). Roedd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu o'r farn bod y person ifanc yn llai tebygol o fod yn ymwneud â gweithgarwch troseddol arall na chwinstabliaid yr heddlu (tystiolaeth eithriadol) a rhingylliaid yr heddlu (tystiolaeth gref iawn) (gweler atodiad 2, tabl 33). Yn ogystal, roedd cwnstabliaid yr heddlu a rhingylliaid yr heddlu yn ystyried bod y person ifanc yn fwy tebygol o fod yn ymwneud â gweithgareddau troseddol eraill, nag yr oedd ditectif gwnstabliaid (tystiolaeth gymedrol; gweler atodiad 2, tabl 33). Nid oedd unrhyw wahaniaeth yn y ffordd y gwnaeth yr heddlu a phartneriaid MA o'r gwahanol rolau swyddi/ sectorau newid cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Ar ôl yr hyfforddiant nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rôl swydd. Roedd y canfyddiad hwn yn parhau ar ôl rheoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 29 a 30.

Pa mor gyfrifol yw'r person ifanc am ei weithredoedd?

Nid oedd gwahaniaeth yng nghanfyddiad partneriaid MA o ba mor gyfrifol oedd y person ifanc am ei weithredoedd pan yn ifanc o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. I'r heddlu, fodd bynnag, gostyngodd canfyddiadau o gyfrifoldeb ieuencid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gyda gostyngiad o 9% o'r gwaelodlin (gweler tabl 6). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 21 a 22.

Cyfrifoldeb ieuencid yn ôl demograffeg

Cyn yr hyfforddiant, roedd canfyddiadau'r heddlu o gyfrifoldeb ieuencid yn amrywio yn ôl ardal heddlu (tystiolaeth gymedrol) gyda Heddlu Dyfed Powys yn ystyried y person ifanc yn llai agored i niwed na Heddlu De Cymru (tystiolaeth gref iawn; gweler atodiad 2, tabl 34). Nid oedd gwahaniaethau o ran graddau'r newid yng nghanfyddiadau'r heddlu o gyfrifoldeb ieuencid yn ôl rhyw, rôl swydd nac ardal heddlu. Nid oedd gwahaniaethau rhwng yr heddluoedd ar ôl yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 23 i 30.

Pa mor 'agored i niwed' ydych chi'n ystyried yw'r person ifanc hwn?


Nid oedd gwahaniaeth mewn canfyddiad partneriaid MA o ba mor agored i niwed oedd y person ifanc yn y cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd canfyddiadau'r heddlu ynghylch pa mor agored i niwed yr oedd y person ifanc wedi cynyddu o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 8% o'r gwaelodlin (gweler tabl 6). Am ragor o fanylion (gweler tabl 6) ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 21 a 22.

Y person ifanc yn agored i niwed yn ôl demograffeg

Nid oedd dystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd canfyddiadau'r heddlu o ba mor agored i niwed oedd y person ifanc yn newid yn ôl rhyw, rôl swydd neu ardal heddlu. Er nad oedd gwahaniaethau mewn canfyddiadau o ba mor agored i niwed oedd y person ifanc cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu benywaidd yn ystyried bod y person ifanc yn fwy agored i niwed nag yr oedd yr heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gymedrol; gweler Ffigur 7). At hynny, roedd gwahaniaeth yn y canfyddiad o ba mor agored i niwed oedd y person ifanc rhwng ardaloedd heddlu cyn yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol). Roedd yr heddlu yn Nyfed Powys o'r farn bod y person ifanc yn fwy agored i niwed na'r heddlu yng Ngwent, Gogledd Cymru a De Cymru (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2 tabl 35). Ar ôl yr hyfforddiant, roedd Dyfed Powys yn dal i ystyried bod y plentyn yn fwy agored i niwed na'r tair ardal heddlu arall

(tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 36). Wrth reoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant nid oedd tystiolaeth ar gyfer y gwahaniaeth ar ôl yr hyfforddiant. Felly, roedd y gwahaniaeth rhwng Dyfed Powys a'r heddluoedd eraill ar ôl y hyfforddiant o bosibl yn ganlyniad i'r gwahaniaeth oedd yn bodoli cyn yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 23 i 30.

Ffigur 7. Canfyddiad o ba mor agored i niwed oedd y person ifanc cyn ac ar ôl yr hyfforddiant yn ôl rhyw (heddlu)



Sylwer. Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfyngau hygrededd o 95%. Y canfyddiad o fod yn agored i niwed wedi'i sgorio ar raddfa o (1) heb fod yn agored i niwed i gwbl o (10) hynod o agored i niwed.

A ydych yn meddwl y gallai'r digwyddiad hwn fod yn ddangosydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol yn y dyfodol?

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o newid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant ac ar ôl yr hyfforddiant yn sgorau'r heddlu a phartneriaid MA ar a allai'r digwyddiad fod yn ddangosydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol yn y dyfodol. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 21 a 22.

A ydych yn credu bod hwn yn fater i'r heddlu?

Roedd y graddau yr oedd yr heddlu'n gweld y digwyddiad yn y senario i fod yn fater i'r heddlu, yn cynyddu o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 7% o'r gwaelodlin (gweler tabl 6). Yn debyg i hynny, roedd y graddau yr oedd MA yn gweld y digwyddiad yn y senario yn fater i'r heddlu, yn cynyddu o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gref iawn), gyda chynnydd o 17% o'r gwaelodlin (gweler tabl 6). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 21 a 22.


Mater yr heddlu yn ôl demograffeg

Yn dilyn yr hyfforddiant, nid oedd tystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd yr heddlu a phartneriaid MA yn newid yn ôl rhyw, ardal heddlu neu rôl swydd. At hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth am wahaniaeth yn ôl rhyw, ardal heddlu na rôl swydd/sector yng nghanfyddiadau'r heddlu a'r partneriaid MA ynghylch i ba raddau yr oedd y digwyddiad yn fater i'r heddlu, cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 23 i 30.

Yn eich barn chi, pa mor ddifrifol yw'r digwyddiad hwn?

Sgoriodd yr heddlu a phartneriaid MA cyn ac ar ôl yr hyfforddiant ddifrifoldeb y digwyddiad fel cymedrol. Roedd y sgorau hyn o fewn ffiniau'r hyn a fyddai'n cael ei weithredu mewn "ymateb gohiriedig", gweler ffigur 8.

Ffigur 8. Ystod o ddifrifoldeb ar gyfer ymateb gweithredol.



Roedd cynnydd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yng nghanfyddiad yr heddlu o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 18% o'r gwaelodlin (gweler tabl 6). Cafwyd hefyd gynnydd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yng nghanfyddiad partneriaid MA o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 15% o'r gwaelodlin (gweler tabl 6). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 21 a 22.

Difrifoldeb y digwyddiad yn ôl demograffeg

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth yn ôl rhyw ar gyfer canfyddiadau'r heddlu a phartneriaid MA o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad (gweler atodiad 2, tablau 23 i 26). At hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau y newidiodd heddlu a phartneriaid gwrywaidd a benywaidd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant.

Ardal heddlu

Nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth ar draws ardaloedd yr heddlu ar gyfer partneriaid MA cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Fodd bynnag, cyn yr hyfforddiant, roedd gwahaniaeth rhwng ardaloedd yr heddlu o ran canfyddiad o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad (tystiolaeth eithriadol). Roedd Heddlu Dyfed Powys o'r farn bod y digwyddiad yn fwy difrifol na Gogledd Cymru (tystiolaeth gref iawn), De Cymru (tystiolaeth eithriadol) a Heddlu Gwent (tystiolaeth eithriadol); i gael rhagor o fanylion technegol am y canlyniadau, gweler atodiad 2, tabl 37. At hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd yr heddlu a phartneriaid MA o wahanol ardaloedd heddlu wedi newid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth yn ôl ardal heddlu ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gref iawn). Roedd Heddlu Dyfed Powys yn dal i ystyried y digwyddiad yn fwy difrifol na Gogledd Cymru (tystiolaeth gref iawn) a Heddlu De Cymru (tystiolaeth eithriadol), ond nid Heddlu Gwent (i gael rhagor o fanylion technegol am y canlyniadau gweler atodiad 2, tabl 38). Wrth reoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gyfer y gwahaniaethau hyn. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu nad oedd y gwahaniaethau ar ôl yr hyfforddiant yn deillio o'r hyfforddiant, ond eu bod yn fwy tebygol o ddeillio o'r gwahaniaethau oedd yn bodoli eisoes. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 27 a 28.

Difrifoldeb y digwyddiad yn ôl rôl swydd/sector

Cyn yr hyfforddiant roedd gwahaniaeth yn ôl rôl swydd i'r heddlu (tystiolaeth eithriadol). Roedd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu o'r farn bod y digwyddiad yn fwy difrifol na chwinstabliaid yr heddlu (tystiolaeth gymedrol), ditectif gwnstabliaid (tystiolaeth eithriadol) a rhingylliaid yr heddlu (tystiolaeth gref iawn). Roedd cwnstabliaid yr heddlu a staff yr heddlu (gan gynnwys cyfathrebu/danfon) yn ystyried bod y digwyddiad yn fwy difrifol na ditectif gwnstabliaid (tystiolaeth gymedrol a chref, yn y drefn honno); i gael rhagor o fanylion technegol am y canlyniadau, gweler atodiad 2, tabl 39). Roedd gwahaniaeth rhwng y sectorau swyddi ar gyfer partneriaid MA (tystiolaeth gymedrol), gyda'r sectorau iechyd a llesiant yn sgorio'n uwch ar ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad, o'i gymharu â gwasanaethau diogelu/gofal cymdeithasol a chymorth i deuluoedd (tystiolaeth gref); i gael rhagor o fanylion technegol am y canlyniadau, gweler atodiad 2, tabl 40. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd yr heddlu a phartneriaid o wahanol rolau swyddi/sector wedi newid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. At hynny, ar ôl yr hyfforddiant nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl ardal heddlu o ran canfyddiad yr heddlu a phartneriaid MA o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad. Roedd y canfyddiad hwn yn gyson wrth reoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 29 a 30.

3.3 Ymatebion i senarios plismona gweithredol (Cam-drin yn y cartref)

Newidiodd barn broffesiynol a phenderfyniadau'r heddlu (yn y cyfeiriad disgwylidig) o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i'r cyfnod ar ôl yr hyfforddiant ar gyfer pedwar o'r saith dangosydd. Newidiodd barn broffesiynol a phenderfyniadau'r partneriaid MA (yn y cyfeiriad disgwylidig) o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i'r cyfnod ar ôl yr hyfforddiant ar gyfer pump o'r saith dangosydd. Dangosir y sgorau newid cymedrig cyffredinol ar gyfer pob dangosydd yn nhabl 7 ac yna cânt eu dadansoddi yn ôl y dangosydd isod. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 41 a 42. Gweler atodiad 1, tablau 12 a 19 ar gyfer y dadansoddiad cyffredinol a demograffeg, cyfanswm y sampl a chyfradd yr ymateb.

Blwch 4. Senario Cam-drin yn y cartref

Mae galwad 999 yn dod i mewn gan gymydog ynglŷn ag achos honedig o gam-drin yn y cartref. Mae'r cymydog wedi adrodd clywed gweiddi a phlant yn sgrechian. Hysbysir yr heddlu mai ail alwad i'r cyfeiriad yw hwn. Mae'r heddlu'n cyrraedd y breswylfa ac mae oedolyn benywaidd yn ateb y drws. Dydy hi ddim yn cadw cyswllt llygad â'r heddlu, mae'n edrych yn anniben gyda dillad sydd o bosibl wedi'u rhwygo, ac yn esbonio mai dim ond dadl gyda'i phartner ydoedd a mynnu bod popeth yn iawn. Mae'r heddlu yn gofyn am gael mynd i mewn i'r tŷ ac mae'r fenyw yn amharod. Mae plentyn o dan 5 oed i'w weld ac mae'n ymddangos ei fod yn iawn. Tra yn y cyfeiriad mae'r ystafell reoli yn anfon galwad uniongyrchol i'r radio yn gofyn i'r heddlu ddargyfeirio'n syth i ddigwyddiad o ddwyn o siop yn agos at y man lle y maent.

Tabl 7. Newid cyffredinol yn yr ymatebion i senario plismona gweithredol (barn broffesiynol a phenderfyniadau; DA)

Barn broffesiynol a phenderfyniadau	Heddlu				Partneriaid MA			
	Cyn M (SD)	Ar ôl M (SD)	Cymorth BF ₁₀	Canran y newid o'r gwaelodlin	Cyn M (SD)	Ar ôl M (SD)	Cymorth BF ₁₀	Canran y newid o'r gwaelodlin
1. Mewn perthynas â'r plentyn, a fydech chi'n ystyried unrhyw weithdrefnau diogelu?	8.9 (1.5)	9.0 (1.4)	Dim tystiolaeth	1.01	8.8 (1.5)	9.2 (1.3)	Cymedrol	4.1
2. Mewn perthynas â'r oedolyn, a fydech chi'n ystyried unrhyw weithdrefnau diogelu?	8.5 (1.8)	8.7 (1.5)	Cryf	2.95	8.1 (1.4)	8.7 (1.5)	Cryf	8.0
3. Yn eich barn chi, pa mor debygol yw hi y ceir ail alwad i'r cyfeiriad hwn?	8.2 (1.6)	8.5 (1.4)	Eithriadol	3.80	8.1 (1.6)	8.5 (1.5)	Cryf	5.8
4. Pa mor 'agored i niwed' ydych chi'n ystyried yw'r plant yn y teulu hwn?	8.2 (1.5)	8.7 (1.4)	Eithriadol	5.34	8.8 (1.4)	9.1 (1.2)	Cymedrol	3.9
5. Yn eich barn chi, pa mor berthnasol yw hi i adael y digwyddiad presennol er mwyn mynd i'r achos o ddwyn o siop?	1.8 (1.5)	2.0 (2.1)	Anecdotaidd	13.14	2.1 (1.6)	1.9 (1.9)	Dim tystiolaeth	-8.6
6. A ydych yn credu bod hwn yn fater i'r heddlu?	9.0 (1.5)	9.0 (1.5)	Dim tystiolaeth	-0.44	8.3 (1.8)	8.8 (1.7)	Dim tystiolaeth	5.5
7. Yn eich barn chi, pa mor ddifrifol yw'r digwyddiad hwn?	7.9 (1.4)	8.3 (1.4)	Eithriadol	4.67	8.1 (1.5)	8.7 (1.4)	Cryf iawn	7.0

Sylwer Cafodd datganiadau eu sgorio ar y graddfeydd Likert canlynol: Datganiad 1 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *yn bendant*; Datganiad 2 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *yn bendant*; Datganiad 3 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *yn bendant*; Datganiad 4 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *agored iawn i niwed*; Datganiad 5 = (1) *aros yn y cyfeiriad* i (10) *gadael ar unwaith*; Datganiad 6 = (1) *ddim o gwbl* i (10) *yn bendant* a Datganiad 7 = (1) *ddim yn ddifrifol o gwbl* i (10) *eithriadol o ddifrifol*.

Mewn perthynas â'r plentyn, a fyddech chi'n ystyried unrhyw weithdrefnau diogelu?

Sgoriodd yr heddlu a phartneriaid MA yn uchel wrth ystyried gweithdrefnau diogelu plant cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Nid oedd tystiolaeth o gynnydd yn ystyriaeth yr heddlu o weithdrefnau diogelu plant ar ôl derbyn yr hyfforddiant. Cynyddodd ystyriaeth partneriaid MA o weithdrefnau diogelu plant o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gymedrol), gyda chynnydd o 4% o'r gwaelodlin (gweler tabl 7). Nid oedd tystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd yr heddlu a phartneriaid MA yn newid yn ôl rhyw, ardal heddlu neu rôl swydd. Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ystyriaeth y weithdrefnau diogelu plant fesul rhyw, heddlu a sector swydd ar gyfer partneriaid MA. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 41 i 57.

Mewn perthynas â'r oedolyn, a fyddech chi'n ystyried unrhyw weithdrefnau diogelu?

Cynyddodd ystyriaeth yr heddlu a phartneriaid MA o weithdrefnau diogelu oedolion o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gref), gyda chynnydd o 3% ac 8% o'r gwaelodlin, yn y drefn honno (gweler tabl 7).

Gweithdrefnau diogelu oedolion yn ôl demograffeg

Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ystyriaeth partneriaid MA o weithdrefnau diogelu oedolion yn ôl rhyw, ardal heddlu neu sector swydd, cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ystyriaeth yr heddlu o weithdrefnau diogelu oedolion yn ôl ardal heddlu neu sector swydd. At hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd yr heddlu neu partneriaid MA o wahanol ardaloedd heddlu a rolau swyddi/sector wedi newid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 41 i 50.

Rhyw

Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu benywaidd yn fwy tebygol o ystyried gweithdrefnau diogelu oedolion na heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gref). Nid oedd tystiolaeth am wahaniaeth yn y graddau y newidodd heddlu gwrywaidd a benywaidd a phartneriaid MA o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. At hynny, roedd yr heddlu benywaidd yn fwy tebygol o ystyried gweithdrefnau diogelu oedolion nag yr oedd heddlu gwrywaidd ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol). Roedd y gwahaniaeth hwn yn parhau ar ôl rheoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gallai fod y rhywiau wedi dangos ymatebion amrywiol i'r hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 43 i 46.

Yn eich barn chi, pa mor debygol yw hi y ceir ail alwad i'r cyfeiriad hwn?

Roedd canfyddiad yr heddlu o ba mor debygol oedd ail alwad yn y cyfeiriad yn cynyddu o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 4% o'r gwaelodlin (gweler tabl 7). Lleihaodd ganfyddiad partneriaid MA o ran pa mor debygol oedd cael ail alwad o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gref), gyda chynnydd o 6% o'r gwaelodlin (gweler tabl 7).

Ail alwad yn ôl demograffeg

Nid oedd unrhyw wahaniaethau yng nghanfyddiad partneriaid MA o ba mor debygol oedd ail alwad yn ôl rhyw neu ardal heddlu, cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. At hynny, nid oedd dystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd yr heddlu a phartneriaid MA yn newid yn ôl rhyw. Nid oedd ychwaith dystiolaeth o wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd partneriaid MA yn newid yn ôl ardal heddlu a sector swydd. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 43 i 48.

Rhyw

Cyn yr hyfforddiant, nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rhyw ar gyfer yr heddlu, ond ar ôl yr hyfforddiant, dywedodd fwy o heddlu benywaidd ei bod yn fwy tebygol y byddai ail alwad yn y cyfeiriad na'r hyn a wnaeth heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gymedrol). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 43 i 45.

Ardal heddlu

Cyn yr hyfforddiant, roedd gwahaniaeth rhwng ardaloedd yr heddlu o ran canfyddiad o ba mor debygol oedd ail alwad (tystiolaeth gref iawn). Roedd Heddlu Gwent o'r farn bod y digwyddiad yn llawer mwy tebygol o fod yn ail alwad na Dyfed Powys (tystiolaeth eithriadol), Gogledd Cymru (tystiolaeth gymedrol) a Heddlu De Cymru (tystiolaeth gymedrol); i gael rhagor o fanylion technegol am y canlyniadau, gweler atodiad 2, tabl 51. Roedd y newid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yn amrywio ar draws ardaloedd yr heddlu (tystiolaeth gymedrol; gweler atodiad 2, tabl 52). Yn benodol, cafwyd cynnydd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant ar gyfer heddlu Dyfed Powys (tystiolaeth eithriadol) a Gogledd Cymru (tystiolaeth gref), ond nid ar gyfer heddlu Gwent na De Cymru (gweler atodiad 2, tabl 53). Ar ôl yr hyfforddiant, nid oedd gwahaniaeth rhwng ardaloedd yr heddlu. Ar ôl rheoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant nid oedd unrhyw dystiolaeth dros wahaniaeth o ran y canfyddiad o ba mor debygol oedd y byddai ail alwad ar ôl yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 47 i 49.

Rôl swydd

Cyn yr hyfforddiant, roedd gwahaniaeth rhwng y rolau swyddi o ran canfyddiad yr heddlu o ba mor debygol oedd ail alwad (tystiolaeth eithriadol). Roedd cwnstabiailid yr heddlu yn fwy tebygol o ganfod y bydd ail alwad yn y cyfeiriad na swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (tystiolaeth eithriadol) a rhingylliaid yr heddlu (tystiolaeth gymedrol); i gael rhagor o fanylion technegol am y canlyniadau, gweler atodiad 2, tabl 54. Roedd y graddau yr oedd sgorau'r heddlu yn cynyddu o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yn amrywio ar gyfer y gwahanol swyddi (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 55). Roedd gwahaniaethau rhwng y cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (tystiolaeth eithriadol) a rhingylliaid yr heddlu (tystiolaeth gref), ond nid ar gyfer gweddill y rolau swydd; i gael rhagor o fanylion technegol am y canlyniadau, gweler atodiad 2, tabl 56. Nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth yn y graddau yr oedd partneriaid MA o fewn y gwahanol sectorau swyddi yn newid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. Ar ôl yr hyfforddiant, doedd dim gwahaniaeth yn ôl rôl swyddi i'r heddlu, ond roedd gwahaniaeth ar ôl yr hyfforddiant i bartneriaid MA (tystiolaeth gref). Fodd bynnag, roedd y gwahaniaethau hyn rhwng y sector swydd amrywiol (h.y. y rhai a oedd yn anodd eu grwpio i'r sectorau swyddi eraill oherwydd meintiau sampl bach) a gweddill y sectorau swyddi. Am ragor o fanylion technegol am y canlyniadau gweler hefyd atodiad 2, tablau 49 a 50.

Pa mor 'agored i niwed' ydych chi'n ystyried yw'r plant yn y teulu hwn?

Cynyddodd ganfyddiad yr heddlu o ba mor agored i niwed oedd y plant yn y teulu o cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 5% o'r gwaelodlin (gweler tabl 7). Cynyddodd ystyriaeth partneriaid MA o ba mor agored i niwed oedd y plant o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gymedrol), gyda chynnydd o 4% o'r gwaelodlin (gweler tabl 7).


Pa mor agored i niwed oedd y plant yn ôl demograffeg

Nid oedd unrhyw wahaniaethau yng nghanfyddiad partneriaid MA o ba mor agored i niwed oedd y plant yn ôl rhyw, ardal heddlu a sector swydd cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth yng nghanfyddiad yr heddlu o ba mor agored i niwed oedd pobl ifanc yn ôl ardal heddlu a rôl swydd cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. At hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth am wahaniaeth yn y graddau y newidiodd partneriaid yr heddlu a phartneriaid MA o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant ar sail rhyw, ardal heddlu neu rôl/sector swydd. Am ragor o fanylion technegol am y canlyniadau gweler hefyd atodiad 2, tablau 43 i 50.

Rhyw

Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu benywaidd yn ystyried bod y plant yn fwy agored i niwed nag yr oedd yr heddlu gwrywaidd (tystiolaeth eithriadol). Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu benywaidd yn dal i ystyried bod y plant yn fwy agored i niwed nag yr oedd yr heddlu gwrywaidd (tystiolaeth eithriadol). Wrth reoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant, roedd y gwahaniaethau ar ôl yr hyfforddiant yn parhau (tystiolaeth eithriadol, gweler ffigur 9). Am ragor o fanylion technegol am y canlyniadau gweler hefyd atodiad 2, tablau 43 a 45.

Ffigur 9. Pa mor agored i niwed yw'r plant cyn ac ar ôl yr hyfforddiant yn ôl rhyw (heddlu)



Sylwer. Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfyngau hygredded o 95%. Y canfyddiad o fod yn agored i niwed wedi'i sgorio ar raddfa o (1) heb fod yn agored i niwed o gwbl o (10) hynod o agored i niwed.


A ydych yn credu bod hwn yn fater i'r heddlu?

Roedd yr heddlu a phartneriaid MA yn canfod bod y digwyddiad yn y senario yn fater i'r heddlu. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth rhwng cyn ac ar ôl yr hyfforddiant, fodd bynnag, sgoriodd yr heddlu a'r partneriaid yn uchel ar y cwestiwn hwn cyn yr hyfforddiant (gweler tabl 7).

Yn eich barn chi, pa mor ddifrifol yw'r digwyddiad hwn?

Sylwer* Sgoriodd yr heddlu ddifrifoldeb y digwyddiad fel cymedrol cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Roedd y sgorau hyn o fewn ffiniau'r hyn a fyddai'n cael ei weithredu fel "ymateb ar unwaith", gweler ffigur 10.

Ffigur 10. Ystod o ddifrifoldeb ar gyfer ymateb gweithredol.



Roedd cynnydd yng nghwanfyddiad yr heddlu rhwng cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 7% o'r gwaelodlin (gweler tabl 7). Cafwyd hefyd gynnydd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yng nghwanfyddiad partneriaid MA o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad (tystiolaeth gref), gyda chynnydd o 5% o'r gwaelodlin (gweler tabl 7).


Difrifoldeb y digwyddiad yn ôl demograffeg

Nid oedd unrhyw wahaniaethau yng nghwanfyddiad partneriaid MA o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad yn ôl rhyw, ardal heddlu a sector swydd cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth yng nghwanfyddiad yr heddlu o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad yn ôl ardal heddlu a sector swydd cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. At hynny, nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth yn y graddau yr oedd yr heddlu a phartneriaid MA wedi newid o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yn ôl rhyw, ardal heddlu a rôl swydd/sector. Am ragor o fanylion technegol am y canlyniadau gweler hefyd atodiad 2, tablau 43 i 50.

Rhyw

Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu benywaidd o'r farn bod i digwyddiad yn fwy difrifol nag yr oedd yr heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gref). Yn yr un modd, roedd yr heddlu benywaidd o'r farn bod y digwyddiad yn fwy difrifol na'r heddlu gwrywaidd ar ôl derbyn yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol, gweler ffigur 11). Nid oedd unrhyw wahaniaeth ar ôl yr hyfforddiant ar ôl rheoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu nad oedd y gwahaniaethau rhwng yr heddlu gwrywaidd a'r heddlu benywaidd yn deillio o'r hyfforddiant, ond yn hytrach yn ganlyniad y gwahaniaethau oedd yn bodoli cyn yr hyfforddiant. Nid oedd unrhyw wahaniaeth yn ôl rhyw ar gyfer canfyddiadau partneriaid MA o ba mor ddifrifol oedd y digwyddiad. Am ragor o fanylion technegol am y canlyniadau gweler hefyd atodiad 2, tablau 43 a 45.

Ffigur 11. Difrifoldeb y digwyddiad rhwng cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant yn ôl rhyw (heddlu)



Sylwer Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfngau hygrededd o 95%. Canfyddiad o ddifrifoldeb wedi'i sgorio ar raddfa o (1) ddim yn ddifrifol o gwbl i (10) yn eithriadol o ddifrifol.

3.4. Mesurau o ran newid agwedd a sicrwydd agwedd rhwng cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant

Roedd yr holiadur cyn ac ar ôl yr hyfforddiant yn archwilio newid uniongyrchol mewn agwedd o ran nifer o negeseuon allweddol yn ymwneud ag ACEs a thrawma. Yn ogystal, mesurodd yr arolygon pa mor sicr oedd rhai o'r heddlu a phartneriaid MA ynghylch y negeseuon allweddol (gweler tabl 8). Sgoriwyd agweddau ar raddfa Likert 7 pwynt yn amrywio o (1) *o blaid* i (7) *yn erbyn*. Sgoriwyd sicrwydd agwedd ar raddfa Likert 7 pwynt yn amrywio o (1) *ddim yn sicr o gwbl* i (7) *sicr iawn*. Caiff canfyddiadau pob neges hyfforddiant eu hamlinellu a'u cyflwyno ar wahân isod. Gweler Atodiad I, tablau 20 i 25 am y dadansoddiad demograffeg a'r gwyriadau safonol..

Tabl 8. Agwedd gyffredinol a newid mewn sicrwydd agwedd rhwng cyn ac ar ôl yr hyfforddiant (heddlu a phartneriaid MA)

	Heddlu				Partneriaid MA			
	Cyn M (SD)	Ar ôl M (SD)	Cymorth BF ₁₀	Canran y newid o'r gwaelodlin	Cyn M (SD)	Ar ôl M (SD)	Cymorth BF ₁₀	Canran y newid o'r gwaelodlin
Neges 1: Mae'n bwysig i swyddogion yr heddlu ddeall beth yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod	6.0 (1.4)	6.4 (1.2)	Eithriadol	7.5	6.6 (1.0)	6.7 (1.2)	Dim tystiolaeth	.08
Pa mor sicr ydych chi o'r farn hon?	5.3 (1.6)	6.4 (1.0)	Eithriadol	29.9	6.1 (1.37)	6.5 (1.1)	Cymedrol	6.4
Neges 2: Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gefnogi unigolion sy'n profi trawma	5.7 (1.5)	6.4 (1.2)	Eithriadol	11.3	6.5 (1.07)	6.7 (1.1)	Dim tystiolaeth	3.7
Pa mor sicr ydych chi o'r farn hon?	5.4 (1.5)	6.3 (0.9)	Eithriadol	18.3	6.1 (1.26)	6.6 (0.9)	Eithriadol	8.5
Neges 3: Dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i atal a lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod (ACEs) a thrawma cysylltiedig	6.2 (1.3)	6.6 (1.0)	Eithriadol	5.9	6.7 (1.03)	6.8 (1.1)	Dim tystiolaeth	1.1
Pa mor sicr ydych chi o'r farn hon?	5.8 (1.4)	6.5 (0.9)	Eithriadol	12.5	6.5 (0.94)	6.7 (0.8)	Dim tystiolaeth	3.5


Sylwer Mesurwyd agweddau tuag at negeseuon 1 i 3 ar raddfa Likert yn amrywio o (1) yn erbyn i (7) o blaid. Mesurwyd sicrwydd agwedd ar raddfa Likert yn amrywio o (1) ddim yn sicr o gwbl i (7) sicr iawn

Neges 1: "Mae'n bwysig i swyddogion yr heddlu ddeall beth yw ACEs"

Agweddau. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o blaid y neges hyfforddiant. Newidiwyd agwedd yr heddlu tuag at y neges hyfforddiant o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gan awgrymu bod yr heddlu yn fwy o blaid y neges yn syth ar ôl derbyn yr hyfforddiant gyda chynnydd o 8% o'r gwaelodlin (gweler tabl 8). Nid oedd dystiolaeth o newid yn agwedd partneriaid MA yn dilyn yr hyfforddiant (gweler ffigur 12).

Sicrwydd agwedd. Cyn yr hyfforddiant roedd yr heddlu yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant ac roedd partneriaid MA yn sicr iawn eu barn. Cynyddodd yr heddlu o fod yn gymedrol sicr cyn yr hyfforddiant i fod yn sicr iawn ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gan awgrymu bod yr heddlu hefyd yn fwy sicr eu barn yn syth ar ôl derbyn yr hyfforddiant, gyda chynnydd o 30% o'r gwaelodlin (gweler tabl 8). Cynyddodd partneriaid MA hefyd mewn sicrwydd agwedd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gymedrol) gyda chynnydd o 6% o'r llinell sylfaen (gweler tabl 8). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 58 a 59.

Ffigur 12. Agwedd a newid sicrwydd agwedd cyn ac ar ôl yr hyfforddiant. Mae'n bwysig i swyddogion yr heddlu ddeall beth yw ACEs



Sylwer Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfyngau hygrededd o 95%. Sgoriwyd agwedd ar raddfa o (1) yn erbyn i (7) o blaid. Sgoriwyd sicrwydd agwedd ar raddfa o (1) ddim yn sicr o gwbl i (7) sicr iawn.

3.4.1 Gwahaniaethau mewn agwedd a sicrwydd agwedd yn ôl demograffeg

Nid oedd unrhyw dystiolaeth am wahaniaeth yn y graddau y newidiodd yr heddlu a phartneriaid MA o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant ar sail rhyw, ardal heddlu, rôl swydd/sector o ran agwedd a sicrwydd agwedd.

Rhyw

Agwedd. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu gwrywaidd a benywaidd a phartneriaid MA o blaid neges hyfforddiant I. Nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth yn ôl rhyw ar gyfer partneriaid MA. Fodd bynnag, roedd heddlu benywaidd fwy o blaid y neges na heddlu gwrywaidd, a hynny cyn ac ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gymedrol a chref, yn y drefn honno). Wrth reoli ar gyfer y gwahaniaethau cyn yr hyfforddiant, nid oedd dystiolaeth o wahaniaeth ar ôl yr hyfforddiant. Hynny yw, nid oedd y gwahaniaethau rhwng y rhywiau ar ôl yr hyfforddiant o ganlyniad i'r hyfforddiant, ond yn hytrach yn ganlyniad y gwahaniaethau oedd yn bodoli cyn yr hyfforddiant.

Sicrwydd agwedd. Cyn yr hyfforddiant roedd yr heddlu gwrywaidd a benywaidd yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant ac roedd partneriaid MA yn sicr iawn eu barn. Nid oedd dystiolaeth o wahaniaeth yn ôl rhyw.

Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu gwrywaidd a benywaidd yn sicr iawn eu barn am y neges, ond roedd heddlu benywaidd yn fwy sicr na heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gymedrol). Nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth yn ôl rhyw ar gyfer partneriaid MA. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 60 a 63.

Ardal heddlu

Agwedd. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid o'r holl ardaloedd heddlu o blaid neges hyfforddiant I. Nid oedd unrhyw dystiolaeth am wahaniaeth yn ôl ardal heddlu ar gyfer partneriaid MA. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd heddlu yn agwedd yr heddlu tuag at y neges (tystiolaeth gref). Roedd heddlu Dyfed Powys (tystiolaeth gref), Gwent (tystiolaeth gymedrol) a Gogledd Cymru (tystiolaeth eithriadol) fwy o blaid y neges hyfforddiant na Heddlu De Cymru (gweler atodiad 2, tabl 68). Ar ôl yr hyfforddiant, nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth rhwng ardaloedd yr heddlu a phartneriaid MA, gan awgrymu bod gan bob ardal heddlu agwedd debyg tuag at y neges.

Sicrwydd agwedd. Roedd heddlu o bob ardal yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant. Nid oedd dystiolaeth ar gyfer gwahaniaeth yn ôl ardal heddlu. Roedd partneriaid MA yn gweithio o fewn Heddlu Dyfed Powys, Gwent a De Cymru i gyd yn sicr iawn eu barn am neges I, tra bod y rheiny oedd yn gweithio yng Ngogledd Cymru yn gymedrol sicr eu barn. Roedd yr heddlu a phartneriaid MA o bob ardal heddlu/maes gwaith yn sicr iawn eu barn am y neges hyfforddiant; nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 64 a 65.

Rôl swydd/sector

Agwedd. Cyn ac ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o'r gwahanol rolau a sectorau o blaid neges hyfforddiant I. Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rôl/sector.


Sicrwydd agwedd. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu o'r gwahanol rolau yn gymedrol i sicr iawn eu barn am neges I ac roedd partneriaid MA o'r gwahanol sectorau i gyd yn sicr iawn. Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o'r gwahanol rolau/sectorau i gyd yn sicr iawn eu barn am y neges hyfforddiant, nid oedd gwahaniaethau yn ôl rôl/sector. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 66 a 67.

Neges 2: "Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gefnogi unigolion sy'n profi trawma"

Agwedd. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o blaid y neges hyfforddiant. Newidiodd agwedd yr heddlu tuag at y neges hyfforddiant o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gan awgrymu bod yr heddlu yn fwy o blaid y neges yn syth ar ôl derbyn yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 11% o'r gwaelodlin (gweler tabl 8). Nid oedd dystiolaeth o newid yn agwedd partneriaid MA yn dilyn yr hyfforddiant (gweler ffigur 13).

Attitude certainty. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu'n gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant ac roedd partneriaid MA yn sicr iawn eu barn. Cynyddodd yr heddlu o fod yn gymedrol sicr o'u barn cyn yr hyfforddiant i fod yn sicr iawn ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gyda chynnydd o 18% o'r gwaelodlin (gweler tabl 8 a ffigur 13). Cynyddodd partneriaid MA hefyd mewn sicrwydd agwedd o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol), gyda 4% o gynnydd o'r gwaelodlin (gweler tabl 8 a ffigur 13). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 58 a 59.

Ffigur 13. Mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gefnogi unigolion sy'n profi trawma



Sylwer Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfyngau hygredded o 95%. Sgoriwyd agwedd ar raddfa o (1) yn erbyn i (7) o blaid. Sgoriwyd sicrwydd agwedd ar raddfa o (1) ddim yn sicr o gwbl i (7) sicr iawn

3.4.2 Gwahaniaethau mewn agwedd a sicrwydd agwedd yn ôl demograffeg

Nid oedd unrhyw dystiolaeth am wahaniaeth yn y graddau y newidiodd yr heddlu a phartneriaid MA yn ôl sail rhyw, ardal heddlu, a rôl swydd/sector o ran agwedd a sicrwydd agwedd.

Rhyw

Agwedd. Cyn yr hyfforddiant roedd heddlu gwrywaidd a benywaidd a phartneriaid MA o blaid neges hyfforddiant 2, nid oedd gwahaniaeth rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, roedd heddlu benywaidd yn fwy o blaid y neges na heddlu gwrywaidd ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth gref). Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rhyw ar gyfer partneriaid MA ar ôl yr hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 60 i 63.

Sicrwydd agwedd. Cyn yr hyfforddiant roedd yr heddlu gwrywaidd a benywaidd yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant ac roedd partneriaid MA yn sicr iawn eu barn. Nid oedd dystiolaeth ar gyfer gwahaniaeth yn ôl rhyw. Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu gwrywaidd a benywaidd a'r partneriaid sicr iawn eu barn, ond roedd yr heddlu benywaidd yn fwy sicr eu barn na'r rhai gwrywaidd (tystiolaeth gref). Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rhyw ar gyfer sicrwydd partneriaid MA. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 60 i 63.

Ardal heddlu

Agwedd. Roedd yr heddlu a phartneriaid MA o bob ardal heddlu o blaid neges hyfforddiant 2. Nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth rhwng ardaloedd heddlu cyn ac ar ôl yr hyfforddiant; gan awgrymu bod gan bob ardal heddlu agwedd debyg tuag at y negeseuon hyfforddiant.

Sicrwydd agwedd. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu o bob ardal heddlu yn gymedrol sicr eu barn; nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth rhwng ardaloedd heddlu. Roedd partneriaid MA yn gweithio o fewn Heddlu Gwent a De Cymru yn sicr iawn eu barn am neges 2, tra bod y rheiny oedd yn gweithio yn Nyfed Powys a Gogledd Cymru yn gymedrol sicr eu barn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol o ran lefel y sicrwydd rhwng yr ardaloedd heddlu hynny. Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o bob ardal heddlu yn sicr iawn eu barn am y neges hyfforddiant; nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth yn ôl ardal heddlu. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 64 a 65.

Rôl swydd/sector

Agwedd. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr holl heddlu a phartneriaid o'r gwahanol rolau swyddi/sectorau o blaid y neges hyfforddiant. Nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth yn ôl rôl swydd neu sector gan yr heddlu a phartneriaid MA cyn ac ar ôl yr hyfforddiant.


Sicrwydd agwedd. Roedd heddlu o bob rôl yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant ac roedd partneriaid MA ar gyfer pob sector swydd yn sicr iawn. Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rôl swydd/sector ar gyfer yr heddlu neu partneriaid MA. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 66 a 67.

Neges 3: "Dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i atal a lliniaru ACEs a thrawma cysylltiedig"

Agwedd. Cyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o blaid y neges hyfforddiant. Newidiodd agwedd yr heddlu tuag at y neges hyfforddiant o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant, gan awgrymu bod yr heddlu yn fwy o blaid y neges yn syth ar ôl derbyn yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol) gyda chynnydd o 6% o'r gwaelodlin (gweler tabl 8). Nid oedd dystiolaeth o newid yn agwedd partneriaid MA yn dilyn yr hyfforddiant (gweler ffigur 14).

Sicrwydd agwedd. Cyn yr hyfforddiant roedd yr heddlu yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant ac roedd partneriaid MA yn sicr iawn eu barn. Cynyddodd yr heddlu o fod yn gymedrol sicr eu barn cyn yr hyfforddiant i fod yn sicr iawn ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol) 13% o'r gwaelodlin (gweler tabl 8). Nid oedd dystiolaeth o newid yn sicrwydd agwedd partneriaid MA yn dilyn yr hyfforddiant (gweler ffigur 14). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 58 a 59.

Ffigur 14. Dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i atal a lliniaru ACEs a thrawma cysylltiedig



Sylwer. Mae bariau gwall yn cynrychioli cyfngau hygrededd o 95%. Sgoriwyd agwedd ar raddfa o (1) yn erbyn i (7) o blaid. Sgoriwyd sicrwydd agwedd ar raddfa o (1) ddim yn sicr o gwbl i (7) sicr iawn.

Yn dilyn yr hyfforddiant, nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth yn y graddau yr oedd yr heddlu a phartneriaid MA wedi newid ar draws rhyw, ardal heddlu, rôl/sector o ran agwedd a sicrwydd agwedd.

Rhyw

Agwedd. Cyn ac ar ôl yr hyfforddiant roedd heddlu gwrywaidd a benywaidd a phartneriaid o blaid neges hyfforddiant 3; nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth rhwng y rhywiau i'r heddlu a phartneriaid MA. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 60 a 63.

Sicrwydd agwedd. Cyn yr hyfforddiant, roedd heddlu gwrywaidd a benywaidd yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant a phartneriaid MA yn sicr iawn; nid oedd dystiolaeth am wahaniaeth rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, ar ôl yr hyfforddiant roedd heddlu benywaidd yn fwy sicr eu barn am y neges hyfforddiant nag yr oedd heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gymedrol). Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rhyw ar gyfer partneriaid MA. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 60 a 63.

Ardal heddlu

Agwedd. Cyn ac ar ôl yr hyfforddiant roedd yr heddlu a phartneriaid o bob ardal heddlu o blaid neges hyfforddiant 3; nid oedd tystiolaeth am wahaniaeth yn ôl ardal heddlu.

Sicrwydd agwedd. Cyn yr hyfforddiant roedd yr heddlu gwrywaidd a benywaidd yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant ac roedd partneriaid MA yn sicr iawn eu barn. Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid o bob ardal heddlu/gwaith yn sicr iawn eu barn am y neges hyfforddiant. Nid oedd tystiolaeth am wahaniaeth, sy'n awgrymu bod gan bob ardal heddlu agwedd debyg (h.y. o blaid) tuag at y neges hyfforddiant. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 64 a 65.

Rôl swydd/sector

Agwedd. Cyn ac ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu a phartneriaid MA o bob rôl swydd a sector o blaid y neges hyfforddiant; nid oedd tystiolaeth am wahaniaeth yn ôl rôl swydd neu sector.

Sicrwydd agwedd. Roedd yr heddlu o bob rôl yn gymedrol sicr eu barn am y neges hyfforddiant, heblaw am ditectif gwnstabiliaid a rhingylliaid yr heddlu a oedd yn sicr iawn eu barn. Roedd partneriaid MA o bob rôl/sector yn sicr iawn eu barn am y neges. Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rôl swydd/sector ar gyfer yr heddlu a phartneriaid MA. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 66 a 67.

3.5. Hyder a chymhwysedd i ymateb i bobl sy'n agored i niwed ar ôl yr hyfforddiant

Ar ôl yr hyfforddiant, gofynnwyd i'r heddlu a phartneriaid MA sgorio i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod y pecyn hyfforddiant wedi eu harfogi i ymateb yn hyderus a chymwys i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE, ar raddfa o (1) dim o gwbl i (5) yn fawr iawn. Ar y cyfan, sgoriodd yr heddlu a phartneriaid MA fod y pecyn hyfforddiant wedi eu galluogi i ymateb yn hyderus ac yn gymwys i bobl sy'n agored i niwed drwy ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE (gweler tabl 9).

Tabl 9. Sgorau cymedrig ar gyfer hyder a chymhwysedd i ymateb i bobl sy'n agored i niwed ar ôl yr hyfforddiant


	Heddlu			Partneriaid MA		
	N	Cymedr	SD	N	Cymedr	SD
I ba raddau y mae'r pecyn hyfforddiant wedi eich galluogi i:						
Ymateb yn hyderus i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE	722	4.4	0.8	133	4.4	0.8
Ymateb yn gymwys i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE	729	4.4	0.7	129	4.4	0.8

Hyder a Chymhwysedd yn ôl Demograffeg

Rhyw

Dywedodd yr heddlu benywaidd fod yr hyfforddiant wedi galluogi eu hyder a'u cymhwysedd yn fwy na'r heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gymedrol, gweler ffigur 15). Nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng partneriaid MA gwrywaidd a benywaidd (gweler atodiad 2, tablau 69 a 70). Gweler atodiad 1, tablau 26 a 27 am y dadansoddiad demograffeg a'r gwyrddau safonol.

Ffigur 15. Lefelau hyder a chymhwysedd ar ôl yr hyfforddiant yn ôl rhyw



Ardal heddlu

Nid oedd unrhyw dystiolaeth am wahaniaeth yn ôl ardal heddlu na rôl swydd ar gyfer yr heddlu, ond roedd gwahaniaeth rhwng ardaloedd heddlu ar gyfer partneriaid MA (tystiolaeth gymedrol; gweler atodiad 2, tablau 69 a 70).

Yn benodol, teimlai partneriaid MA a oedd yn gweithio o fewn Dyfed Powys a Gwent y byddai'r pecyn hyfforddiant yn eu galluogi i ymateb yn gymwys i bobl sy'n agored i niwed yn fwy na phartneriaid MA o Ogledd Cymru (tystiolaeth gymedrol; gweler atodiad 2, tabl 71).

Rôl swydd/sector

Nid oedd gwahaniaeth rhwng rôl swydd/sector o ran faint roedd yr hyfforddiant wedi galluogi'r heddlu a'r partneriaid i fod yn hyderus ac yn gymwys (gweler atodiad 2, tablau 69 a 70).

3.6. Dealltwriaeth ar ôl yr hyfforddiant o ddull wedi'i lywio gan ACE i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed

Gofynnwyd i'r heddlu a phartneriaid MA i ymateb i nifer o ddatganiadau am ACEs a gofynnwyd iddynt sgorio eu cytundeb i bob un o'r datganiadau. Cafodd y datganiadau hyn eu datblygu i nodi a oedd nifer o'r negeseuon allweddol am ddull wedi'i lywio gan ACE i bobl sy'n agored i niwed wedi'u derbyn ar ôl yr hyfforddiant. Gweler atodiad 1, tablau 28 a 29 am gymedrau'r dadansoddiad demograffeg..

Tabl 10. Sgorau ymateb cymedrig i ddatganiadau wedi'u llywio gan ACE

Datganiadau Hyfforddiant	Heddlu	Amlasiantaeth
	Ar ôl M (SD)	Ar ôl M (SD)
1. Dylid blaenoriaethu achosion yn seiliedig ar y nifer o ACEs a sgoriwyd ar restr wirio	3.5 (1.0)	3.4 (1.1)
2. Nifer yr ACEs sy'n bresennol yw'r dangosydd gorau ar gyfer risg yn y dyfodol	3.7 (0.9)	3.7 (1.0)
3. Ni ellir gwrthbwysu nifer yr ACEs gan ffactorau cydnerthedd	3.3 (0.9)	2.0 (1.1)
4. Dylid ystyried bod yn agored i niwed ym mhob rhan o blismona a throsedd	4.2 (0.7)	4.4 (0.7)
5. Cyfrifoldeb gweithwyr cymdeithasol yn bennaf yw ymdrin ag ACEs	2.7 (1.1)	1.9 (1.0)
6. Nid yw'n werth chweil newid y ffordd yr ydym yn gweithio gydag unigolion sydd â 4 neu fwy o ACEs	2.2 (1.0)	1.7 (1.1)
7. Mae'n bosibl newid cwrs bywyd person, waeth bynnag yw nifer yr ACEs	4.2 (0.8)	4.5 (0.6)

Sylwer. Cafodd yr ymatebion eu sgorio ar hyd graddfa a oedd yn amrywio o 1 (anghytuno'n gryf) i 5 (cytuno'r gryf). Mae datganiadau 1, 2, 3, 5 a 6 yn ddatganiadau wedi'u geirio'n negyddol ac mae sgorau is yn arwydd o ymatebion wedi'u llywio gan ACE.

Roedd yr heddlu a phartneriaid MA yn cytuno'n gryf â datganiad 4 “dylai bod yn agored i niwed gael ei ystyried ym mhob rhan o blismona” a datganiad 7 “mae'n bosibl newid cwrs bywyd person, waeth bynnag yw nifer yr ACEs” (gweler tabl 10). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod agweddau'r heddlu a phartneriaid yn cyd-fynd â'r dull wedi'i lywio gan ACE a argymhellwyd yn yr hyfforddiant.

Nod yr hyfforddiant oedd cyflwyno'r neges er y gall asesu ACEs fod yn arf defnyddiol i helpu'r heddlu a phartneriaid MA i adnabod pobl agored i niwed a chynyddu ymyrraeth gynnar ac atal, mae perygl o ran camddefnyddio offer gwirio ACE fel sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau proffesiynol neu fel trothwy ar gyfer ymyrraeth. Datblygwyd nifer o ddatganiadau i archwilio'r posibilrwydd o gamddefnyddio ACEs (datganiadau 1 a 2; gweler tabl 12). Mae canlyniadau'r heddlu a phartneriaid yn awgrymu bod peth ansicrwydd o ran defnyddio a chamddefnyddio ACEs (h.y. ymateb niwtral).

Yn ogystal, gofynnwyd i gyfranogwyr sgorio i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau a oedd yn groes i dull wedi'i lywio gan ACE a thrawma o fynd i'r afael a phobl sy'n agored i niwed (datganiadau 3, 5 a 6; gweler tabl 12). Nid oedd yr heddlu yn cytuno nac yn anghytuno â datganiad 5: *"cyfrifoldeb gweithwyr cymdeithasol yn bennaf yw ymdrin ag ACEs"*. Roedd sgorau cymedrig yr heddlu a phartneriaid MA yn dangos bod peth ansicrwydd ynglŷn â'r datganiad hwn (h.y. ymateb niwtral), ond yn gyffredinol roedd llai o gytundeb gyda datganiad 6, sy'n dangos bod barn yr heddlu a phartneriaid yn cyd-fynd â dull wedi'i lywio gan ACE a thrawma.

3.6.1 Dull wedi'i lywio gan ACE i weithio gyda phobl agored i niwed yn ôl demograffeg

Rhyw

Roedd gwahaniaeth rhwng y rhywiau, gyda'r heddlu benywaidd yn dangos mwy o gydnabyddiaeth o'r dull wedi'i lywio gan ACE tuag at weithio gyda phobl sy'n agored i niwed na dynion. Roedd benywod yn cytuno'n fwy â datganiad 4; *"dylid ystyried bod yn agored i niwed ym mhob rhan o blismona a throsedd"* nag yr oedd heddlu gwrywaidd (tystiolaeth eithriadol), ac roeddent yn cytuno llai â datganiad 5; *"cyfrifoldeb gweithwyr cymdeithasol yn bennaf yw ymdrin ag ACEs"* nag yr oedd heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gymedrol). At hynny, roedd partneriaid MA benywaidd yn cytuno llai â datganiad 1; *"dylai achosion gael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar nifer yr ACEs a sgoriwyd ar restr wirio"* na phartneriaid MA gwrywaidd (tystiolaeth gref) ac yn cytuno mwy â datganiad 3; *"ni ellir gwrthbwysu nifer yr ACEs gan ffactorau cydnerthedd"* na heddlu gwrywaidd (tystiolaeth gymedrol). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 72 a 73.

Ardal heddlu

Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng ardaloedd heddlu o ran cydnabod datganiadau 1, 2, 5 a 6 (tystiolaeth eithriadol) wedi'u llywio gan ACE. Roedd yr heddlu yng Ngwent yn cytuno'n fwy â datganiad 1; *"dylid blaenoriaethu achosion yn seiliedig ar nifer yr ACEs a sgoriwyd ar restr wirio"* nag yr oedd yr heddlu yng Ngogledd Cymru (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 74). Yn ogystal, roedd Heddlu Gwent a De Cymru yn cytuno mwy â datganiad 2; *"nifer yr ACEs sy'n bresennol yw'r dangosydd gorau ar gyfer risg yn y dyfodol"*, na Heddlu Gogledd Cymru (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 75). Cytunodd Heddlu Gwent a De Cymru â datganiad 5; *"cyfrifoldeb gweithwyr cymdeithasol yw delio ag ACEs yn bennaf"* mwy nag y gwnaeth heddlu Dyfed Powys a Gogledd Cymru (tystiolaeth gref i eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 76). Roedd Heddlu De Cymru yn cytuno mwy gyda datganiad 6; *"nid yw'n werth newid y ffordd rydym yn gweithio gydag unigolion sydd â 4 neu fwy o ACEs"* na'r tri heddlu arall (tystiolaeth gymedrol i eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 78). Ymhellach, roedd gwahaniaeth rhwng ardaloedd heddlu ar gyfer partneriaid MA ar ddatganiadau 1 (tystiolaeth gref iawn) a 5 (tystiolaeth gref). Fel yn sampl yr heddlu, roedd partneriaid MA yng Ngwent yn cytuno mwy â datganiad 1 na'r heddlu yn Nyfed Powys (tystiolaeth gymedrol) a Gogledd Cymru (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 79). Fel yn sampl yr heddlu, cytunodd partneriaid Gwent a De Cymru â datganiad 5 yn fwy na heddlu Dyfed Powys a Gogledd Cymru (tystiolaeth gymedrol i gref; gweler atodiad 2, tabl 80). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 72 i 80.

Rôl swydd/sector

Roedd gwahaniaeth rhwng rolau'r heddlu ar gyfer datganiad 3 (tystiolaeth gymedrol). Roedd cwnstabiiliaid yr heddlu yn cytuno llai â datganiad 3; *"ni ellir gwrthbwysu nifer yr ACEs gan ffactorau cydnerthedd"* na swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (tystiolaeth eithriadol) ac yn cytuno mwy na ditectif gwnstabiiliaid (tystiolaeth gref iawn). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tabl 81. Roedd gwahaniaeth rhwng rolau'r heddlu ar gyfer datganiad 5 (tystiolaeth eithriadol). Roedd cwnstabiiliaid yr heddlu yn cytuno mwy â datganiad 5 *"cyfrifoldeb gweithwyr cymdeithasol yn bennaf yw ymdrin ag ACEs"* na swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (tystiolaeth gref iawn) ac roedd cwnstabiiliaid yr heddlu yn cytuno mwy na ditectif gwnstabiiliaid (tystiolaeth gref iawn)

a staff yr heddlu (gan gynnwys cyfathrebu/danfon) (tystiolaeth gref). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, Tabl 82. Roedd gwahaniaeth rhwng sectorau swyddi partneriaid MA ar gyfer datganiad 4 (tystiolaeth gymedrol). Roedd partneriaid o'r sector iechyd a llesiant yn cytuno mwy na phartneriaid o'r gwasanaethau diogelu/gofal cymdeithasol a chymorth i deuluoedd (tystiolaeth gymedrol); gweler atodiad 2, tabl 83).

Oed a hyd gwasanaeth

Roedd perthynas negyddol sylweddol rhwng y canfyddiad mai rôl gweithwyr cymdeithasol yn bennaf yw gweithio gydag ACEs ac oedran a hyd yr amser yn y gwasanaeth (gweler tabl 11). Roedd perthynas gadarnhaol bwysig hefyd rhwng ansawdd yr hyfforddiant (sef hyd yr hyfforddiant), oedran a hyd yr amser yn y gwasanaeth.

Tabl 11. Cydberthynas Pearson Bayesaidd ar gyfer y berthynas rhwng oedran, hyd gwasanaeth a datganiad 5

		Oed	Hyd yr amser yn yr heddlu
Oed	Pearson's r	—	
	BF ₁₀	—	
Hyd yr amser yn yr heddlu	Pearson's r	0.8	—
	BF ₁₀	Eithriadol	—
Gweithwyr cymdeithasol ACEs	Pearson's r	-0.2	-0.2
	BF ₁₀	Eithriadol	Eithriadol

Sylwer . BF₁₀ = Ffactor Bayes ar gyfer damcaniaeth amgen.

3.7 Defnyddioldeb hyfforddiant ACE TIME i gynyddu gwybodaeth

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr feddwl am y pecyn hyfforddiant a sgorio pa mor ddefnyddiol yr oedd o ran hyrwyddo eu gwybodaeth am bob maes pwnc (gweler tabl 12). Yn gyffredinol, roedd ymatebion yr heddlu a phartneriaid ynghylch defnyddioldeb yr hyfforddiant ACE TIME i gyd o fewn yr ystod 'gweddol' i 'i raddau helaeth iawn', sy'n awgrymu bod yr heddlu a phartneriaid MA yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi datblygu eu gwybodaeth am bob maes pwnc. Gweler atodiad 1, tablau 30 a 31 am gymedrau'r dadansoddiad demograffeg.

Tabl 12. Defnyddioldeb hyfforddiant ACE TIME i gynyddu gwybodaeth

	Heddlu	MA
Pa mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant o ran cynyddu eich gwybodaeth am ...	Ar ôl M (SD)	Ar ôl M (SD)
1. Yr hyn yw ACEs	4.8 (0.6)	4.6 (0.9)
2. Effaith bosibl ACEs ar gwrs bywyd	4.7 (0.7)	4.6 (0.9)
3. Rôl cydnerthedd wrth liniaru effaith ACEs	4.5 (0.7)	4.5 (1.0)
4. Yr effaith y gall trawma ei gael ar ddatblygiad yr ymennydd	4.5 (0.7)	4.6 (0.9)
5. Manteision gweithio gyda phartneriaid i atal a lliniaru ACEs a thrawma cysylltiedig	4.6 (0.7)	4.6 (0.8)
6. Ystyried ACEs wrth ddeall achosion sylfaenol ymddygiad	4.6 (0.7)	4.6 (0.9)
7. Torri cylchoedd cam-drin rhwng cenedlaethau drwy ddulliau wedi'u llywio gan ACE	4.5 (0.7)	4.5 (0.9)

Sylwer. Cafodd yr ymatebion eu sgorio ar hyd graddfa a oedd yn amrywio o 1 (ddim o gwbl) i 5 (i raddau helaeth iawn).

3.7.1 Defnyddioldeb hyfforddiant i gynyddu gwybodaeth yn ôl demograffeg

Rhyw

Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl rhyw ar gyfer partneriaid MA ar y datganiadau gwybodaeth. Sgoriodd yr heddlu benywaidd yn sylweddol uwch na heddlu gwrywaidd ar nifer o'r datganiadau gwybodaeth 4, 5, 6 a 7 (tystiolaeth gymedrol i eithriadol), gan awgrymu bod heddlu benywaidd yn cael mwy o fudd o'r hyfforddiant o ran gwelliannau i wybodaeth am y meysydd pwnc hynny. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tablau 84 a 85.

Ardal heddlu

Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn ôl ardal heddlu o ran sgorio pa mor ddefnyddiol oedd yr hyfforddiant o ran cynyddu gwybodaeth am bob maes pwnc i'r heddlu a phartneriaid MA. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tabl 84 a 85.

Rôl swydd/sector

Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn sector swydd ar gyfer partneriaid MA ar y datganiadau gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth rhwng y rolau swyddi ar gyfer datganiad gwybodaeth 3 (tystiolaeth gymedrol). Nododd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu fod yr hyfforddiant wedi cynyddu eu gwybodaeth am “rôl cydnerthedd wrth liniaru effaith ACEs” yn fwy nag a wnaeth i gwnstabiliaid yr heddlu (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2 tabl 86). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tabl 84 i 86.

3.8 Cyflwyno'r hyfforddiant ACE TIME

Gofynnwyd i'r heddlu a phartneriaid MA sgorio ansawdd agweddau amrywiol ar yr hyfforddiant. Yn benodol, sgoriwyd trefniadaeth a hyd yr hyfforddiant, cyflwyno'r hyfforddiant ac ansawdd yr hyfforddwyr. Ar y cyd, sgoriodd yr heddlu a phartneriaid MA pob agwedd ar yr hyfforddiant ACE TIME fel 'da i ragorol' gyda sgorau cymedrig yn amrywio o 4.0 i 5.0 (gweler tabl 13), ond sgoriwyd hyd yr hyfforddiant fel 'cyfartalog i dda'. Cafodd pob agwedd ar gyflwyno'r hyfforddiant dderbyniad da gan yr heddlu a phartneriaid MA, ond yr elfennau a sgoriwyd uchaf o ran cyflwyno'r hyfforddiant oedd parodrwydd a gwybodaeth yr hyfforddwyr. Gweler atodiad 1, tablau 32 a 33 am y dadansoddiad demograffeg a'r gwyriadau safonol.

Tabl 13. Canfyddiadau o gyflwyno'r hyfforddiant ACE TIME

	Heddlu	MA
Cwestiynau	Ar ôl M (SD)	Ar ôl M (SD)
Ansawdd hyfforddiant ACE TIME:		
Trefniadaeth yr hyfforddiant	4.5 (0.6)	4.6 (0.5)
Hyd yr hyfforddiant	3.8 (1.0)	4.3 (0.8)
Cyflwyno'r hyfforddiant:		
Gwaith grŵp bach	4.3 (0.7)	4.4 (0.7)
Clip Fideo	4.5 (0.6)	4.6 (0.5)
Trafodaethau cyffredinol	4.4 (0.6)	4.6 (0.6)
Fformat darlithio	4.3 (0.7)	4.5 (0.6)
Hyfforddwyr:		
Perthnasedd sefydliadol	4.5 (0.6)	4.6 (0.5)
Gwybodaeth am y deunyddiau	4.6 (0.5)	4.7 (0.5)
Parodrwydd	4.6 (0.5)	4.7 (0.5)
Defnyddio amser yn effeithiol	4.4 (0.8)	4.6 (0.6)
Y gallu i drosi adnoddau yn enghreifftiau gweithredol	4.5 (0.7)	4.6 (0.6)

Sylwer. Cafodd yr ymatebion eu sgorio ar hyd graddfa a oedd yn amrywio o (1) gwael iawn i (5) rhagorol.

3.8.1 Cyflwyno'r hyfforddiant yn ôl demograffeg

Nid oedd unrhyw wahaniaeth yn ôl rhyw, ardal heddlu na sector swydd ar gyfer partneriaid MA ar sgorau ar gyfer ansawdd yr hyfforddiant.

Rhyw

Roedd yr heddlu benywaidd yn sgorio'r clipiau fideo (tystiolaeth gymedrol), y trafodaethau cyffredinol (tystiolaeth gref) a'r fformat darlithio (tystiolaeth gref) yn uwch o ran ansawdd na'r heddlu gwrywaidd. Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tabl 87 a 88.

Ardal heddlu

Roedd gwahaniaeth rhwng ardaloedd heddlu ar ansawdd canfyddedig ar gyfer hyd yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol) a defnyddio amser yn effeithiol (tystiolaeth gymedrol). Sgoriodd Heddlu Dyfed Powys fod hyd yr hyfforddiant yn uwch o ran ei ansawdd na'r tair ardal heddlu arall (tystiolaeth gymedrol i eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 89). Sgoriodd Heddlu Gwent fod hyd yr hyfforddiant yn uwch o ran ei ansawdd na heddlu De Cymru (tystiolaeth gref; gweler atodiad 2, tabl 89). At hynny, sgoriodd Heddlu Dyfed Powys reoli amser gan yr hyfforddwyr yn uwch o ran ei ansawdd na heddlu Gogledd Cymru a De Cymru (tystiolaeth gymedrol; gweler atodiad 2, tabl 90). Sgoriodd Heddlu Gwent reoli amser gan yr hyfforddwyr yn uwch o ran ei ansawdd na heddlu Gogledd Cymru a De Cymru (tystiolaeth gymedrol; gweler atodiad 2, tabl 90). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tabl 87 a 88.

Rôl swydd/sector

Roedd gwahaniaeth rhwng y rolau swyddi o ran ansawdd canfyddedig ar gyfer hyd yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol) a gwaith mewn grwpiau bach (tystiolaeth gymedrol). Roedd staff yr heddlu (gan gynnwys cyfathrebu/danfon) yn sgorio hyd yr hyfforddiant yn uwch o ran ei ansawdd na chwnstabiliaid yr heddlu (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 91) a ditectif gwnstabiliaid (tystiolaeth gref; gweler atodiad 2, tabl 91). Nododd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu fod hyd yr hyfforddiant yn uwch o ran ei ansawdd nag y gwnaeth cwnstabiliaid yr heddlu (tystiolaeth gref; gweler atodiad 2, tabl 91). Sgoriodd swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a staff yr heddlu (gan gynnwys cyfathrebu/danfon) y gwaith grŵp bach yn uwch o ran ei ansawdd nag y gwnaeth cwnstabiliaid yr heddlu (tystiolaeth gymedrol a chref, yn y drefn honno; gweler atodiad 2, tabl 92). Am ragor o fanylion technegol ar ganlyniadau'r dadansoddiadau a adroddir yma gweler atodiad 2, tabl 87 i 92.

3.9 Sylwadau Agored ar ôl yr Arolwg

Cynnwys a chyflwyno'r hyfforddiant

Awgrymodd fwyafrif mawr o'r cyfranogwyr fod holl gynnwys yr hyfforddiant yn ddefnyddiol (heddlu N = 161 o sylwadau, partneriaid MA = 43 o sylwadau). Y thema gyffredin ym mhob un o'r pedair ardal heddlu oedd na ddylid dileu unrhyw gynnwys o'r pecyn hyfforddiant ACE TIME presennol oherwydd bod y cyfan yn ddefnyddiol (Heddlu N = 161 o sylwadau, N partner MA = 43). Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys: "roedd y cyfan yn berthnasol i'n rolau ni" (PO, ymateb, DPP) ac roedd yn ddiddorol iawn ac yn teimlo'n briodol" (Staff yr Heddlu, GP); "roedd pob rhan yn dda. Roedd amrywiaeth dda o weithgareddau i gadw eich diddordeb. Roedd pob fideo yn ardderchog ac yn procio'r meddwl!" (Ymwelydd lechyd. NW).

Serch hynny, roedd sawl ymateb yn awgrymu mai'r cynnwys sy'n archwilio effaith profiadau plentyndod ar weithrediad yr ymennydd oedd y rhan leiaf defnyddiol o'r hyfforddiant ACE TIME (heddlu N = 17). At hynny, dywedodd rhai cyfranogwyr yn Heddlu Gogledd Cymru fod holl gynnwys yr hyfforddiant yn ddefnyddiol (heddlu N = 23 o sylwadau). Fodd bynnag, roedd eraill o'r farn mai'r cynnwys o amgylch

ffurflenni a phrosesau atgyfeirio oedd leiaf defnyddiol (heddlu $N = 11$ o sylwadau), gan fod canfyddiad bod diffyg perthnasedd i rolau penodol o fewn gwasanaeth yr heddlu; “*Nid yw CID 16 (atgyfeiriad yr heddlu) yn rhywbeth rydym yn delio ag ef yn yr ystafell reoli fel Comms Op*” [Gweithredwr Cyfathrebu] (Gweithredwr Cyfathrebu, NWP). Mae hyn yn amlygu'r angen i sicrhau perthnasedd y rolau o fewn yr heddlu sy'n ymgymryd ag agweddau penodol ar hyfforddiant ac yn tanlinellu'r angen i ystyried ymhellach a yw'n fwy priodol i rai rolau gael hyfforddiant ymwybyddiaeth ACE yn unig (h.y., modiwl A, sesiwn y bore).

Rhoddodd holl ardaloedd yr heddlu adborth cadarnhaol am ddarparu hyfforddiant ACE TIME. Disgrifiodd y cyfranogwyr y sesiwn hyfforddi fel un “*hamddenol*” (PCSO, NPT, SWP) a'i bod “*... wedi'i chyflwyno mewn modd wedi'i gyfarwyddo'n dda*” (PO, Ymateb, DPP). Dywedodd y cyfranogwyr fod y defnydd o waith grŵp a thrafodaethau grŵp yn bethau cadarnhaol (heddlu $N = 60$ o sylwadau a phartneriaid MA $N = 13$) gan eu bod yn caniatáu i unigolion “*rannu syniadau*” (PO, CID, NWP) a “*... myfyrio ar wybodaeth cydweithwyr*” (PCSO, NPT, DPP). Roedd parch mawr at gydweithrediad rhwng yr heddlu a phartneriaid MA o fewn trafodaethau grŵp gan fod hyn yn caniatáu i safbwyntiau amgen gael eu clywed a'u harchwilio: “*gwaith grŵp, clywed am brofiadau gweithwyr asiantaeth*” PO (Ymateb, DPP) a “*thrafodaethau a deall mwy am ein cydweithwyr yn yr heddlu. Gan fy mod yn credu'n gryf mai gweithio aml-asiantaeth yw'r ffordd orau o helpu teuluoedd i gyflawni eu canlyniadau*” (Cydlynnydd Tîm o Amgylch y Teulu, DP).

Roedd y defnydd cyson o gliopiau fideo i gyflwyno cynnwys allweddol yr hyfforddiant yn cael ei ganmol gan gyfranogwyr (heddlu $N = 129$ o sylwadau a phartneriaid MA $N = 23$). Ystyriwyd bod y clipiau fideo yn “*bwerus a realistig*” (Cynghorydd Gyrfaoedd, SWP), ac yn “*atgyfnerthu'r deunydd damcaniaethol*” (Rheolwr Perfformiad, YJS, NWP) a “*rhoddodd adlewyrchiad cywir o 'berson ACE' mewn fformat bywyd go iawn*” (Ymarferwr NEET, DPP) ... â “*... digwyddiadau a sefyllfaoedd go iawn y gallwn uniaethu â hwy hefyd*” (DS, PPU, SWP). Cafodd y defnydd o 'fideo cam-drin yn y cartref heddlu'r Alban' dderbyniad da ar draws y pedwar heddlu. Nodwyd yn aml mai'r fideo hwn, sy'n darlunio digwyddiad trais yn y cartref o fywyd go iawn, oedd un o'r agweddau mwyaf defnyddiol ar yr hyfforddiant (heddlu $N = 53$ o sylwadau). Ystyriwyd bod fideo cam-drin yn y cartref heddlu'r Alban yn ddefnyddiol iawn (DC, CID, GP) wrth ddangos yr hyn y gallai dioddefwyr fod wedi'i brofi: “*mae'r fideo trais yn y cartref a'r mewnbwn yn gwneud i mi feddwl 'y tu allan i'r bocs' a'r hyn a ddigwyddodd cyn i'r heddlu gyrraedd*” (PC, Ymateb, DPP): “[y] clip fideo o gam-drin yn y cartref – effeithiol iawn ac yn amlygu pwysigrwydd hyn” (PS, Ymateb, DPP). Fodd bynnag, awgrymodd nifer cymharol fach o gyfranogwyr mai fideo cam-drin yn y cartref heddlu'r Alban oedd y rhan leiaf defnyddiol o'r hyfforddiant ($N = 12$ o sylwadau); “*y fideo [oedd leiaf defnyddiol], ddim yn teimlo bod angen i swyddogion ei weld*” (PC, Ymateb, Gwent), ac y gellid ei dynnu o sesiynau hyfforddi yn y dyfodol (heddlu $N = 8$ sylw).

Er i hyd yr hyfforddiant gael ei sgorio'n dda a'r holl gynnwys yn ddefnyddiol, roedd nifer bach o gyfranogwyr o bob heddlu yn cwestiynu faint o gynnwys a gwmpaswyd yn yr hyfforddiant (heddlu $N = 24$ o sylwadau), gyda sylwadau'n awgrymu bod yr hyfforddiant ACE TIME yn rhy hir “*cwrs ardderchog, ond yn rhy hir*” (Staff yr heddlu, NWP). Awgrymodd sawl cyfranogwr y dylid byrhau'r hyfforddiant (heddlu $N = 14$ o sylwadau) yn sgil heriau o ran cynnal y gallu i ganolbwyntio ac ymgysylltu â'r deunyddiau. Awgrymodd un cyfranogwr y gellid rhannu'r hyfforddiant dros ddau ddiwrnod gyda “*llawer o gynnwys a thestun i'w brosesu*” (DC, CID, NWP).

Cafodd cyfranogwyr ar draws Heddlu Gogledd Cymru gynnwys ychwanegol ar ddiwedd y pecyn hyfforddiant ACE TIME er mwyn addysgu staff am y newidiadau parhaus i systemau Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y cynnwys hwn yn nodi manylion yr asiantaethau ar gael o fewn yr ardal leol, prosesau atgyfeirio i gael mynediad at y rhain a sut i gwblhau ffurflen atgyfeirio newydd o fewn y systemau newydd hynny. Beirniadwyd bod cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol am lwybrau atgyfeirio i Heddlu Gogledd Cymru yn rhy faith (heddlu $N = 11$ o sylwadau); “[cafodd yr hyfforddiant] ei frysio tua'r diwedd o ran y camau rydym yn eu cymryd a'r ffurflenni i'w llenwi” (CID, NWP); “*Roedd yn eithaf hir. Gellid e-bostio'r rhan am y llwybrau ac adnoddau ar y diwedd at swyddogion i gwtogi ar yr amser.*” (DC, CID, NWP); “*y clipiau fideo a oedd yn darparu rhifau cyswllt ar gyfer asiantaethau lleol yn unig, gwastraff amser.*” (DC, CID, NWP). Er bod yr elfen hon o'r hyfforddiant yn adlewyrchu'r gwaith cadarnhaol y mae'r tîm cyflawni lleol eisoes

wedi'i ddatblygu mewn perthynas â chyfeirio a llwybrau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal, mae hefyd yn dangos yr angen i ystyried a ddylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys ar wahân i'r hyfforddiant ACE TIME mewn gweithdy ar gyfer yr heddlu a phartneriaid.

Ar y llaw arall, nododd rhai cyfranogwyr mewn ardaloedd lle mae llwybrau atgyfeirio yn llai sefydledig fod angen i gynnwys hyfforddiant gynnwys mwy o wybodaeth am asiantaethau lleol (Heddlu DPP N = 5 o sylwadau, SWP N = 5 o sylwadau a GWP N = 1 sylw); *"lluniwch restr o asiantaethau a rhifau lleol ar gyfer yr Unedau Rheoli Sylfaenol (BCU) unigol."* (Ymateb PC, SWP).

Defnyddioldeb a pherthnasedd yr hyfforddiant

Yn unol â data'r arolwg, dywedodd cyfran fawr o'r cyfranogwyr (heddlu N = 113 o sylwadau a phartneriaid MA N = 43 o sylwadau) fod yr hyfforddiant wedi rhoi mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth iddynt o ACEs a thrawma: *"roedd yr hyfforddiant yn fuddiol iawn gan nad oeddwn yn gwbl ymwybodol o ACEs a'r hyn y maent yn ei wneud. Byddwn yn teimlo'n hyderus yn ymateb i bobl sy'n agored i niwed"* (heddlu GWP). Dywedodd cyfranogwyr y byddai hyn yn eu galluogi i fod yn fwy ymwybodol o arwyddion ACEs a thrawma mewn ymarfer; *"nawr gyda'r wybodaeth hon gallaf ei roi ar waith"* (heddlu DPP); *"Rwy'n gwybod nawr beth yw ACEs a beth i chwilio amdano wrth ddelio â dioddefwyr"* (heddlu GWP). Dywedodd cyfranogwyr hefyd fod yr hyfforddiant wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth iddynt o ymddygiad pobl a sut y gallai trawma effeithio ar unigolyn yn ddiweddarach mewn bywyd (heddlu N = 47 o sylwadau a phartneriaid MA N = 35 o sylwadau): *"[Y darparwr hyfforddiant] ddealltwriaeth well o sbardunau ac achosion troseddolrwydd neu alwadau sy'n cynnwys dioddefwyr/rhai sawl a ddrwgdybir"* (heddlu DPP).

Ar y cyfan, roedd yr heddlu'n canfod bod yr hyfforddiant yn berthnasol i'w rôl N = 41 o sylwadau ac yn darparu *"... mwy o ddealltwriaeth gyffredinol o'r pwnc"* (Ymchwilydd CRU, NWP). Fodd bynnag, dywedodd rhai nad oedd yr hyfforddiant yn berthnasol (heddlu N = 18 o sylwadau) a'u bod yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallent ei ddefnyddio o'r hyfforddiant yn eu rôl N = 47 o sylwadau). Felly, efallai y bydd angen gwaith ychwanegol ar yr hyfforddiant er mwyn alinio ei negeseuon i bob rôl a sector swydd *"[nid oedd yr hyfforddiant] yn ddigon ymarferol i allu helpu'n llawn"* (Gweithredwr Cyfathrebu, NWP). Efallai y bydd cyfranogwyr sydd â chyswllt wyneb yn wyneb cyfyngedig â phobl agored i niwed (e.e., staff ystafell reoli) yn teimlo'n gyfyngedig o ran faint y maent yn gallu ymateb i bobl sy'n agored i niwed: *"Fy rôl i fyddai nodi sefyllfaoedd camdriniol posibl a'u hatgyfeirio"* (Therapydd Galwedigaethol Ymarferwr Uwch, DP) a *"fy ngwaith i yw cefnogi sefydliadau sy'n cefnogi unigolion, yn hytrach nag unigolion eu hunain, felly efallai na fydd yr effaith yn fawr"* (Swyddog Datblygu Lles, NW). Felly, dylid ystyried darparu pecynnau hyfforddi penodol a llai dwys sy'n pwysleisio dull wedi'i lywio gan ACE a thrawma i'r rhai nad ydynt yn cyfathrebu'n uniongyrchol â phobl sy'n agored i niwed.

Canolbwyntiodd yr adborth ar yr angen am well dealltwriaeth o'r dull systemau cyfan y mae'r hyfforddiant ACE TIME yn ei hyrwyddo: *"rhagor am beth fydd yn digwydd yn y dyfodol"* (PC, Ymateb, DPP) a *"pherthnasedd ac enghreifftiau o ACEs o ran plismona o ddydd i ddydd"* (PO, NPT, DPP). Yn benodol, mae dau ddarn o adborth yn tynnu sylw at y ffaith bod hyn ar goll o'r hyfforddiant:

"Y weledigaeth – sut y bydd yn gweithio mewn bywyd bob dydd? Rwy'n ymwybodol eisoes o ffactorau sy'n effeithio ar blentyn ond sut galla i gael rhagor o amser i gynorthwyo'n effeithiol a gwneud newidiadau a all gael dylanwad?" (PCSO NPT, DPP)

"Ni fydd yr hyfforddiant hwn yn fy helpu i'n weithredol fel swyddog yr heddlu. Dim cyfarwyddyd newydd gwirioneddol wedi'i roi o ran pam ein bod yn cael yr hyfforddiant hwn gan ein bod eisoes yn ymdrin â phobl sy'n agored i niwed a ffactorau ACE yn unol â'r cyfarwyddyd. Ymddengys bod hyn wedi'i gyfeirio mwy at asiantaethau partner, nid yr heddlu." (Ymateb PO, DPP)

Mae'r dyfyniadau hyn yn awgrymu y gellid gwella'r hyfforddiant er mwyn egluro'n well bwysigrwydd defnyddio dull systemau cyfan, sy'n cynnwys cydweithredu rhwng gwasanaethau'r heddlu a gwasanaethau amlasiantaeth er mwyn mynd i'r afael ag ACEs a phobl sy'n agored i niwed. Yn ogystal, byddai darparu enghreifftiau gweithredol o sut y gall swyddogion ymgorffori hyn yn llwyddiannus yn eu plismona bob dydd yn helpu i amlygu perthnasedd a phwysigrwydd yr hyfforddiant hwn i swyddogion sy'n delio â lefelau uchel o bobl sy'n agored i niwed yn rheolaidd.

“Ni fydd yr hyfforddiant hwn yn effeithio ar fy ymarfer o ddydd i ddydd fel swyddog yr heddlu. Rwyf eisoes yn delio â phobl sy'n agored i niwed a gallaf nodi ffactorau ACE, cyn iddynt gael y teitl ACEs. Nid ni yw'r asiantaeth sydd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r materion hyn ac nid yw'r hyfforddiant hwn wedi'i gyfeirio at y bobl/asiantaethau cywir” (Ymateb PC, DPP)

Mae'r uchod yn awgrymu bod angen dilyn dull ymyrraeth gynnar, amlasiantaeth ar y cyd drwy systemau megis canolfannau cymorth cynnar, gan fod gan y llwybrau hyn y potensial i ddangos sut y gall dull systemau cyfan weithio. Mae'r sylwadau hyn yn amlygu ymhellach yr angen am hyfforddiant ynghylch llwybrau ymyrraeth gynnar. Tynnodd Heddlu Dyfed Powys sylw hefyd at yr angen am fwy o wybodaeth am asiantaethau lleol, gyda chyfranogwyr yn gofyn am “ymchwiliad pellach ynghylch asiantaethau ar lefel leol - cysylltiadau ac ati.” (Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion, NPT, DPP) ac i “drafod aml-asiantaethau sydd ar gael a'u rolau yn fanylach” (Swyddog NPT, Ymateb, DPP).

Dangosodd y canfyddiadau y gallai'r hyfforddiant fod yn fuddiol y tu allan i'r gwaith N = 171 o sylwadau) ac ym mywyd y cartref/personol (heddlu N = 138 o sylwadau, partneriaid MA N, = 24 o sylwadau). Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd derbyn yr hyfforddiant cyfredol ac yn nodi y gallai dysgu am ACEs a sut i reoli pobl sy'n agored i niwed effeithio ar fywydau personol cyfranogwyr:

“Dwi'n gwybod llawer gan fy mod i'n ddiodefwr cam-drin plant yn y gorffennol. Mae hyn yn fy helpu i ddeall pwysigrwydd fy swydd.” (Staff yr heddlu, Gwent)

“Bydd. Rwy'n credu efallai y gwnaeth fy mhartner dyfu i fyny mewn amgylchedd lle y byddai wedi cael 4 neu fwy o ACEs. Ond mae wedi eu goresgyn - dylai hyn fy helpu i ddeall a'i chefnogi hi'n well.” (PO, DPP)

“Mae fy mhlentyn 5 oed a minnau wedi bod yn agored i nifer o ACEs drwy gydol ein bywydau ac mae'r hyfforddiant hwn wedi bod yn agoriad llygad o ran sut i roi dealltwriaeth a chefnogaeth bellach i'm merch fach yn y cartref.” (PO, NWP)

Yn wahanol i'r uchod, cododd un cyfranogwr fater pwysig yn ymwneud ag effaith emosiynol niweidiol posibl mynychu hyfforddiant:

“Er mai aelodau staff neu swyddogion yr heddlu yw'r mynychwyr, gallai rhan o'r cwrs sbarduno pethau sydd wedi effeithio arnynt yn y gorffennol. Dylai fod e-bost manwl yn eu hysbysu o gynnwys y cwrs cyn mynychu” (PCSO NPT, SWP)

Oherwydd natur sensitif cynnwys yr hyfforddiant, mae'n hollbwysig sicrhau bod unigolion yn cael digon o rybudd am y cynnwys pan fyddant yn cael eu gwahodd i fynychu hyfforddiant. Yn ogystal â hyn, dylai briffiau hunanofal parhaus fod ar gael cyn a thrwy gydol yr hyfforddiant gyda digon o gyfleoedd dilynol ar gyfer cymorth llesiant.

Gwreiddio'r hyfforddiant mewn ymarfer

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddisgrifio sut y byddent yn defnyddio'r wybodaeth a gawsant o'r hyfforddiant ACE TIME yn eu hymarfer o ddydd i ddydd. Amlygodd yr ymatebion fod mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn teimlo y byddai'r hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymarfer a'i fod yn gyffredinol gymwys yn ymarferol ac o ran gwaith dydd i ddydd (heddlu N = 121 o sylwadau,artneriaid MS N = 21 o sylwadau) a dywedodd nifer cymharol lai ohonynt nad oeddent yn siŵr (heddlu N = 20 o sylwadau).

Awgrymodd y canfyddiadau y byddai'r hyfforddiant yn galluogi cyfranogwyr i ymateb gan ddefnyddio dulliau wedi'u llywio gan ACE a thrawma; gyda gwell cyfathrebu mewn ymarfer (heddlu N = 53 o sylwadau a phartneriaid MA N = 15 o sylwadau): *"[Byddaf] yn cymryd mwy o amser i siarad, darganfod mwy am yr hyn sy'n digwydd o dan yr wyneb, pam mae hyn yn digwydd ac ati. Rhoi cyfle iddynt siarad"* (heddlu DPP) a lefelau uwch o empathi a thosturi (heddlu N = 74 o sylwadau): *"gall pobl ag ACEs gael eu hystyried yn rhai nad oes modd eu helpu. Mae'r hyfforddiant hwn wedi dangos bod help ar gael ac nad yw byth yn rhy hwyr (heddlu NWP); "amlinellodd yr hyfforddiant bwysigrwydd cydnabod y rhesymau y tu ôl i weithredoedd rhywun, a rhoddodd gipolwg ar sut y gall gweithiwr proffesiynol osgoi sbarduno adweithiau negyddol."* (MA NWP); ac i *"beidio â barnu sefyllfa neu berson yn arwynebol"* (heddlu, GWP).

Dywedodd cyfranogwyr y bydd yr hyfforddiant yn ei gwneud yn bosibl i gasglu gwybodaeth yn well. Roedd hyn yn cynnwys edrych y tu hwnt i'r dystiolaeth gychwynnol N = 66 o sylwadau): *"Byddaf yn cymryd fy amser ac yn asesu'r sefyllfa ac yn edrych y tu hwnt i'r amlwg"* (heddlu GWP); mwy o nodi risg (heddlu N = 62 o sylwadau) a gwneud penderfyniadau (heddlu N = 19 o sylwadau); *"bydd yn fy helpu i nodi pa mor agored yw pobl i niwed a'm helpu i wneud penderfyniadau wrth nodi/graddio bygythiaf, niwed a risg"* (heddlu GWP). Yn benodol, dywedodd yr heddlu y byddent yn cymhwyso'r hyfforddiant wrth ddelio â digwyddiadau'n ymwneud â phlant a phobl ifanc (heddlu N = 58 o sylwadau) a digwyddiadau o gam-drin yn y cartref (heddlu N = 22 o sylwadau); *"ar ôl yr hyfforddiant dwi'n fwy ymwybodol o beth yw ACEs, byddaf yn chwilio amdany'n nhw'n llawer [mwy] agos pan fydd person ifanc sy'n agored i niwed yn cyflawni ASB [ymddygiad gwrthgymdeithasol]"* (PCSO, NPT, GP); *"Byddaf yn edrych ar bob digwyddiad domestig yr wyf yn ei fynychu drwy lens ACEs. Byddaf yn edrych ar yr ACEs y mae plant yn cael eu dylanwadu ganddynt ac yn gwneud penderfyniadau ac atgyfeiriadau mwy cywir"* (PO, Ymateb, GP).

Dywedodd nifer o'r heddlu y byddent yn gweithio'n gydweithredol o fewn y llu a chydag asiantaethau partner ar ôl yr hyfforddiant (heddlu N = 32 o sylwadau); *"[mae'r hyfforddiant] wedi fy nysgu i ofyn mwy o gwestiynau wrth ddelio ag asiantaethau eraill er mwyn gweld y darlun mwy o ran bywyd person"* (heddlu DPP); *"sicrhau bod gwybodaeth am ACEs yn cael ei rhannu gydag asiantaethau eraill ar gyfer pob achos unigol"* (heddlu GWP).

Roedd nifer mawr o'r ymatebwyr a oedd yn gweithio o fewn yr heddlu yn credu y byddai'r hyfforddiant yn gwella'r atgyfeiriadau yr oedd y swyddogion atgyfeirio a staff yn eu llenwi ar gyfer unigolion agored i niwed (heddlu N = 145 o sylwadau). Dywedodd swyddogion y byddent, ar ôl yr hyfforddiant, yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i'w chynnwys yn yr atgyfeiriadau, gan sicrhau eu bod yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r digwyddiad a'r risgiau a welwyd *"Defnyddio iaith wahanol yn CID-16s i gyfleu risg a niwed yn well"* (heddlu, NWP). Dywedodd ymatebwyr fod yr hyfforddiant wedi rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o unigolion sy'n agored i niwed a'r amgylchiadau a allai fod wedi arwain at eu sefyllfa bresennol, y maent yn tybio y bydd yn llywio'r atgyfeiriadau y maent yn eu cyflwyno ymhellach: *"Chwilio am ACEs a rhoi mwy o fanylion am PPN. Gwell dealltwriaeth o amgylchiadau unigolion"* (heddlu, SWP).

"Sicrhau bod yr holl CID 16s yn cynnwys manylion yr hyn rwyf wedi'i arsylwi. Cael trafodaethau gyda rhieni am yr effaith y mae ACEs yn ei chael ar eu plant" (yr heddlu, NWP).

Cyfeiriodd swyddogion a staff yr heddlu at ddefnyddio lens ACE yn ymarferol ar ôl yr hyfforddiant (heddlu $N = 30$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 10$ o sylwadau). Dywedodd un cyfranogwr y byddai'n "1) Gofyn cwestiynau agored 2) chwilio am ACEs (amgylcheddol) 3) Cyfeirio at yr Hwb Atal Cynnar 4) bydd CID 16 a gyflwynir yn canolbwyntio mwy ar ACES a nodwyd" (Heddlu, NWP). Awgrymodd hyn fod gan swyddogion a staff yr heddlu syniad cliriach o'r tasgau y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud i helpu pobl agored i niwed a darparu cymorth i fynd i'r afael â'u hanghenion. Yn benodol, tybiasant y byddai'r hyfforddiant yn gwella eu cyfeirio, cynnig cymorth a diogelu unigolion agored i niwed (heddlu $N = 92$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 14$ o sylwadau). Adroddodd swyddogion a staff yr heddlu y byddent yn rhoi gwell ystyriaeth i'r asiantaethau mwyaf priodol i gefnogi unigolyn ac ymgysylltu'n fwy â phartneriaid i "sichrau fy mod yn cyfeirio unigolion hyd eithaf fy ngallu i sichrau eu bod yn cael y pecyn cymorth cywir" (Heddlu, NWP); "Meddwl mwy am yr angenrheidrwydd o gwblhau CID 16 'rhag ofn' ac i gyfeirio a chefnogi os yn fwy perthnasol" (Heddlu, NWP); "Bydd hyn yn fy nghynorthwyo i atgyfeirio (cyfeirio) pobl at asiantaethau a fyddai orau i ddelio â thrawma pe na bai MARF yn berthnasol" (Heddlu, DPP).

Gwreiddio'r hyfforddiant mewn ymarfer:

Rhodddwyd cyfle i'r holl gyfranogwyr ystyried unrhyw rwystrau canfyddedig a allai atal hyfforddiant ACE TIME rhag ymwreiddio mewn arferion plismona cyfredol. Nodwyd rhwystrau amrywiol, a diffyg amser ac adnoddau oedd y rhwystrau mwyaf amlwg i'r heddlu a phartneriaid MA. Nododd pumdeg un o heddlu nad oedd unrhyw rwystrau i weithredu'r hyfforddiant.

Cyfyngiadau amser

Roedd cyfyngiadau amser yn aml yn cael eu hadrodd gan yr heddlu fel rhwystr i weithredu'r hyfforddiant (heddlu $N = 174$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 17$): "amser ac adnoddau i ddelio ag ACEs yn ogystal â'r sefyllfa/trosedd ei hun" (PO, Ymateb, DPP). Adroddwyd hyn yn bennaf gan y rhai a oedd yn gweithredu o fewn rôl ymateb yr heddlu. At hynny, gyda galw cynyddol ar wasanaethau'r heddlu, mynegodd swyddogion bryderon am yr angen i fynd i alwadau eraill unwaith yr ymatebwyd i'r bygythiad, y risg a'r niwed uniongyrchol (sylwadau'r heddlu $N = 49$ o sylwadau); "mae gennym gyfyngiadau amser mewn ymateb. Yn aml iawn, mae angen i ni ddelio â digwyddiad arall sy'n aros. Rwy'n gweld gwerth mewn atal ond weithiau nad oes gennym ddigon o amser" (PC, Ymateb, NWP); "fel swyddog yr heddlu mae ein hymwneud â theuluoedd yn gyfyngedig i ddelio â'r digwyddiad ar yr adeg y mae'n digwydd. Yn aml, nid oes modd i ni wneud gwaith dilynol oherwydd cyfyngiadau gwaith arall." (PC, GP). Dywedodd rhai partneriaid MA fod blaenoriaethau o fewn eu sector swydd yn rhwystr i weithredu'r hyfforddiant (partner MA $N = 10$ o sylwadau); dywedodd eraill nad oedd unrhyw rwystrau i weithredu (partneriaid MA $N = 15$ o sylwadau). Cydnabuwyd pwysigrwydd darparu cymorth i fynd i'r afael ag ACEs a thrawma cysylltiedig, ond yn amlwg roedd peth pryder ynghylch y posibilrwydd y gallai'r dull hwn ychwanegu llwyth gwaith ychwanegol o ran staff rheng flaen sydd eisoes yn rhy brysur (PO, GP).

Logisteg ac adnoddau

Roedd rhwystr sylweddol arall a ganfyddwyd ar draws y pedwar heddlu a staff MA yn cynnwys logisteg ac adnoddau (heddlu $N = 78$ o sylwadau, partneriaid MA $N = 10$ o sylwadau); "adnoddau i archwilio'r ACEs a fydd yn cymryd amser" (PO, DPP). Gall rheoli troseddwyd a chefnogi dioddefwyr fod yn drwm ar adnoddau, ond gyda nifer cyfyngedig o heddlu ar gael, canfuwyd mai'r cyflawnwr yn aml sy'n cymryd blaenoriaeth: "Mae'r heddlu'n mynd â'r camdriniwr i'r ddalfa yna [does] neb i siarad â'r dioddefwyr" (arweinydd tîm CAMHS, NW). Roedd y math o adnoddau a nodwyd amlaf yn cynnwys diffyg cyllid; "Rwy'n gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, iechyd meddwl, y gwasanaeth prawf, ac maent i gyd yn dioddef o dangyllido a llwythi gwaith eithriadol" (Rhingyll yn y ddalfa, NWP) a lefelau staffio isel; "mae amser ac adnoddau eisoes dan bwysau difrifol. Ni allaf gollu swyddogion am gyfnodau estynedig o amser" (PS, Ymateb, SWP).

Roedd cyfranogwyr o'r farn bod diffyg cyllid ar draws adrannau ac asiantaethau yn rhwystr rhag cymhwyso'r wybodaeth a gawsant o'r hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r adborth a ganlyn hefyd yn awgrymu efallai na wnaeth y cyfranogwyr adnabod yn llawn y cyfleoedd i ymyrryd fel rhan o ddull systemau cyfan; "*Fel swyddogion, y cyfan y gallwn ni ei wneud yw tynnu sylw at y sefyllfa, mae beth sy'n digwydd wedyn allan o'n rheolaeth. Yn y pen draw, mae pob adran ac asiantaeth yn cael eu tangyllido gyda phrinder staff ac maent yn cael trafferth i ddelio â'r galw ac angen, ac ni allaf weld hynny'n newid yn fuan.*" (PO Ymateb, SWP). Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod yn rhaid i'r hyfforddiant ACE TIME fod yn glir yn ei negeseuon am gyfleoedd i ymyrryd fel rhan o ddull system gyfan, i atal swyddogion rhag lleihau eu rôl o ran atal a lliniaru effaith ACEs. Mae'n hanfodol bod yr hyfforddiant ACE TIME yn cryfhau ei neges fod gan 'bawb, gan gynnwys heddwision o bob adran, rôl allweddol i'w chwarae wrth nodi ac atal ACEs yn gynnar'. Yn benodol, dylid rhoi mwy o bwyslais ar rolau'r heddlu a phartneriaid wrth ddefnyddio dulliau cyfathrebu ac ymateb i unigolion agored i niwed wedi'u llywio gan ACE, yn ogystal â'r neges 'mae pob cyswllt yn bwysig'.

Gweithio amlasiantaeth

Er y dywedodd nifer o bobl y byddai'r hyfforddiant yn hwyluso cydweithio'n well, disgrifiodd cyfranogwyr eraill waith amlasiantaeth fel rhwystr i roi'r hyfforddiant ar waith (heddlu N = 56 o sylwadau, partneriaid MA N = 10 o sylwadau). "*[mae] diffyg cymorth/arian gan asiantaethau partner. Os byddaf yn sylwi ar risgiau/bygythiadau, nid wyf yn hyderus y bydd asiantaethau cymorth yn dilyn i fyny ar fy mhryderon*"(heddlu DPP): "*[Mae] diffyg cefnogaeth gan gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill. Mae'n ofynnol i bob un ddeall ACEs er mwyn sicrhau cymuned o wasanaeth i bobl sy'n agored i niwed.*" (Rheolwr Perfformiad, Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid, NW): "*[mae] anhawster cael yr holl asiantaethau i weithio ar yr un dudalen h.y. gwneud atgyfeiriadau i [wasanaethau] cymdeithasol*" (Arweinydd Canolfan Deuluol, DP).

Ymhellach, nodwyd bod lefel y cyfathrebu rhwng asiantaethau partner yn rhwystr o fewn adborth gan bartneriaid MA. Cydnabuwyd bod angen gwell sianeli cyfathrebu rhwng yr holl asiantaethau: "*mae angen mwy o waith i ddymchwel y rhwystrau rhwng asiantaethau/rhannu gwybodaeth yn well rhwng SSD [gwasanaethau cymdeithasol]/heddlu/addysg/iechyd.*" (Uwch Gyngorydd Ymddygiad a Llesiant, DP). Yn gyffredinol, roedd y sylwadau yn tynnu sylw at gydnabyddiaeth am yr angen am ddull system gyfan a bod yn rhaid i bob asiantaeth weithio gyda'i gilydd a thuag at nod cyffredin i fynd i'r afael ag ACEs a bod yn agored i niwed: "*bod pob gwasanaeth yn rhannu'r weledigaeth o nodi ACEs ac ymyrryd*" (Rheolwr Gweithredol, NW); "*gyda chymorth asiantaethau partner, dylem allu torri'r rhan fwyaf o'r rhwystrau*" (PCSO, NPT, GP).

Diffyg ymgysylltu gan ddiodefwyr

Tynnwyd sylw at ddiffyg ymgysylltu a chydweithredu gan ddiodefwyr fel rhwystrau posibl (heddlu N = 65 o sylwadau, partneriaid MA N = 5 o sylwadau). Adroddodd yr heddlu a phartneriaid MA sawl her fel cael caniatâd gan ddiodefwyr a "*[...] amharodrwydd cleientiaid i drafod eu hamgylchiadau*" (Cynghorydd Gyrfaoedd, Gwent). Roedd yr heddlu o'r farn y gallai amharodrwydd diodefwyr i ymgysylltu o bosibl lesteirio eu dealltwriaeth ynghylch a oedd diodefwyr wedi profi ACEs ..."*diffyg gwybodaeth am ACEs os cânt eu cuddio gan ddiodefwyr*" (PO, ymateb, Gwent).

Dywedodd sawl cyfranogwr fod amharodrwydd unigolyn i dderbyn cymorth a chael mynediad at gymorth yn rhwystrau ychwanegol [...] "*mae pobl yn amharod i dderbyn help*" (Swyddog Datblygu Cymunedol, Gwent) [...] "*efallai na fydd y cleient am ymgysylltu ag asiantaeth partner i gael cymorth*" (Cydllynydd Brysbennu, Gwent). Er bod y sylw olaf yn amlygu'r ymwybyddiaeth ei bod yn bosibl nad yw rhai unigolion am ymgysylltu â gwasanaethau, mae'r sylwadau hynny hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod yr hyfforddiant wedi methu â galluogi'n effeithiol rhai cyfranogwyr i gydnabod effaith trawma ar unigolyn a sut mae hyn yn effeithio ar allu y person i ymgysylltu â gwasanaethau: "*dioddefwyr ddim yn datgelu nac yn ymgysylltu. Dim ond hyn a hyn y gall yr heddlu ei wneud – mae angen i ddiodefwyr ein helpu ni i'w helpu nhw*" (DC, NWP). Mae'r meddylfryd hwn yn gwrthdweud y negeseuon yn yr hyfforddiant ACE TIME ynglŷn ag effaith trawma ar unigolyn, felly dylid ystyried ceisio cryfhau'r elfen hon o'r hyfforddiant.

4.0 Trafodaeth ac Argymhellion

Mae'r galw ar wasanaethau'r heddlu wedi newid, gyda gostyngiad mewn troseddau a mwy o achosion o bobl sy'n agored i niwed. Mae ymchwil wedi dangos bod llawer o swyddogion a staff yr heddlu yn cydnabod mai cyfrifoldeb yr heddlu yw pobl sy'n agored i niwed a bod yr heddlu yn y sefyllfa orau fel 'ymatebwyr cyntaf' i sicrhau cymorth a chyfeirio priodol ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys pobl agored i niwed [10]. Fodd bynnag, nid yw dulliau, hyfforddiant a systemau plismona traddodiadol yn gallu diwallu'r lefelau a'r mathau o alw modern gan bobl sy'n agored i niwed. Mewn ymateb i'r galw gan bobl sy'n agored i niwed ac fel rhan o'r rhaglen E.A.T., datblygwyd hyfforddiant ACE TIME ymhellach a'i gyflwyno i'r heddlu a phartneriaid ledled Cymru, yn dilyn cynllun peilot ar raddfa lai o'r hyfforddiant yn Heddlu De Cymru [22]. Nod yr hyfforddiant ACE TIME oedd rhoi gwybodaeth i'r heddlu a phartneriaid am ACEs a'r effaith y mae trawma yn ei chael yn ystod bywyd, a'r sgiliau i ymateb yn gymwys ac yn hyderus i bobl sy'n agored i niwed gan ddefnyddio dulliau wedi'u llywio gan ACE a thrawma, a fyddai yn ei dro yn cefnogi dull systemau cyfan o atal a lliniaru ACEs.

Nod allweddol y gwerthusiad presennol oedd casglu effaith uniongyrchol hyfforddiant ACE TIME ar wybodaeth ac ymarfer yr heddlu a phartneriaid ynghyd â'u cymhwysedd a'u hyder wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed.

Canfyddiadau allweddol

Hyder wrth ddeall a gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs

Ar y cyfan, roedd cynnydd sylweddol yn hyder yr heddlu a phartneriaid MA wrth ddeall a gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed ac ACEs ar ôl cael yr hyfforddiant ACE TIME (gweler tabl 4 a ffigur 1, tud. 25 i 26). Roedd y cynnydd mwyaf ar gyfer y ddwy boblogaeth ar gyfer hyder wrth ddeall a gweithio gydag ACEs, lle roedd hyder wedi cynyddu o sgorau cymedrol i rai uchel. Roedd gan heddlu gwrywaidd a benywaidd gynnydd sylweddol yn eu hyder yn dilyn yr hyfforddiant; fodd bynnag, nododd heddlu a phartneriaid benywaidd fwy o hyder ar ôl yr hyfforddiant (gweler ffigur 2, tud. 26). Roedd hyder heddlu Gwent, Gogledd Cymru a Dyfed Powys wedi cynyddu wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed ar ôl cael yr hyfforddiant, ond nid oedd tystiolaeth o gynnydd yn heddlu De Cymru (gweler ffigur 3, tud. 27). Fodd bynnag, nododd Heddlu De Cymru lefelau sylweddol uwch o hyder o gymharu â'r tair ardal heddlu arall cyn yr hyfforddiant. Mae'n bwysig cydnabod bod heddlu De Cymru, cyn y rhaglen waith gyfredol hon, wedi dechrau gwreiddio'r agenda ACEs yn niwylliant yr heddlu fel rhan o'r hyfforddiant peilot ar plismona pobl sy'n agored i niwed [22]. Felly, mae'n bosibl bod staff heddlu De Cymru wedi cael mwy o gysylltiad â manteision posibl y gwaith cyfredol, a allai esbonio'n rhannol y gwahaniaeth mewn lefelau hyder. Yn ogystal, mae'r canfyddiadau'n amlygu bod yr hyfforddiant wedi cynyddu hyder y rhai â >3 blynedd o brofiad yn yr heddlu i fod yn debyg i'r rhai a oedd wedi gwasanaethu am >20 mlynedd, cyn iddynt dderbyn yr hyfforddiant (gweler ffigur 4, tud. 28). Roedd yr heddlu a phartneriaid o bob cefndir demograffeg yn cyrraedd lefelau hyder tebyg ac uchel (gweler tud. 26 i 27). Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod presenoldeb mewn hyfforddiant yn galluogi hyder ar draws y llu yn y ddealltwriaeth o weithio gydag ACEs a phobl sy'n agored i niwed.

Fel rhan o'r rhaglen E.A.T., mae'r heddluoedd wedi gweithio i wella effeithlonrwydd eu prosesau atgyfeirio a'u canllawiau ymarfer. Mewn rhai heddluoedd, cyflwynwyd y newidiadau hyn yn ystod yr hyfforddiant i hysbysu swyddogion am y prosesau newydd, tra bod heddluoedd eraill wedi cyflwyno'r newidiadau yn ystod gweithdai ar wahân. Cafodd cyfranogwyr ar draws heddlu Gogledd Cymru gynnwys ychwanegol yn ystod yr hyfforddiant am y newidiadau parhaus i lwybrau cyfeirio ac atgyfeirio yn systemau heddlu Gogledd Cymru. Roedd y cynnwys hwn yn nodi manylion yr asiantaethau ar gael o fewn yr ardal leol, prosesau atgyfeirio i gael mynediad at y rhain a sut i gwblhau ffurflen atgyfeirio newydd o fewn y systemau newydd hynny. Fel y cyfryw, roedd gennym ddi-ddordeb yn hyder yr heddlu ynghylch pryd i

gyflwyno atgyfeiriadau o ran bod yn agored i niwed (h.y. atgyfeiriad yr heddlu neu atgyfeiriad uniongyrchol at asiantaethau). Yn ddi-ddorol cynyddodd hyder Heddlu Dyfed Powys a Gwent o ran pryd i gyflwyno atgyfeiriad o ran bod yn agored i niwed yn dilyn yr hyfforddiant (gweler ffigur 5, tud. 29). Fodd bynnag, ni fu unrhyw wahaniaethau o ran hyder ar gyfer heddlu Gogledd Cymru na De Cymru. Mae hyn yn awgrymu bod heddlu De Cymru yn llai sensitif i fanteision posibl yr hyfforddiant o ran hyder o'i gymharu ag ardaloedd heddlu eraill efallai oherwydd lefelau uwch o hyder cyn yr hyfforddiant. Dywedodd heddlu o Ogledd Cymru fod darparu'r wybodaeth ychwanegol ar lwybrau atgyfeirio yn rhy hir ac mai dyna ran leiaf defnyddiol yr hyfforddiant (gweler tud. 58). Felly, gallai'r wybodaeth ychwanegol am lwybrau cyfeirio ac atgyfeirio fod wedi cyfyngu ar faint o hyder a gawsant o'r agwedd honno ar yr hyfforddiant. Mae'r elfen hon o'r hyfforddiant yng Ngogledd Cymru yn adlewyrchu'r natur ddatblygedig a'r gwaith cadarnhaol y mae'r tîm cyflawni lleol eisoes wedi'i ddatblygu o ran cyfeirio a llwybrau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal a chefnogi pobl sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gallai fod angen ystyried a ddylid dileu'r wybodaeth hon o'r hyfforddiant ACE TIME ac, yn hytrach, ei rhoi mewn gweithdy heddlu a phartneriaid MA. Serch hynny, mae angen ymchwil yn y dyfodol i asesu unrhyw fudd hyder pellach yn dilyn yr hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer yr heddlu yng Ngogledd Cymru, y gellid bod angen arnynt ragor o amser i brosesu a deall y llwybrau atgyfeirio newydd.

Hyder a chymhwysedd i ymateb i bobl sy'n agored i niwed

Ar y cyfan, nododd yr heddlu a phartneriaid MA y bydd y pecyn hyfforddiant yn eu galluogi i ymateb yn hyderus ac yn gymwys i bobl sy'n agored i niwed drwy ddefnyddio dull wedi'i lywio gan ACE (gweler tabl 9, tud. 50). Dywedodd yr heddlu benywaidd y bydd yr hyfforddiant yn eu galluogi i ymateb yn hyderus a chymwys i bobl sy'n agored i niwed yn sylweddol fwy nag a wnaeth heddlu gwrywaidd (gweler ffigur 15, tud. 51).

Un o'r negeseuon cyson o'r sylwadau agored oedd bod cyfranogwyr yn teimlo eu bod bellach yn meddu ar well dealltwriaeth o ymddygiadau pobl (gweler tud. 59), a oedd yn ei dro yn rhoi gwell ymwybyddiaeth iddynt o sut y gallai profiadau trawmatig effeithio ar unigolyn yn ddiweddarach yn ei fywyd. Ar ôl yr hyfforddiant, dywedodd nifer mawr o gyfranogwyr fod ganddynt fwy o wybodaeth am ACEs. At hynny, dywedodd rhai cyfranogwyr y byddai hyn yn eu galluogi i fod yn fwy ymwybodol o arwyddion ACEs a thrawma, a gwella eu gallu i nodi ACEs adnabod pan fo rhywun yn agored i niwed (gweler tud. 59).

Ar draws yr heddlu a phartneriaid roedd cydnabyddiaeth sylweddol y gallai'r hyfforddiant gael ei gymhwyso i ymarfer mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys casglu gwybodaeth, asesu risg a gwneud penderfyniadau, rhannu gwybodaeth, yn ogystal â rhoi cymorth uniongyrchol i unigolion agored i niwed (gweler tud. 61 i 62). Thema ychwanegol ac amlwg o'r sylwadau agored oedd y bydd hyfforddiant yn gwella'r atgyfeiriadau mae swyddogion a staff yr heddlu yn eu cwblhau ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed. Dywedodd yr heddlu y byddant yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r wybodaeth y mae angen iddynt ei chynnwys o fewn ffurflenni atgyfeirio, ac y byddant yn darparu disgrifiad mwy cynhwysfawr o'r digwyddiad a'r risgiau a welwyd yn ogystal â defnyddio iaith fwy priodol (gweler tud. 61 i 62). Ar ôl yr hyfforddiant, dywedodd rhai cyfranogwyr fod ganddynt syniad cliriach o'r tasgau y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud i helpu pobl agored i niwed a darparu cymorth i fynd i'r afael â'u hanghenion. Yn benodol, tybiasant y byddai'r hyfforddiant yn gwella eu cyfeirio, ac yn eu helpu i gynnig cymorth a diogelu i unigolion agored i niwed (gweler tud. 61 i 62).

Ar ôl derbyn yr hyfforddiant, dywedodd rhai cyfranogwyr y byddai eu dealltwriaeth o fod yn agored i niwed a gwybodaeth am ACEs yn eu galluogi i gael gwell cyfathrebu a rhyngweithio mwy cadarnhaol gyda phobl sy'n agored i niwed, gyda mwy o empathi a thosturi (gweler tud 61). Mae'r canfyddiadau hyn yn allweddol gan fod ymchwil yn amlygu pwysigrwydd empathi'r heddlu [28]. Hynny yw, gallu gweld safbwynt person arall i gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu a gwneud sefyllfaoedd cyswllt yn effeithiol (h.y. gofyn cwestiynau perthnasol a chasglu gwybodaeth berthnasol) [28]. Dylai ymchwil pellach asesu a yw hyfforddiant ACE TIME yn cael effaith ar empathi ac ymddygiad empathig o fewn cyd-destun plismona.

Agweddau tuag at ACEs a thrawma cysylltiedig

Mae ymchwil wedi nodi bod gan agweddau ddylanwad pwysig ar ymddygiad [29, 30]; mae damcaniaeth newid sefydliadol yn nodi mai'r rhaglenni newid llwyddiannus yw'r rhai sy'n targedu ac sy'n effeithiol o ran addasu agweddau cyflogeion at ymddygiadau dymunol [31]. Fel y cyfryw, roedd gan y rhaglen hyfforddi bresennol gyfres o negeseuon perswadiol yn eiriol dros ddefnyddio ymarfer wedi'i lywio gan drawma wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed. Er mwyn asesu a oedd yr hyfforddiant wedi dylanwadu ar agweddau cyfranogwyr tuag at ddulliau wedi'u llywio gan ACE a thrawma at blismona, datblygodd y tîm ymchwil dair neges (wedi'u llunio gan negeseuon craidd yr hyfforddiant ACE TIME): neges 1 “*mae'n bwysig i swyddogion yr heddlu ddeall beth yw ACEs*”; neges 2 “*mae gan bawb ran i'w chwarae wrth gefnogi unigolion sy'n profi trawma*” a; neges 3 “*dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd i liniaru ACEs a thrawma cysylltiedig*”. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddarllen y negeseuon hynny ac yna nodi i ba raddau yr oeddent o blaid y neges ac yna pa mor sicr yr oeddent o'u hagwedd tuag at bob neges.

Yn dilyn yr hyfforddiant, newidiodd agweddau'r heddlu i fod yn fwy o blaid y negeseuon wedi'u llywio gan ACE a thrawma (gweler tabl 8, tud. 31). Roedd yr heddlu a phartneriaid MA o blaid y negeseuon hyfforddiant yn dilyn yr hyfforddiant, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gyfer newid agwedd i bartneriaid MA sy'n awgrymu nad oedd yr hyfforddiant wedi cael unrhyw fudd ychwanegol i bartneriaid o ran newid agweddau. Bu cynnydd o ran pa mor sicr yr oedd rhai heddlu am eu hagweddau. Yn benodol, symudodd yr heddlu o fod yn gymedrol sicr o'u hagweddau tuag at fod yn sicr iawn o'u hagweddau (gweler tabl 8, tud. 44). Roedd y newid cyfeiriadol o ran agwedd o blaid dulliau wedi'u llywio gan ACEs a thrawma, felly mae'r cynnydd mewn sicrwydd agwedd yn ganfyddiad cadarnhaol sy'n awgrymu bod agweddau cyfranogwyr yn sylweddol fwy cryf yn dilyn yr hyfforddiant. Mae'r canfyddiad hwn yn bwysig oherwydd mae ymchwil yn awgrymu y gall gwybodaeth a geir am agwedd wella sicrwydd agwedd [23] ac yn ei dro arwain at ymddygiad sy'n adlewyrchu neges yr agwedd (h.y., ymarfer wedi'i lywio gan ACE a thrawma) [24, 25]. Mae angen ymchwil pellach i asesu'r berthynas rhwng y newid mewn sicrwydd agwedd a amlygir yn y gwaith presennol ac unrhyw newid mewn ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r negeseuon hyfforddiant.

Ar ôl yr hyfforddiant, roedd pob rhyw, ardal heddlu a rôl swydd o fewn yr heddlu a phartneriaid MA o blaid y negeseuon hyfforddiant (gweler tud. 46 i 51). Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau ar draws y newidynnau demograffeg yn dilyn yr hyfforddiant. Roedd yr heddlu benywaidd yn sylweddol fwy o blaid y tair neges hyfforddiant nag yr oedd yr heddlu gwrywaidd (gweler tud. 46 i 51). Roedd gwahaniaethau mewn agweddau ar draws ardaloedd yr heddlu cyn yr hyfforddiant; fodd bynnag, yn syth ar ôl yr hyfforddiant roedd gan pob ardal heddlu agweddau tebyg tuag at y negeseuon hyfforddiant (h.y. o blaid; gweler tud. 46 i 51). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu yn dilyn yr hyfforddiant, bod agwedd gadarnhaol gyffredinol tuag at gydnabod pwysigrwydd deall a chefnogi ACEs a thrawma cysylltiedig, o ddull plismona ac amlasiantaeth. Mae'r canfyddiad hwn yn allweddol oherwydd gall agweddau a chredoau cyffredin alluogi a gwreiddio diwylliant plismona cadarnhaol o ran ymyrraeth gynnar ac atal ac, yn ei dro, galluogi trawsnewidiad yr heddlu.

Ymatebion i senarios plismona gweithredol (ymddygiad gwrthgymdeithasol)

Datblygodd y tîm ymchwil ddwy senario i adlewyrchu digwyddiadau go iawn yr oedd yr heddlu'n ymateb iddynt yn gyffredin. Roedd y senario gyntaf yn disgrifio digwyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â pherson ifanc (gweler tud. 30, blwch 3) ac roedd yr ail yn disgrifio achos o gam-drin yn y cartref (gweler tudalen 36, blwch 4). Darllenodd y cyfranogwyr bob senario cyn ac ar ôl yr hyfforddiant ac ymateb i nifer o ddatganiadau a oedd yn ceisio asesu barn a phenderfyniadau proffesiynol cyfranogwyr mewn perthynas â dull wedi'u lywio gan ACE a thrawma i blismona pobl sy'n agored i niwed. Yn dilyn yr hyfforddiant, symudodd barn broffesiynol a phenderfyniadau'r heddlu a phartneriaid MA tuag at ddull o blismona wedi'i lywio gan ACE a thrawma. Yn dilyn yr hyfforddiant, wrth ystyried digwyddiad ASB, ehangodd ffocws yr heddlu a'r partneriaid MA o'r drosedd ei hun i gynnwys persbectif mwy cyfannol o ba mor agored i niwed oedd y

plentyn ac ymddygiadau dilynol. Ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu yn canfod bod y plentyn yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol arall, ond ei fod yn fwy agored i niwed ac yn llai cyfrifol am ei weithredoedd (gweler tabl 6, tud. 31). Mae hyn yn awgrymu bod y negeseuon hyfforddi wedi cipio'r berthynas rhwng ACEs, bod yn agored i niwed ac ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol.

At hynny, yn dilyn yr hyfforddiant, roedd partneriaid MA o'r farn bod y plentyn yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol arall (gweler tabl 6, tud. 31). Felly, ar gyfer partneriaid MA, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod yr hyfforddiant wedi cynyddu dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng bod yn agored i niwed ac ymddygiad troseddol. Yn unol â data'r arolwg, dywedodd nifer mawr o bartneriaid MA fod yr hyfforddiant wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth iddynt o ymddygiad pobl a sut y gallai trawma effeithio ar unigolion yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae'r senario ASB yn ddigwyddiad a weithredir fel "ymateb gohiriedig" ac felly mae'n arwydd o drosedd lefel isel. Ar ôl derbyn yr hyfforddiant, roedd yr heddlu o'r farn bod y digwyddiad yn fwy o fater i'r heddlu. Pwysleisiodd yr hyfforddiant fod cyfrifoldeb ar bawb i ymdrin â bod yn agored i niwed, ac yn y senario arbennig hwn, gwelwyd sut oedd bod yn agored i niwed yn amlwg mewn troseddau lefel isel. Yn bwysig, roedd natur y drosedd ei hun yn ddigyfnewid (h.y. lefel isel) a theimlai'r heddlu fwy o gyfrifoldeb am ddelio â'r senario yn dilyn yr hyfforddiant (gweler tabl 6, tud. 31). Roedd partneriaid MA yn canfod bod y digwyddiad yn y senario yn fwy o fater i'r heddlu yn dilyn yr hyfforddiant (gweler tabl 6, tud. 31). At hynny, awgrymodd sylwadau partneriaid MA o'r ymatebion agored fod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol o ran deall safbwyntiau a phwysau'r heddlu a bod yn fwy ymwybodol o'u gwaith, a all yn ei dro helpu gweithio aml-asiantaeth yn well (tud. 58). Gallai hyn awgrymu, yn dilyn yr hyfforddiant, fod gan bartneriaid MA well dealltwriaeth o rôl yr heddlu wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed a'u cyfle i ymyrryd. Mae'r ddealltwriaeth hon gan bartneriaid MA yn bwysig er mwyn galluogi dull amlasiantaeth well o ran pobl sy'n agored i niwed. Hefyd, roedd yr heddlu a phartneriaid MA yn ystyried y digwyddiad yn y senario ASB yn fwy difrifol ar ôl yr hyfforddiant (gweler tabl 7, tud. 31). Yn bwysig, roedd sgorau difrifoldeb yn parhau o fewn yr ystod gymedrol ac o fewn ffiniau'r hyn a fyddai'n realistig ar gyfer "ymateb gohiriedig". Mae hyn yn dangos bod yr heddlu a phartneriaid wedi gallu rhoi pwyntiau dysgu'r hyfforddiant ar waith cyn cael cyfle i'w gweithredu.

Roedd nifer o wahaniaethau demograffeg ym marn a phenderfyniadau proffesiynol yr heddlu. Er bod yr heddlu gwrywaidd a benywaidd o'r farn bod y plentyn yn llawer mwy agored i niwed yn dilyn yr hyfforddiant (gweler ffigur 7, tud. 34), roedd yr heddlu benywaidd o'r farn bod y plentyn yn llawer mwy agored i niwed na'r heddlu gwrywaidd. Ar ôl yr hyfforddiant, roedd Dyfed Powys yn dal i ystyried bod y plentyn yn fwy agored i niwed na'r tair ardal heddlu arall, a hynny cyn ac ar ôl yr hyfforddiant (tystiolaeth eithriadol; gweler atodiad 2, tabl 33). Mae'r canfyddiadau hyn yn anodd eu hegluro'n llawn, nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng ardaloedd y llu ar y newidynnau demograffeg, ond mae'n werth ystyried y gall fod gan ardaloedd plismona gwledig (h.y. Dyfed Powys) lai o alw cyffredinol o ran pobl sy'n agored i niwed o gymharu ag ardaloedd plismona eraill sy'n llai gwledig (e.e. De Cymru). Yn unol â hyn, o'r rhai a nododd "dim rhwystrau" i roi'r hyfforddiant ar waith, roedd DPP yn cyfrif am tua 40% o'r ymatebion hynny. Dylai ymchwil pellach archwilio'r berthynas rhwng plismona gwledig, faint o alw sydd gan bobl sy'n agored i niwed a'r rhwystrau i roi'r hyfforddiant ar waith.

Ymatebion i senarios plismona gweithredol (cam-drin yn y cartref)

Newidiodd barn a phenderfyniadau proffesiynol yr heddlu a phartneriaid MA o ran y senario cam-drin yn y cartref o'r cyfnod cyn yr hyfforddiant i ar ôl yr hyfforddiant. Cynyddodd ystyriaeth yr heddlu a phartneriaid o weithdrefnau diogelu oedolion ar ôl cael yr hyfforddiant ACE TIME (gweler tabl 7, tud. 37). Mae hwn yn newid hynod o arwyddocaol o safbwynt plismona; roedd y sgorau cyn hyfforddiant ar gyfer gweithdrefnau diogelu oedolion yn uchel, ac nid yw hyn yn syndod o ystyried bod cam-drin yn y

cartref yn cael ei gategoreiddio fel “trosedd niwed uchel” a bod ymchwil blaenorol wedi dangos bod 48% o atgyfeiriadau'r heddlu dros gyfnod o 12 mis wedi'u cyflwyno ar gyfer achosion o gam-drin yn y cartref [11]. Mae'r hyfforddiant a ddarperir yn canolbwyntio ar gydnabod achosion sylfaenol ymddygiad, ond mae'r sylwadau agored hefyd yn awgrymu bod cymhorthion hyfforddi megis clipiau fideo ac astudiaethau achos (gan ddefnyddio persbectif oedolyn) wedi cynyddu empathi a dealltwriaeth yr heddlu o amlygrwydd bod yn agored i niwed mewn digwyddiadau cam-drin yn y cartref. Ymhellach, roedd yr heddlu a phartneriaid MA yn ystyried bod y digwyddiad cam-drin yn y cartref yn llawer mwy difrifol yn dilyn yr hyfforddiant (gweler tabl 7, tud. 37). Unwaith eto, roedd yr heddlu benywaidd o'r farn bod y digwyddiad yn llawer mwy difrifol cyn ac ar ôl yr hyfforddiant nag yr oedd heddlu gwrywaidd (gweler tud. 41).

Roedd yr heddlu a phartneriaid MA yn ystyried bod y plant yn y senario cam-drin yn y cartref yn llawer mwy agored i niwed yn dilyn yr hyfforddiant (gweler tabl 7, tud. 37). Cyn ac ar ôl yr hyfforddiant, roedd yr heddlu benywaidd yn ystyried bod y plant yn fwy agored i niwed nag yr oedd yr heddlu gwrywaidd (gweler ffigur 9, tud. 40). Ar ôl rheoli ar gyfer y gwahaniaethau oedd yn bodoli eisoes, roedd yr heddlu benywaidd yn dal i weld y plant yn fwy agored i niwed na'r heddlu gwrywaidd. At hynny, ni wnaeth ystyriaeth yr heddlu o weithdrefnau diogelu plant gynyddu ar ôl yr hyfforddiant. Fodd bynnag, dangosodd y canlyniadau fod ystyriaeth o weithdrefnau diogelu plant yn uchel iawn (yr ymateb mwyaf dymunol) felly nid yw diffyg newid yma yn syndod (gweler tabl 7, tud. 37).

Dealltwriaeth o ddull wedi'i lywio gan ACE a thrawma

Nododd nifer mawr o gyfranogwyr fod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol o ran ehangu eu gwybodaeth am bob maes pwnc (gweler tud. 57), yn enwedig ynghylch deall ACEs ac effaith bosibl ACEs ar gwrs bywyd. Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn cytuno bod angen ystyried pobl sy'n agored i niwed ym mhob rhan o blismona a'i fod yn bosibl newid cwrs bywyd person waeth faint o ACEs y mae wedi'i brofi (gweler tabl 10, tud. 52). Fodd bynnag, ar gyfartaledd roedd yr heddlu'n niwtral a/neu'n ansicr am y datganiad canlynol a oedd yn gwrthdweud dull wedi'i lywio gan ACE a thrawma at weithio MA: “*cyfrifoldeb gweithwyr cymdeithasol yn bennaf yw ymdrin ag ACEs*” (gweler tabl 10, tud. 52). Dangosodd dadansoddiad pellach fod yr heddlu hŷn, a oedd wedi gwasanaethu'n hirach yn yr heddlu yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad hwn (gweler tabl 10, tud. 52). Mae hyn yn awgrymu nad oedd yr hyfforddiant yn galluogi'r heddlu'n ddigonol i gydnabod arwyddocâd eu rôl gyffredin yn yr ymateb aml-asiantaeth i fod yn agored i niwed.

Mae'r ymchwil ACEs yn dangos bod unigolion sy'n profi nifer uwch o ACEs mewn mwy o berygl o gael canlyniadau negyddol yn ddiweddarach yn eu bywydau. Yng ngoleuni'r ymchwil hwn, mae gwasanaethau yn aml yn camddehongli'r cyfrif ACE i weithredu fel trothwy neu offeryn sgrinio i wasanaethau [10]. Fodd bynnag, er y gall ystyried ACEs helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall achosion sylfaenol bod yn agored i niwed ac ymddygiad problemus, mae'n bwysig i wasanaethau asesu risg o niwed ac effaith trawma ar sail unigol. Datblygwyd un datganiad yn yr arolwg gwerthuso i asesu'r camddefnydd posibl o ACEs mewn plismona: “*dylid blaenoriaethu achosion yn seiliedig ar y nifer o ACEs a sgoriwyd ar restr wirio*”. Roedd sgorau'r heddlu a phartneriaid MA yn dangos eu bod hefyd yn niwtral o ran cytuno â'r datganiad hwn. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos bod yr heddlu a phartneriaid MA yn cytuno â nifer o ddatganiadau wedi'u llywio gan ACE a thrawma. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu angen am hyfforddiant ACE TIME yn y dyfodol i bwysleisio ymhellach y camddefnydd o ACEs fel rhestr wirio ar gyfer blaenoriaethu achosion.

Rhwystrau canfyddedig i gymhwyso gwybodaeth

Un o nodau ychwanegol y gwerthusiad oedd archwilio effaith yr hyfforddiant o ran gwreiddio dull wedi'i lywio gan ACE a thrawma mewn plismona a gwaith amlasiantaeth integredig a fyddai'n cynorthwyo dull systemau cyfan o ran atal a lliniaru ACEs. Roedd nifer sylweddol o gyfranogwyr yn amlwg yn teimlo bod diffyg ymgysylltu a pharodrwydd i ddatgelu profiadau trawmatig gan ddiodefwyr yn rhwystrau i roi'r hyfforddiant ar waith (gweler tud. 63). Nododd yr heddlu a phartneriaid MA heriau megis cael caniatâd a chasglu gwybodaeth am ACEs gan ddiodefwyr sy'n gyndyn o ymgysylltu, derbyn cymorth a chael gafael ar gymorth. Cyflwynodd yr hyfforddiant gynnwys ar effaith trawma ar ymddygiad a'r sgiliau tactegol sydd eu hangen i gefnogi pobl sy'n agored i niwed pan fyddant yn mynd i ddiwyddiadau (e.e. technegau tawelu). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu nad oedd yr hyfforddiant, i rai cyfranogwyr, yn mynd i'r afael yn ddigonol â rhai o'r heriau y mae'r heddlu yn eu hwynebu wrth weithio gyda phobl sy'n agored i niwed a effeithiwyd gan drawma. Felly, dylid ystyried ceisio cryfhau'r elfen hon o'r hyfforddiant i uwchsgilio mynychwyr, cynyddu cydnabyddiaeth o gyfleoedd i ymyrryd yn yr amgylchiadau hynny a gyflwynir uchod a rhoi'r hyder iddynt ymgorffori'r dulliau gweithredu yn eu hymarfer.

Roedd yr heddlu hefyd yn rhagweld y byddai cyfyngiadau amser, galw a blaenoriaethau yn rhwystrau sylweddol i ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd o'r hyfforddiant ACE TIME (gweler tud. 62). Mynegodd heddlu bryderon am yr angen i ddargyfeirio a mynd i alwadau eraill ar ôl ymateb i fygythiad, risg a niwed uniongyrchol digwyddiad yr ymatebwyd iddo: *“pwysau i fynd o alwad i alwad”*; *“delio â blaenoriaethau troseddu”* a *“y cyfan y gallwn ni ei wneud yw tynnu sylw at y sefyllfa, mae beth sy'n digwydd o hynny ymlaen allan o'n rheolaeth”*. Mae adborth o'r fath yn awgrymu bod angen datblygu'r hyfforddiant ymhellach er mwyn integreiddio rhai o'r rhwystrau y gall yr heddlu eu hwynebu a chyfleoedd i optimeiddio rôl yr heddlu wrth ymateb i bobl sy'n agored i niwed. Mae hefyd yn hanfodol bod unrhyw hyfforddiant ACE TIME yn y dyfodol yn atgyfnerthu'r rôl allweddol y mae swyddogion yr heddlu (o bob adran) yn ei chwarae o fewn y dull systemau cyfan o nodi ac atal ACEs yn gynnar, ac ymdrin â phobl sy'n agored i niwed.

